

Y GYMDEITHAS
FFERYLLOL
FRENHINOL

Cwricwlwm Fferyllydd Sylfaen Ôl-gofrestru



Cynnwys

RHAGAIR	4
RHAGAIR (PARHAD)	5
DIOLCHIADAU	6
DIFFINIADAU CWRICWLWM ALLWEDDOL	7
1. CYFLWYNIAD	9
1.1 Sut y gall gwahanol randdeiliaid ddefnyddio'r ddogfen hon?	11
1.2 Beth yw rolau a chyfrifoldebau arfaethedig gwahanol randdeiliaid yn y cwricwlwm hwn?	11
1.3 Sut cafodd y cwricwlwm hwn ei ddatblygu a sut y bydd yn cael ei lywodraethu?	12
2. PWRPAS Y CWRICWLWM	13
2.1 Sut mae'r cwricwlwm yn ategu gwasanaethau ac anghenion cleifion?	13
2.2 Beth yw cwmpas ymarfer fferylllydd sy'n cwblhau'r cwricwlwm hwn?	13
2.3 Sut mae'r cwricwlwm hwn yn cefnogi'r llwybr addysg a datblygiad proffesiynol ehangach i fferyllwyr?	15
3. Y RHAGLEN DDYSGUOF LEARNING	17
3.1 Galluoedd, canlyniadau a disgrifyddion	19
3.2 Sut mae'r cwricwlwm yn cefnogi arferion rhagnodi diogel?	37
3.3 Pa sgiliau asesu clinigol craidd sydd wedi'u cynnwys?	37

3.4 Sut y byddwn yn sicrhau bod cynnwys dysgu'r cwricwlwm yn gynhwysol?	38
---	----

4. DARPARIAETH ADDYSG A HYFFORDDIANT

39

4.1 Sut y gellir cyflwyno hyfforddiant yn erbyn y cwricwlwm?	39
4.2 Pa fathau o brofiadau ddylai unrhyw hyfforddiant eu cynnwys?	41
4.3 Pa strwythurau goruchwyllo a chymorth ddylai fod ar waith i gefnogi dysgu?	42
4.3.1 Goruchwylwyr addysgol	44
4.3.2 Ymarferydd Rhagnodi Dynodedig	45
4.3.3 Goruchwylwyr Ymarfer	46
4.4 Pa fathau o ddysgu ddylai rhaglenni hyfforddi eu cynnwys?	46
4.4.1 Dysgu seiliedig ar waith	46
4.4.2 Dysgu hunan-gyfeiriedig	47
4.4.3 Dysgu gydag eraill	47
4.4.4 Dysgu ffurfiol	47

Cynnwys (Parhad)

5.	Y RHAGLEN ASESU	48	5.10	Beth sydd angen i ddatrysiaid e-bortffolio ei gynnwys?	54
5.1	Beth yw pwrpas y rhaglen asesu?	48	5.11	Beth yw'r broses ar gyfer penderfynu bod unigolyn wedi cwrdd â gofynion y cwricwlwm?	55
5.2	Sut bydd y model ar gyfer cyflwyno hyfforddiant yn dylanwadu ar yr asesiad terfynol?	48	5.12	Glasbrint asesu	56
5.3	Beth yw asesiad rhaglenol?	50	5.13	Sut ddylai fferyllwyr dderbyn adborth o ansawdd uchel yn ystod rhaglenni?	61
5.4	Beth yw digwyddiad dysgu dan oruchwyliaeth?	51	5.14	Sut mae'r asesiad achredu terfynol yn gweithio?	63
5.5	Pa offer digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth sydd angen bod ar gael i asesu dysgwyr yn ymarferol o ran yr e-bortffolio?	52	5.15	Sut y gellir sicrhau ansawdd yr asesiad achredu terfynol?	65
5.6	Pa fathau eraill o dystiolaeth y gellir eu defnyddio yn ychwanegol at ddigwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth?	53	5.16	Sut mae dysgu ardystiedig blaenorol yn cael ei gydnabod?	65
5.7	Beth yw'r gofynion tystiolaeth ar gyfer asesiad terfynol y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS)?	53	5.17	Sut ydym ni'n sicrhau bod yr asesiad achredu terfynol yn gynhwysol a bod unrhyw ragfarn bosibl yn cael ei liniaru?	66
5.8	A oes gofyniad am ymarfer myfyriol?	54	6.	ATODIADAU	67
5.9	Beth yw'r graddfeydd canlyniadau a beth mae'r rhain yn ei olygu o ran gofynion tystiolaeth?	54	6.1	Dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol	67
			7.	LLYFRYDDIAETH	69

Rhagair

Mae arferion fferylliaeth wedi parhau i esblygu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae datblygiad gwasanaethau gofal iechyd clinigol i gleifion yn y DU wedi creu disgwyliadau ychwanegol ac uwch gan weithwyr fferyllol proffesiynol. Mae hyn wedi dod yn gliriach fyth yn ystod y pandemig covid-19 lle mae fferylliaeth wedi chwarae rhan sylweddol wrth gyfarfod anghenion gwasanaethau a chleifion.

Mae'r cwricwlwm hwn wedi'i gynllunio i gefnogi fferyllwyr ôl-gofrestru cynnar i dyfu o gyrraedd safonau cychwynnol addysg a hyfforddiant i fod yn ymarferwyr hyderus sy'n gallu darparu gofal cynyddol gymhleth. Mae'n cynrychioli cam cyntaf fferylllydd yn ei daith datblygiad proffesiynol ôl-gofrestru; mae wedi'i strwythuro i ddarparu continwwm ôl-gofrestru troellog, gan ddatblygu fferyllwyr i symud yn ddi-dor i lefelau ymarfer uwch ac ymgynghorwyr. Mae'r galluoedd clinigol ac anghlinigol craidd wedi'u cynllunio i greu gweithlu fferyllol mwy hyblyg a chludadwy ac alinio â'r rhai a ddefnyddir mewn proffesiynau eraill.

Mae canlyniadau'r cwricwlwm wedi'u tynnu o'r priodoleddau y mae'r proffesiwn ehangach wedi dweud wrthym yn flaenorol y bydd eu hangen ar fferyllwyr y dyfodol.

Rydym yn cydnabod bod y proffesiwn mewn cyfnod o drawsnewid wrth i Safonau Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol y GPhC gael eu cyflwyno. Erbyn 2025/6 bydd pob cofrestrai newydd yn rhagnodwyr annibynnol a bydd angen i'r cwricwlwm hwn esblygu a newid eto i gadw i fyny â hynny. Rydym yn gweld y cwricwlwm hwn fel pont a fydd yn cefnogi cofrestreion newydd, cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant i gynllunio rhaglenni datblygu ôl-gofrestru cynnar dros y pum mlynedd nesaf.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r niferoedd mawr o bobl o bob rhan o'r proffesiwn a thu hwnt sydd wedi cyfrannu at gynhyrchu'r cwricwlwm hwn. Hoffwn hefyd ddiolch i aelodau grŵp Gweithredu mewn Perthyn, Diwylliant ac Amrywiaeth (ABCD) RPS am eu mewnbwn i'n Hasesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau bod y cwricwlwm hwn yn berthnasol ac yn hygyrch i bawb. Gyda'n gilydd, ni yw fferylliaeth.



Gail Fleming

Cyfarwyddwr Addysg a Datblygiad Proffesiynol
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol

Rhagair (Parhad)

Mae tirwedd ymarfer gofal iechyd sy'n newid yn gyflym yn amlgu fwyfwy arbenigedd proffesiynol fferyllwyr sydd ar flaen y gad ym maes gofal cleifion. Mae 'sut' y mae cydweithwyr fferylliaeth yn darparu gofal yn parhau i esblygu, a adlewyrchir yn y defnydd cynyddol o dechnoleg i alluogi rhagnodi annibynnol, ymgynghoriadau rheng flaen ac asesu anghenion cleifion a chwmpasau ymarfer uwch hyd at lefel Meddygon Ymgynghorol. Mae 'lle' mae'r gofal hwnnw'n cael ei ddarparu yr un mor gymhleth a heriol, yn rhychwantu gofal cymunedol, gofal sylfaenol a gofal ysbyty eilaidd. Mae 'pw' y darperir y gofal hwnnw iddo yn adlewyrchu nid yn unig disgwyliadau cleifion ond hefyd y gdnabyddiaeth o fferyllwyr fel cydweithwyr allweddol, arbenigol gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill, sy'n hollbwysig i swyddogaeth timau gofal iechyd amlbroffesiynol.

Gyda gweledigaeth gyffrous ar gyfer addysg fferyllol ac ymarfer proffesiynol, mae'n amserol bod yr RPS wedi cynnal adolygiad uchelgeisiol, blaengar o'r cwricwlwm a safonau asesu. Mae sicrhau bod yr asesiad o gymhwysedd yn cyd-fynd ag arferion gofal iechyd ac addysg presennol (ac yn y dyfodol) wedi bod yn gonglfaen i ni, gan ganolbwyntio ar gyflawni rhagoriaeth mewn addysg fferylliaeth sy'n gysylltiedig ag effeithiau ansawdd uchel ar gyfer dysgwyr, ymarferwyr, rheoleiddwyr ac yn bwysicaf oll, cleifion. Yn ganolog i hyn bu sylw i ddilysrwydd, gan sicrhau bod asesu yn bodloni anghenion dysgwyr a goruchwylwyr, gan adlewyrchu arfer bob dydd ar draws ystod o amgylcheddau a'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau craidd sydd eu hangen i gyflawni hyn.

Mae cymhlethdod ymarfer fferylliaeth broffesiynol (y 'sut, ble a phwy') wedi mynnu dull gweithredu sy'n cydnabod y gwahanol lwybrau hyfforddi a'r sectorau y mae fferyllwyr ôl-gofrestru yn gweithio ynddynt. I'r perwyl hwn, mae tynnu ar egwyddorion asesu rhaglennol wedi galluogi llwybr hynod hyblyg at asesiad, gyda ffocws nid ar 'offer asesu' unigol ond ar werth casglu tystiolaeth ochr yn ochr ag arfer dydd, derbyn a gweithredu ar adborth o ansawdd uchel a phenderfyniad asesu cyffredinol yn seiliedig ar adolygiad o'r dystiolaeth hon yn erbyn canlyniadau wedi'u diffinio'n glir. Mae dyfodol cyffrous ar y gweill wrth 'asesu asesu' a rhannu canfyddiadau ymchwil, gwersi, canlyniadau ac arbenigedd o'r dull newydd hwn gyda'r gymuned Addysg Proffesiynau Iechyd ehangach.

Er bod 'egwyddorion a phrosesau' addysgol wedi bod yn hollbwysig i raglen asesu RPS, ei 'bobl' fu calon yr adolygiad. Roedd datblygu a chyfeirio diwylliant asesu sy'n cydnabod ac yn hyrwyddo arfer fferylliaeth ôl-gofrestru o ansawdd uchel yn uchelgais heriol, ac roedd maint y rhanddeiliaid ar draws gofal iechyd ehangach yr un mor gymhleth. Fodd bynnag, mae'r cyfoeth o dalent mewn ymarfer ac addysg fferylliaeth (o bob un o'r pedair gwlad, sectorau ymarfer a chyrrff rheoleiddio) a gyfrannodd at yr adolygiad hwn wedi bod yn grŵp yr wyf wedi bod yn falch ac wedi bod yn freintiedig i weithio gydag ef. Nodwedd amlwg iawn fu gweledigaeth ac athroniaeth cymuned, creadigrwydd a colegoldeb mewn datblygiad addysgol. Mae fy nodyn gwerthfawrogiad olaf yn nwylo'r rhai a fydd yn hanfodol i lwyddiant y rhaglen hon - cynrychiolwyr cydweithwyr fferylliaeth iau sydd wedi cyfrannu cymaint at ddyluniad y rhaglen asesu RPS hon.

Yr Athro Richard Fuller Dirprwy Ddeon;

Athro Addysg Feddygol;

Meddyg Strôc Ymgynghorol er Anrhydedd

Ysgol Feddygaeth, Prifysgol Lerpwl

Diolchiadau

Hoffai'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol ddiolch i'n partneriaid yn y Coleg Brenhinol am rannu eu dysgu a'u myfyrddau ar arfer gorau wrth ddatblygu'r cwricwlwm clinigol, gyda diolch arbennig i:

- Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol
- Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
- Cyd-Fwrdd Hyfforddi Colegau Brenhinol y Meddygon

Hoffem hefyd gydnabod mewnbyn sylweddol cwricwlwm sylfaen ôl-gofrestru'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS), grwpiau asesu a rhagnodi sydd wedi darparu mewnbyn ac arbenigedd, ac sydd wedi helpu i lunio'r cwricwlwm hwn:

- Simon Badcott
- Darrel Baker
- Heather Bell
- Juliette Becuwe
- Ian Cubbin
- Damian Day
- Kelsey Drummond
- David Evans
- Richard Fuller
- David Gibson
- Kat Hall
- Lloyd Hambridge
- Kath Hodgson
- Parbir Jagpal
- Cecilia Livermore
- Emma Llewellyn
- Helga Mangion
- Ricarda Micallef
- Fiona McMillan
- Gareth Nickless
- Laura O'Loan
- Katie Reygate
- Debra Roberts
- Susan Roberts
- Gordon Rushworth
- Jennifer Silverthorne
- Roberta Tasker
- Hannah White
- Daniel Young

Diffiniadau cwricwlwm allweddol

FFRAMWAITH FFERYLLIAETH UWCH (APF)

Y fframwaith RPS a ddefnyddir ar gyfer nodi camau cynyddol uwch mewn ymarfer fferylliaeth.

PRIODOL

Gweithred sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n ddiogel, sy'n gost-effeithiol ac sy'n adlewyrchu eich barn glinigol, yn ogystal â sefyllfa a hoffterau'r unigolyn.

ASESIAD

Yr holl weithgarwch sydd â'r nod o farnu cyrhaeddiad dysgwr o ran canlyniadau dysgu'r cwricwlwm, p'un ai at ddibenion crynodedol (pennu cynnydd boddhaol o ran hyfforddiant neu gwblhau'r hyfforddiant), neu ffurfiannol (datblygiadol). Gellir diffinio canlyniad fel lefel perfformiad neu ymddygiad y mae disgwyl i hyfforddai ei gyflawni fel rhan o'i ddatblygiad yn unol â'i gyfnod hyfforddi yn y cwricwlwm.

GLASBRINT

Matrics a ddefnyddir i ddiffinio cynnwys asesiad. Mae hyn yn sicrhau bod y rhaglen asesu yn cwmparu'r holl ganlyniadau a ddiffinnir gan y cwricwlwm.

FFINIAU

Ffiniau traddodiadol yn y system gofal iechyd rhwng gwahanol broffesiynau, meysydd ymarfer clinigol a / neu ardaloedd daearyddol.

GALLUOEDD

Mae galluoedd proffesiynol lefel uchel a chymhleth yn hyblyg ac yn ymaddasol mewn ystod eang o gyd-destunau ac yn cyfuno'r wybodaeth, y sgiliau, yr ymddygiadau a'r profiad sydd eu hangen ar fferyllwyr i reoli senarios cleifion bywyd go iawn.

CYDWEITHREDWR

Unrhyw unigolyn sy'n cefnogi fferyllwyr sy'n ymgymryd â'r rhaglen hon i gofnodi eu dysgu, e.e. aelod o'r tîm sy'n cyfrannu at adborth aml-ffynhonnell, unigolyn sy'n cwblhau arolwg cleifion neu uwch aelod sy'n cynnal digwyddiad dysgu dan oruchwyliaeth.

PWYNT CYNNYDD CRITIGOL

Pwynt mewn cwricwlwm lle mae dysgwr yn trosglwyddo i lefel uwch o gyfrifoldeb proffesiynol neu'n mynd i mewn i faes ymarfer newydd neu fwy arbenigol. Mae'r pyrrh hyn yn cynrychioli lefel uwch o risg i gleifion felly mae'n rhaid rheoli'r trawsnewid trwy'r pwyntiau hyn yn gadarn, fel arfer trwy rwystrau asesu crynodedol.

CYMHWYSTER

Gwobr sy'n cydnabod cynnydd a chwblhad pwynt cynnydd critigol yn llwyddiannus o fewn rhaglen asesu.

CWRICWLWM

Datganiad o nodau ac amcanion arfaethedig, cynnwys, profiadau, canlyniadau dysgu a phrosesau rhaglen, gan gynnwys disgrifiad o'r strwythur a'r dulliau disgwyliedig o ddysgu, addysgu, asesu, adborth a goruchwyliaeth.

DISGRIFYDD

Datganiad neu enghraifft eglurhaol o'r lefel a'r ehangder perfformiad disgwyliedig sy'n ofynnol i gyflawni canlyniadau'r cwricwlwm.

MAES

Casgliad o alluoedd a chanlyniadau sydd â thema gyffredin.

PWYLLGOR ADDYSG A SAFONAU

Y pwyllgor sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd cyffredinol holl weithgareddau asesu a chredydu'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS).

PROFIAD (EHANGDER)

Pan fydd fferylllydd wedi ennill digon o brofiad i allu ymarfer yn ddiogel ac yn gymwys ar y lefel perfformiad ddisgwyliedig. Nid yw hyn yn gysylltiedig â mesur meintiol, yn hytrach mae'n ymwneud â phan fydd y fferylllydd wedi caffael a chydgrynhoi'r canlyniadau dysgu.

FFRAMWAITH FFERYLLYDD SYLFAEN (FPF)

Fframwaith yr RPS a ddefnyddir ar gyfer nodi arfer fferylliaeth lefel sylfaen.

ADOLYGIADAU CYNNYDD CANOLRADD

Pwyntiau gwirio ffurfiannol a gynhelir gan banel adolygu yn ystod y rhaglen a allai arwain at gyflwyno camau cefnogol pellach i sicrhau cynnydd parhaus.

PENDERFYNIADAU TERFYNOL

Pwyntiau dilyniant risgiau uwch critigol yn seiliedig ar nifer o bwyntiau data a adolygir yn gyfannol gan bwyllgor cymhwysedd. Bydd canlyniad y penderfyniad hwn yn pennu a yw unigolyn wedi cyflawni canlyniadau'r cwricwlwm yn foddhaol ac a oes modd ei achredu.

CANLYNIADAU

Yn disgrifio'r hyn sydd i'w gyflawni gan fferyllwyr sy'n ymgymryd â'r rhaglen; mae'r rhain yn disgrifio gwybodaeth, sgiliau, ymddygiadau a phrofiad y rheini sy'n cwblhau'r rhaglen asesu yn llwyddiannus.

ROLAU SY'N CANOLBWYNTIO AR GLEIFION

Rolau sy'n cael effaith uniongyrchol ar gleifion unigol a / neu boblogaethau cleifion, er efallai na fydd hyn yn cynnwys cyswllt uniongyrchol rheolaidd â chleifion.

UNIGOLYN

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys y term "canolbwyntio ar yr unigolyn" ac mae'n cyfeirio at "yr unigolyn / unigolion" drwyddo draw. Mae hyn yn golygu "yr unigolyn sy'n derbyn gofal". Gall y term hefyd fod yn berthnasol i ofalwyr, teulu neu gynrychiolwyr yr unigolyn, yn dibynnu ar y sefyllfa.

PANEL ASESU FFERYLLWYR SYLFAEN ÔL-GOFRESTRU

Y panel sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd gweithgareddau asesu a chredydu'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) sy'n ymwneud ag ymarfer fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru.

PWYLLGOR CYMHWYSEDD FFERYLLWYR SYLFAEN ÔL-GOFRESTRU

Grŵp o arbenigwyr â chymwysterau priodol sy'n dod i benderfyniadau terfynol ar gynnydd unigolion o ran cael eu hachredu.

RHAGLEN ASESU

Y set o asesiadau unigol sydd wedi'u cynllunio i asesu canlyniadau'r cwricwlwm. Mae cyfuno'r asesiadau unigol hyn i mewn i raglen yn caniatáu ar gyfer dyfarniadau integredig ar berfformiad unigolyn.

RHAGLEN DDYSGU

Matrics o'r galluoedd, y canlyniadau dysgu a'r disgrifyddion a bennir fel rhai sy'n angenrheidiol i ddarparu'r gwasanaethau a ddiffinnir gan bwrpas y cwricwlwm.

SICRWYDD ANSAWDD

Y safonau, y systemau a'r prosesau sydd ar waith i gynnal a gwella ansawdd er mwyn rhoi sicrwydd i gleifion a'r cyhoedd bod fferyllwyr yn cwrdd â'r safonau gofynnol.

RHEOLI ANSAWDD

Mae gan yr RPS rôl ym maes rheoli ansawdd o ran sicrhau bod cwricwla ac asesiadau cenedlaethol yn cael eu datblygu a'u darparu'n gyson ac yn unol â'r safonau ansawdd.

Mae Health Education England, NHS Education for Scotland, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a chyflogwyr yn gyfrifol am reoli rhaglenni hyfforddiant a chynnydd fferyllwyr sy'n ymgymryd â dysgu a hyfforddi. Bydd gan y sefydliadau hyn systemau rheoli ansawdd ar waith i fodloni eu hunain bod darparwyr addysg a hyfforddiant yn cwrdd â'r safonau gofynnol.

1 Cyflwyniad

Mae fferyllwyr yn arbenigwyr ar feddyginiaethau a'u defnydd. Maent yn cefnogi iechyd y boblogaeth ac yn rheoli pobl â chyflyrau aciwt a thymor hir ar draws pob sector gofal iechyd. Mae fferyllwyr yn gweithio'n agos gyda phobl, gofalwyr / teuluoedd, a'r tîm amlddisgyblaethol iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gofal fferyllol diogel, effeithiol a chyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn trwy ystod eang o wasanaethau. Mae'r cwricwlwm hwn yn diffinio pwrpas, cynnwys dysgu a'r rhaglen asesu ar gyfer fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru, gan sicrhau bod yr unigolyn, optimeiddio meddyginiaethau a darpariaeth gwasanaeth wrth wraidd rôl y fferylllydd.

Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS) yw'r corff arweinyddiaeth broffesiynol ar gyfer fferyllwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yn 2018, galwodd y Prif Swyddogion Fferyllol ym mhedair gwlad y DU ar y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol i ddatblygu llwybr datblygiad proffesiynol ôl-gofrestru ar gyfer fferyllwyr sy'n canolbwyntio ar gleifion ar draws pob sector yn y DU. Mae'r continwwm datblygu yn symud ymlaen o lefel ymarfer sylfaen ôl-gofrestru, trwy lefel uwch-fferylliaeth at lefel fferylliaeth ymgynghorol. Lefel yr ymarfer a ddisgrifir yn y cwricwlwm hwn yw pwynt gorffen ymarfer ôl-gofrestru cynnar. Cyfeiriwyd at hyn yn flaenorol fel ymarfer lefel sylfaen ond, o hyn ymlaen yn y ddogfen hon, cyfeirir ato fel ymarfer lefel sylfaen ôl-gofrestru.

Yn ystod haf 2020, cyhoeddwyd diwygiadau sylweddol i addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr er mwyn cefnogi'r galw cynyddol am fferyllwyr clinigol sy'n canolbwyntio ar gleifion, a all weithio'n hyblyg o fewn timau amlddisgyblaethol integredig. Ar ôl cwblhau'r MPharm, bydd pumed flwyddyn addysg a hyfforddiant cychwynnol y fferyllwyr yn flwyddyn hyfforddi sylfaen, a byddant yn gallu rhagnodi'n annibynnol o'r pwynt cofrestru. Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC) yw'r rheolydd ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd, a rhagwelir y bydd y dull graddol o weithredu'r Safonau GPhC diwygiedig ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr wedi'i gwblhau erbyn 2026.

Mae yna wahanol ddulliau o ddarparu addysg a hyfforddiant ôl-gofrestru a gellir defnyddio cwricwlwm sylfaen ôl-gofrestru'r RPS i ddatblygu rhaglenni hyfforddi sy'n ategu Fframwaith

Fferylllydd Sylfaen yr RPS (2019)¹. Mae cwricwlwm yr RPS yn nodi canlyniadau disgwyliedig, heb fandad, y cyfnod sylfaen ôl-gofrestru, yn manylu ar y strwythurau goruchwyllo a chymorth a argymhellir, ac yn cael ei gefnogi gan lasbrint asesu. Bydd cwblhau rhaglen asesu'r cwricwlwm yn llwyddiannus yn arwain at ddyfarnu achrediad RPS, sy'n dangos cyflawniad y canlyniadau.

Mae gan ddarparwyr hyfforddiant yr hyblygrwydd i ddewis sut maen nhw'n cyflwyno addysgu a dysgu i fodloni canlyniadau'r cwricwlwm. Er mwyn cefnogi'r trawsnewidiad i'r safonau GPhC diwygiedig ar gyfer addysg gychwynnol a hyfforddiant fferyllwyr, cynlluniwyd y rhaglen ddysgu ac asesu i gynhyrchu rhagnodwyr annibynnol, yn ogystal â datblygu galluoedd sylfaenol mewn meysydd anghlinigol sy'n hanfodol ar gyfer symud ymlaen i lefelau ymarfer uwch. Am y rheswm hwn, bydd unrhyw raglen hyfforddi sy'n ategu'r cwricwlwm hwn yn cynnwys cyflwyno'r elfen ragnodi annibynnol (+/- elfennau anghlinigol) gan sefydliad addysg uwch.

Bydd y cwricwlwm sylfaen ôl-gofrestru yn cefnogi'r rheini sy'n cymhwyso rhwng nawr a chychwyn gweithredu'r diwygiadau, i ddod yn rhagnodwyr

annibynnol trwy lwybr strwythuredig yn gynnar yn ystod eu gyrfaeod a, thrwy hynny, weithredu fel rhaglen bontio wrth i'r diwygiadau gael eu cyflwyno'n raddol.

Wrth i'r diwygiadau addysg a hyfforddiant cychwynnol fynd rhagddynt, bydd peth o gynnwys clinigol y cwricwlwm hwn, sy'n ymwneud yn benodol â rhagnodi, yn cael ei gyflwyno'n raddol i'r cyfnod addysg a hyfforddiant cychwynnol. O ganlyniad, bydd cydran glinigol y cwricwlwm hwn yn esblygu i gefnogi rhagnodwyr newydd i ddatblygu eu hyder, eu cymhwysedd ac i ehangu cwmpas eu hymarfer.


Nid yw cwblhau'r cwricwlwm sylfaen ôl-gofrestru yn rhagofyniad ar gyfer cychwyn llwybr achredu uwch yr RPS, ond mae'n caniatáu i fferyllwyr ddatblygu sgiliau ac ymddygiadau clinigol ac anghlinigol a fydd yn gosod y sylfaen ar gyfer ymarfer uwch.

Mae'r cwricwlwm sylfaen ôl-gofrestru yn agored i bob fferylllydd sy'n ymarfer mewn rolau sy'n canolbwyntio ar gleifion. Nid yw aelodaeth o'r RPS yn ofyniad i gael mynediad at unrhyw raglenni sy'n ategu'r cwricwlwm, nac i gael eu hachredu trwy'r rhaglen asesu a fynegir yn y cwricwlwm hwn.

1. Mae Fframwaith Fferylllydd Sylfaen yr RPS (2019) yn disgrifio priodweddau fferyllwyr sylfaen presennol ac yn y dyfodol (pum mlynedd nesaf) ledled y DU. Cymeradwywyd y fframwaith gan y Bwrdd Goruchwyllo Llywodraethu Addysg (EGOB), sy'n cynnwys uwch randdeiliaid o'r proffesiwn, gan gynnwys y Prif Swyddogion Fferyllol o bob rhan o'r DU, uwch gynrychiolwyr o fferylliaeth gymunedol, gofal sylfaenol ac eilaidd, y rheolydd ac uwch academyddion maes fferylliaeth.

Ffigwr 1.

Trosolwg o'r ddarpariaeth rhaglen hyfforddi sy'n ategu cwricwlwm sylfaen ôl-gofrestru'r RPS.



1.1 Sut y gall gwahanol randdeiliaid ddefnyddio'r ddogfen hon?

Gall fferyllwyr sy'n ymgymryd â rhaglen sy'n ategu'r cwricwlwm hwn fonitro eu cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau, gan sicrhau eu bod yn derbyn yr addysg, yr hyfforddiant a'r profiad priodol. Bydd hyn yn cyfrannu at arfarnu, hunanasesu, dysgu hunan-gyfeiriedig, ac asesiad ffurfiannol a chrynodol yn erbyn y canlyniadau.

Gall goruchwylwyr ac ymarferwyr rhagnodi dynodedig sicrhau bod fferyllwyr sy'n ymgymryd â'r rhaglen yn datblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ymddygiadau priodol, ac yn cyrchu'r profiad priodol er mwyn eu datblygu. Gallant ddefnyddio'r cwricwlwm i wirio eu bod yn darparu addysg, cefnogaeth ac arweiniad i gwmpasu'r meysydd cywir.

Bydd **darparwyr hyfforddiant** yn gallu dylunio rhaglenni dysgu strwythuredig a sicrhau mapiau addysgu lleol i'r cwricwlwm.

Bydd **cyflogwyr** yn gallu defnyddio'r cwricwlwm i gefnogi cynlluniau datblygu proffesiynol a phersonol ar gyfer datblygiad gweithwyr, yn ogystal â deall cwmphas ymarfer fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru.

Gall **cynllunwyr a chomisiynwyr gwasanaeth** gyfeirio at y cwricwlwm i ddeall galluoedd y gweithlu fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru wrth ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau.

Bydd **cleifion a lleygwyr** yn gallu gweld y safon sy'n ofynnol i fferyllwyr ymarfer ar lefel sylfaen ôl-gofrestru.

Bydd **aseswyr a chydweithredwyr** yn gallu cyfeirio at ganlyniadau a disgrifyddion y cwricwlwm i gefnogi a safoni gweithgareddau asesu.

1.2 Beth yw rolau a chyfrifoldebau arfaethedig gwahanol randdeiliaid yn y cwricwlwm hwn?

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC)

- Yn gosod y safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol;
- Yn gosod y safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant rhagnodwyr fferyllol annibynnol;
- Yn achredu darpariaeth rhagnodi annibynnol.

Pedair llywodraeth y DU a'u sefydliadau cysylltiedig

- Nodi a blaenoriaethu anghenion strategol, system, gwasanaeth neu weithlu, gan gynnwys ariannu, cynllunio, comisiynu a rheoli ansawdd rhaglenni hyfforddi trwy eu priod sefydliadau addysgol.

Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS)

Dylunio a datblygu'r cwricwlwm sylfaen ôl-gofrestru a'r rhaglen asesu ar y cyd ac yn unol â'r safonau a fynegir yng nghanllaw datblygu cwricwlwm yr RPS a safonau rhagnodi annibynnol y GPhC;

- Cynnal, monitro a gwerthuso'r cwricwlwm sylfaen ôl-gofrestru a'r rhaglen asesu, ac eithrio unrhyw elfennau a gyflwynir ar wahân gan sefydliad addysg uwch;
- Gweinyddu un asesiad cyffredin o bortffolio ehangach y dysgwr yn erbyn canlyniadau'r cwricwlwm a dyfarnu cymhwyster fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru.

Cyrff addysg statudol (os ydynt yn comisiynu)

Comisiynu a / neu ddarparu elfennau o raglenni hyfforddi, neu raglenni hyfforddi cyflawn, i fodloni canlyniadau dysgu'r cwricwlwm;

- Sicrhau ansawdd y ddarpariaeth rhaglenni hyfforddiant a gomisiynwyd;
- Rheoli ansawdd yr oruchwyliaeth.

Sefydliadau addysg uwch

- Darparu elfennau o raglenni hyfforddi, neu raglenni hyfforddi cyflawn, i fodloni canlyniadau dysgu'r cwricwlwm (gan gynnwys unrhyw hyfforddiant rhagnodi annibynnol);

- Sicrhau ansawdd ymarferwyr rhagnodi dynodedig. Gall hefyd fod yn rhan o reoli ansawdd goruchwyliaeth;
- Sicrhau bod safonau rhagnodi annibynnol yn cael eu bodloni wrth ddarparu hyfforddiant rhagnodi annibynnol;
- Dyfarnu Tystysgrif Ymarfer mewn Rhagnodi Annibynnol.
- Darparwyr addysg a hyfforddiant lleol (os cânt eu comisiynu) / cyflogwyr
- Darparu hyfforddiant a gomisiynwyd;
- Gweithredu elfennau o ddysgu ar lefel leol;
- Goruchwyllo dysgwyr wrth iddynt ymarfer;
- Cynnal digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth yn y gweithle;
- Darparu rheolaeth ansawdd a chymryd rhan mewn prosesau rheoli ansawdd ym maes addysg a hyfforddiant.

1.3 Sut cafordd y cwricwlwm hwn ei ddatblygu a sut y bydd yn cael ei lywodraethu?

Mae'r galluoedd a'r canlyniadau yn y cwricwlwm hwn yn seiliedig ar Fframwaith Fferyllydd Sylfaen yr RPS (2019) a oedd yn gynnyrch dadansoddiad rôl aml-ddull i nodi'r priodoleddau sy'n ofynnol ar ddiwedd hyfforddiant fferyllydd sylfaen ôl-gofrestru o fewn rolau presennol ac yn y dyfodol (pum mlynedd nesaf). Cymerodd oddeutu 900 o unigolion ran yn y dadansoddiad rôl, gan ddarparu ystod eang o safbwyntiau (e.e. uwch randdeiliaid, fferyllwyr sylfaen a chyflogwyr).

Mae canlyniadau'r cwricwlwm sylfaen ôl-gofrestru hefyd wedi'u mapio i Fframwaith Fferyllydd Uwch yr RPS (2013); mae'r mwyafrif yn mapio i Gam Uwch I, ac mae mwy o bwyslais ar ofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn y cwricwlwm hwn.

Er mwyn galluogi rhaglenni sylfaen ôl-gofrestru i gynhyrchu rhagnodwyr annibynnol, mae'r canlyniadau hefyd wedi'u mapio i Safonau'r GPhC

ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr syn rhagnodwyr annibynnol (2019) a Fframwaith Cymhwysedd yr RPS ar gyfer pob Rhagnodydd (2016) a'u dilysu gan gydweithwyr allanol.

Datblygwyd y cwricwlwm sylfaen ôl-gofrestru hwn yn unol â'r safonau ansawdd a ddiffinnir yng Nghaniell Datblygu Cwricwlwm yr RPS gan ddau grŵp ar wahân:

- Grŵp cwricwlwm sylfaen ôl-gofrestru;
 - Grŵp asesu sylfaen ôl-gofrestru.
- Roedd y ddau grŵp yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid i sicrhau bod y rhaglen ddysgu ac asesu yn gynhwysol i wahanol sectorau ac ardaloedd daearyddol, gan gynnwys:
- Y GPhC a Pharmaceutical Society of Northern Ireland;
 - Cynrychiolwyr cyrff addysg statudol o bob rhan o'r DU: Health Education England, Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC), NHS Education for Scotland;
 - Northern Ireland Centre for Pharmacy Learning and Development;
 - Academaidd;
 - Cyflogwyr (gofal sylfaenol, cymunedol ac ysbyty);
 - Dysgwyr (lefel fferyllydd sylfaen cyn-gofrestru ac ôl-gofrestru).

Bydd goruchwyliaeth barhaus y cwricwlwm, gan gynnwys yr adolygiad cyfnodol o'i ganlyniadau, yn cael ei wneud gan Banel Asesu Fferyllydd Sylfaen Ôl-gofrestru'r RPS, sy'n ateb i Bwyllgor Addysg a Safonau'r RPS.

2

Pwrrpas y Cwricwlwm

2.1 Sut mae'r cwricwlwm yn ategu gwasanaethau ac anghenion cleifion?

Mae cynlluniau strategol y GIG a'r gweithlu ar draws y pedair gwlad yn gyson gan eu bod yn cynnwys proffesiwn fferylliaeth wedi'i uwchsgilio fel un o'r galluogwyr allweddol i yrru'r newidiadau sy'n ofynnol ar gyfer darparu gofal iechyd modern. Rhaid i'r gweithlu fferylliaeth gyrfaedd cynnar ddatblygu a thrawsnewid i fod yn hyderus, yn hyblyg a meddu ar alluoedd ehangach, gan gynnwys gwell sgiliau ymgynghori, diagnostig, archwilio clinigol a llythrennedd digidol. Gan gyfuno'r sgiliau ychwanegol hyn â'r arbenigedd fferyllol presennol, gall fferyllwyr gyrfaedd cynnar weithio'n annibynnol o fewn timau amlddisgyblaethol integredig ar draws pob sector i wella canlyniadau iechyd i bobl trwy ddarparu gofal gwell, mwy diogel a mwy cost effeithiol. Mae cyflawni'r uchelgeisiau hyn yn cael ei ategu gan y gydnabyddiaeth bod datblygu'r gweithlu fferyllol yn flaenoriaeth, sy'n galw am fuddsoddiad (o ran amser ac arian) er mwyn hyfforddi fferyllwyr a'u hyfforddwy / mentoriaid gweithle, a datblygu diwylliant o ddysgu gydol oes.

Mae'r cwricwlwm sylfaen ôl-gofrestru wedi'i gynllunio i fynegi'r wybodaeth, y sgiliau, yr ymddygiadau a'r profiad sy'n ofynnol gan fferyllwyr i ddarparu gofal fferyllol cynyddol gymhleth i bobl ar draws ystod o leoliadau.

Hyd yn hyn, mae argaeledd hyfforddiant sylfaen ôl-gofrestru ledled y DU wedi bod yn amrywiol, ac yn ddibynnol ar sector a daearyddiaeth. Bydd y cwricwlwm hwn yn:

- Caniatáu datblygu modelau hyfforddi mwy safonol, yn seiliedig ar waith, ar gyfer pob fferylllydd sylfaen ôl-gofrestru ledled y DU;

- Datblygu'r galluoedd sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion gwasanaeth cyfredol ac yn y dyfodol y GIG, a darparu gwell gofal i gleifion;
- Datblygu fferyllwyr gyrfaedd cynnar sydd â'r galluoedd i weithio ar draws ystod o sectorau / lleoliadau, gan gynnwys meysydd fel gofal brys a chartrefi gofal;
- Datblygu gwybodaeth ddychafedig, y sgiliau clinigol a'r sgiliau gwneud penderfyniadau beirniadol sy'n ofynnol i ddod yn rhagnodydd annibynnol;
- Darparu cyfleoedd i fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru ddatblygu eu hunain ac eraill, meithrin eu sgiliau arwain a rheoli a chymryd rhan mewn gwaith ymchwil²;

Darparu sicrwydd ansawdd a chysur i gleifion / y cyhoedd, trwy asesiad cenedlaethol safonedig, bod gan fferyllwyr gyrfaedd cynnar yn y DU y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiad angenrheidiol i ddarparu gofal fferyllol cyfannol, diogel ac effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i boblogaeth gynyddol gymhleth o gleifion.

Gellir defnyddio'r cwricwlwm cynhwysfawr hwn o fewn pedair gwlad y DU i ddatblygu rhaglenni addysgol ategol i ddiwallu eu hanghenion penodol.

2.2 Beth yw cwmpas ymarfer fferylllydd sy'n cwblhau'r cwricwlwm hwn?

Mae cynnwys y cwricwlwm wedi cael ei lywio gan y gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar gleifion y byddai disgwyl i fferylllydd sylfaen ôl-gofrestru eu darparu mewn gofal cymunedol, sylfaenol ac eilaidd. Cynlluniwyd y cwricwlwm i ddatblygu fferyllwyr sy'n gallu:

- Cyfathrebu'n effeithiol, gan roi'r unigolyn yng nghanol unrhyw ryngweithiad;
- Darparu gofal cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn;
- Cydweithio â'r tîm fferyllol ac amlddisgyblaeth ehangach;

2. Yr ymgais i gael gwybodaeth newydd gyffredinol neu drosglwyddadwy i ateb neu fireinio cwestiynau perthnasol gyda dulliau gwyddonol gadarn. Mae'n eithrio archwiliadau a gwerthusiadau gwasanaeth. Fel y'i diffinnir yn [Fframwaith Polisi'r DU ar gyfer Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#). Gweler hefyd [offeryn Penderfyniad HRA](#) a [thabl Diffinio Ymchwil HRA](#).


- Cymhwyso gwybodaeth a sgiliau clinigol yn ymarferol;
 - Tynnu ar, a gwerthuso gwybodaeth briodol yn feirniadol er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau, ac i reoli ansicrwydd a risgiau clinigol;
 - Defnyddio data a thechnoleg ddigidol i wella gofal cleifion a chanlyniadau;
 - Hyrwyddo gwasanaethau fferyllol a datblygu'r proffesiwn;
 - Nodi cyfleoedd ar gyfer newid, arloesi a gwella ansawdd;
 - Arddangos hunanymwybyddiaeth, gwytnwch a hyblygrwydd;
 - Cefnogi addysg a datblygiad cydweithwyr;
 - Cyfrannu at waith ymchwil.
- Bydd unigolion sydd â'r galluoedd hyn yn cyflawni'r cwmpas ymarfer canlynol:
- Gwella'r defnydd diogel ac effeithiol o feddyginiaethau trwy optimeiddio meddyginiaethau;
 - Gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf i bobl sydd angen gofal; ymateb i, a rheoli cyflyrau clinigol cyffredin;
 - Cyflwyno ymyriadau a chefnogaeth i bobl a phoblogaethau lleol i leihau anghydraddoldebau iechyd, atal salwch a hybu iechyd;
 - Darparu gofal fferyllol cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i bobl â chyflyrau aciwt a thymor hir ym mhob lleoliad, gan sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar y cyd;

- Rheoli pobl gynyddol gymhleth a phobl ag aml-afiachusrwydd yn erbyn cefndir poblogaeth sy'n heneiddio;
- Darparu gwasanaethau clinigol gwell er mwyn gwella'r cymysgedd sgiliau ar draws y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol;
- Gweithio gyda phobl a'r tîm gofal iechyd i hyrwyddo ac annog defnydd cost-effeithiol o feddyginiaethau trwy optimeiddio meddyginiaethau, dad-ragnodi a lleihau gwastraff;
- Rhagnodi o fewn cwmpas ymarfer cytunedig;
- Gweithio gyda thimau amlddisgyblaethol integredig;
- Cymhwyso egwyddorion rheoli meddyginiaethau i ymarfer;
- Cyfrannu at reoli meddyginiaethau a rheolaeth glinigol, a chymhwyso egwyddorion rheoli ansawdd er mwyn gwella diogelwch cleifion;
- Hyrwyddo gwasanaethau fferyllol a chyfrannu at ddatblygu gwasanaethau;
- Cefnogi modelau gofal integredig newydd, sydd wedi'u dylunio i ddarparu gofal yn agosach at gartrefi pobl;
- Ymgymryd â phrosiectau gwella ansawdd er mwyn cael effaith gadarnhaol ar ofal cleifion a chyflenwi gwasanaethau;
- Datblygu a darparu addysg a hyfforddiant i dîm y fferyllfa a'r tîm amlddisgyblaethol a chefnogi datblygiad unigolion eraill;
- Cyfrannu at weithgareddau ymchwil, gan arddangos arferion ymchwil da.

2.3 Sut mae'r cwricwlwm hwn yn cefnogi'r llwybr addysg a datblygiad proffesiynol ehangach i fferyllwyr?


Mae'r penawdau yn Safonau'r GPhC ar gyfer addysg a hyfforddiant cychwynnol fferyllwyr a holl gwricwla ôl-gofrestru'r RPS wedi'u halinio, gan ddarparu continwwm clir o ddysgu a datblygiad proffesiynol o'r pwynt o gychwyn y cwrs gradd MPharm hyd at ymarfer ymgynghorol. Mae'r meysydd yn adlewyrchu'n agos y pedair colofn o ymarfer uwch a gydnabyddir ar draws y meysydd gofal iechyd proffesiynol: ymarfer clinigol, arweinyddiaeth a rheolaeth, addysg ac ymchwil.

Ffigwr 2.
Pedair colofn ymarfer uwch



Ffigwr 3.

Model Achredu Ôl-gofrestru'r RPS




3

Y Rhaglen Ddysgu

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys 13 gallu sy'n disgrifio agweddau clinigol a phroffesiynol allweddol ymarfer fferylllydd sylfaen ôl-gofrestru. Mae pob gallu yn gyfuniad o ganlyniadau sy'n disgrifio'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau y dylai fferylllydd sylfaen ôl-gofrestru eu harddangos ar ôl cwblhau'r hyfforddiant. Cefnogir pob canlyniad gan set o ddisgrifyddion sy'n egluro lefel ac ehangder disgwylledig y perfformiad sy'n ofynnol i ddiwallu'r canlyniad. Nid oes angen i'r dysgwr ddarparu tystiolaeth ar gyfer pob disgrifydd ond dylai sicrhau bod ei dystiolaeth yn adlewyrchu'r ehangder a'r dyfnder a ddisgrifir. Nid yw'r disgrifyddion enghreifftiol yn gynhwysfawr a gellir defnyddio tystiolaeth ategol amgen wrth benderfynu sut i ddangos cyflawniad y canlyniadau. Mae'r galluoedd a'r canlyniadau cysylltiedig wedi'u grwpio gyda'i gilydd yn bum maes eang; mae'r meysydd hyn yn cael eu hadlewyrchu trwy holl gwricwla ôl-gofrestru'r RPS sy'n cefnogi'r continwwm ymarfer, o'r sylfaen ôl-gofrestru i ymarfer uwch ac ymgynghorol.

- Gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chydweithrediad
- Ymarfer proffesiynol
- Arweinyddiaeth a rheolaeth
- Addysg
- Ymchwil

Ffigwr 4. Hierarchaeth rhaglen ddysgu



Ffigwr 5. Trosolwg o feysydd a galluoedd



3.1 Galluoedd, canlyniadau a disgrifyddion

Ar gyfer canlyniadau sydd wedi'u tywyllu (e.e. 2.3), cyfeiriwch at y canllaw pwnc am wybodaeth ychwanegol i gefnogi cyflawni'r canlyniad ar y safon ofynnol. Mae'r tair colofn olaf yn nodi mapio'r canlyniadau yn y cwricwlwm hwn i'r canlyniadau yn y canlynol:

FPF	<u>Fframwaith Fferyllydd Sylfaen yr RPS 2019</u>
RPS IP	<u>Fframwaith Cymhwysedd yr RPS ar gyfer pob Rhagnodydd 2016</u>
GPhC IP	<u>Safonau'r GPhC ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr sy'n rhagnodwyr annibynnol 2019</u>

Cofiwch mai nod y disgrifyddion yw arwain unigolion a goruchwylwyr at lefel y perfformiad ac ehangder y dystiolaeth sy'n ofynnol. Nid yw'n ofynnol i unigolion gynnwys dystiolaeth yn eu e-bortffolios ar gyfer pob disgrifydd.

Maes 1:
Gofal Sy'n Canolbwyntio Ar Yr Unigolyn A Chydweithrediad

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
CYFATHREBU'N EFFEITHIOL, GAN ROI'R UNIGOLYN YNG NGHANOL UNRHYW RYNGWEITHIAD	1.1	Cyfathrebu'n effeithiol â phobl sy'n derbyn gofal a chydweithwyr	Yn cymhathu ac yn cyfleu gwybodaeth yn glir ac yn hyderus, gan ddefnyddio ystod lawn o gyfryngau gan gynnwys wyneb yn wyneb, ffôn, ysgrifenedig, fideo, cyfryngau cymdeithasol a digidol, ac yn ystyried anghenion y derbynnydd / derbynwyr. Yn ystyried y manteision, y cyfyngiadau a sut i leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwahanol fformatau cyfathrebu, gan gynnwys dulliau nad ydynt yn wyneb yn wyneb. Yn defnyddio ystod o gwestiynau a sgiliau gwrando gweithredol, gan gynnwys cydnabod ac ymateb i giwiau geiriol a dieiriau, i ennyn diddordeb pobl, i sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac i gasglu gwybodaeth yn effeithiol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar y cyd. Mae'n nodi rhwystrau i gyfathrebu effeithiol ac yn addasu arddulliau cyfathrebu geiriol a dieiriau mewn ffordd sy'n ymatebol i anghenion, hoffterau a galluoedd cyfathrebu ac iaith yr unigolyn / gofalwr / teulu (e.e. problemau lleferydd a chlyw, a gwahanol ieithoedd, diwylliannau, lefelau iechyd a llythrennedd TG). Yn sicrhau mynediad priodol at wybodaeth trwy wneud addasiadau rhesymol a / neu ddefnyddio dehonglwyr. Mae'n gwella llythrennedd iechyd mewn pobl o ystod o gefndiroedd, trwy ddarparu gwybodaeth wedi'i theilwra, cyfeirio at ffynonellau gwybodaeth perthnasol, hwyluso cyfathrebu, a gwirio dealltwriaeth fel sy'n briodol. Mae'n rheoli sefyllfaoedd cyfathrebu heriol lle mae'n anodd cyfathrebu'n effeithiol (e.e. amgylcheddau swllyd neu drallodus, wrth ddefnyddio PPE, sefyllfaoedd sy'n gwrthdaro neu gyda phobl sy'n orbyrderus, yn ddig neu'n ddryslyd). Yn cyfathrebu gwybodaeth am feddyginiaethau a'u defnydd gyda phobl / gofalwyr a'r tîm amlddisgyblaethol i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn effeithiol.	6.2 6.8 3.4 6.4 6.5	3.3 4.13 5.1 5.2 5.3 7.3 10.1	2

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
CYFATHREBU'N EFFEITHIOL, GAN ROI'R UNIGOLYN YNG NGHANOL UNRHYW RYNGWEITHIAD	1.2	Yn trin eraill fel pobl gyfartal a chydag urddas a pharch, gan eu cefnogi waeth beth fo'u hamgylchiadau neu gefndir unigol; yn hyrwyddo hyn yn weithredol yn eu hymarfer	Yn dangos cymhwysedd diwylliannol. Yn parchu credoau crefyddol, diwylliannol a moesegol pobl a'u cydweithwyr, a'u syniadau a'u teimladau, heb feirniadu, gan ddeall yr effaith y mae'r rhain yn ei chael ar iechyd. Yn dangos tegwch ym mhob agwedd ar ymarfer o ddydd i ddydd; yn cwrdd â'r cyfrifoldebau cyfreithiol o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb a hawliau dynol. Yn herio ymddygiad ac agweddau amhriodol sy'n wahaniaethol, ac yn myfyrio ar sut y gallai ei werthoedd, ei agweddau a'i foesegau personol ddylanwadu ar ymddygiad proffesiynol. Mae'n rhoi cefnogaeth ymarferol gadarnhaol i bobl a / neu gydweithwyr a allai fod ag anghenion cymorth dysgu. Mae'n ymwylbodol o ragfarn ddiwylliannol gynhenid a sut y gallai hynny hyrwyddo anghydraddoldeb a diffyg amrywiaeth yn anfwriadol. Yn addasu ei arfer i weithio'n effeithiol, yn sensitif, ac yn barchus gydag eraill sy'n agored i niwed, sydd wedi'u herlid neu sydd wedi cael eu trin yn annheg.	7.6	3.1 3.2	2
YN DARPARU GOFAL SY'N CANOLBWYNTIO AR YR UNIGOLYN	1.3	Yn ymgynghori â phobl trwy sgysiau agored; yn archwilio agweddau corfforol, seicolegol a chymdeithasol ar ran yr unigolyn hwnnw, gan fod yn agored ei feddwl o ran yr hyn y gallai unigolyn ei rannu; yn grymuso'r unigolyn i greu amgylchedd i gefnogi gwneud penderfyniadau ar y cyd ynghylch canlyniadau gofal iechyd personol a newidiadau i ymddygiad iechyd	Yn datblygu arddull a strwythur ymgynghori wedi'u llywio gan fodelau a fframweithiau ymgynghori cydnabyddedig, sy'n archwilio syniadau, pryderon a disgwyliadau'r unigolyn, a gellir eu haddasu i weddu i anghenion yr unigolyn. Yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ar gyfer ymgynghori, sy'n briodol i angen yr unigolyn, e.e. wyneb yn wyneb, ffôn, fideo, e-bost a thechnolegau mwy newydd. Yn teilwra arddull, cyfanswm, amllder a chynnwys gwybodaeth i'r unigolyn i gefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus a hunanofal. Yn ymgynghori'n effeithiol i feithrin cydberthynasau, i ddatblygu dull o weithio mewn partneriaeth, a grymuso'r unigolyn. Yn cymryd golwg gyfannol a, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yn datblygu cynlluniau rheoli wedi'u personoli sy'n parchu ymreolaeth yr unigolyn ac sy'n ymgorffori ei bersbectif, ei greddau a'i hoffterau iechyd. Yn ennyn gwybodaeth gorfforol, seicolegol a chymdeithasol i roi problem (au) yr unigolyn yn ei gyd-destun ac ymateb yn briodol. Yn cefnogi ac yn cymell hunanofal pobl trwy eu helpu i gydnabod buddion ffordd iach o fyw ac ysgogi newid ymddygiad i wella iechyd. Yn archwilio dealltwriaeth yr unigolyn / gofalwr o'r ymgynghoriad a gwirio eu bod yn fodlon â'r hyn y cytunwyd arno / a argymhellir. Yn defnyddio dull strwythuredig i ddogfennu canlyniadau ymgynghoriadau yn gywir ac yn y fformat a'r lleoliad priodol, gan gynnwys yn yr amgylchedd digidol. Yn cynnal cofnodion yn foddhaol er mwyn hwyluso gofal cleifion optimaidd.	2.2 2.4 6.3 6.6 6.7	2.5 3.1 3.2 3.3 3.5 3.6 4.12 5.5 6.1 7.3	1 4 6 20 30 31
	1.4	Yn dangos empathi; yn ceisio deall sefyllfa o safbwynt pob unigolyn perthnasol	Gwrandao'n astud ar brofiad yr unigolyn / gofalwr ac ystyried ei bersbectif i ddatblygu dealltwriaeth o'i anghenion; yn dangos parch, empathi, ymatebolrwydd, tosturi, gonestrwydd a phryder am eu problemau a'u nodweddion personol.	2.3	3.1 3.2	

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
YN DARPARU GOFAL SY'N CANOLBWYNTIO AR YR UNIGOLYN	1.5	Bob amser yn sicrhau bod yr unigolyn yn ganolog i'r gofal sy'n cael ei ddarparu	Yn gweithio mewn partneriaeth â'r unigolyn / gofalwr er mwyn cytuno ar gynllun rheoli wedi'i bersonoli sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr ac sy'n parchu eu gwerthoedd, credoau, diwylliant, ethnigrwydd, hoffterau, llythrennedd iechyd a'u profiadau. Yn defnyddio cymhorthion gwneud penderfyniadau cleifion, lle bo hynny'n briodol, i gefnogi gwneud penderfyniadau ar y cyd a sicrhau bod unigolion / gofalwyr yn meddu ar yr wybodaeth briodol am eu meddyginiaethau a'u cynllun rheoli. Yn cydnabod effaith gorfforol a seicolegol y broblem / problemau iechyd a rhagnodi penderfyniadau ar yr unigolyn a, lle bo hynny'n berthnasol, ei ofalwr / deulu. Yn cydnabod bod penderfyniadau unigolyn sydd â gallu yn hollbwysig. Lle mae'n ansicr ynghylch gallu unigolyn i fod yn rhan o wneud penderfyniadau ar y cyd, mae'n cyrchu cyngor gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill ac yn cymryd camau priodol i reoli penderfyniadau triniaeth yn y rhai sydd heb allu. Yn gwneud penderfyniadau rhagnodi ar sail anghenion yr unigolyn ac nid ar sail ystyriaethau personol y rhagnodydd.	2.1	2.5 3.1 3.2 4.13 5.2 5.3 6.1 8.4	2 3 5 6
	1.6	Yn cefnogi ac yn hwyluso parhad di-dor gofal i bob unigolyn	Mae'n darparu parhad gofal cynhwysfawr, gan ystyried holl broblemau'r unigolyn a'i sefyllfa gymdeithasol, a materion posibl sy'n dod i'r amlwg, gyda chynllun gweithredu a chynllun wrth gefn priodol. Ar y cyd â'r unigolyn a / neu gydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, cytuno ar amrywiaeth o drefniadau monitro a dilynol sy'n ddiogel ac yn briodol, tra hefyd yn gwella ymreolaeth y claf. Yn sicrhau bod yr unigolyn / gofalwr yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddo unrhyw bryderon ynghylch rheoli ei gyflwr, os yw'r cyflwr yn dirywio, os yw'r unigolyn yn profi effeithiau andwyol triniaeth, neu os nad oes gwelliant o fewn cyfnod amser cytûn. Yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rannu'n brydlon, yn gywir ac yn gyflawn, a chydweithio gyda'r timau iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol i sicrhau trosglwyddiad effeithiol rhwng lleoliadau. Mae'n rheoli sefyllfaoedd lle mae angen gofal y tu allan i oriau gwaith arferol * ac yn galluogi'r trefniadau angenrheidiol. * mae enghreifftiau'n cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, pan fydd y feddygfa ar gau, gwasanaeth ar alwad, gwasanaeth gofal lliniarol.	2.5	3.1 3.3 4.2 4.12 4.13 5.2 5.4 6.1 6.2 6.3 10.1	24
CYDWEITHIO Â'R TÎM FFERYLLIAETH AC AMLDDISGYBLAETHOL EHANGACH	1.7	Yn meithrin perthnasoedd cryf ar draws y tîm amlddisgyblaethol; yn gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol	Yn gweithio gyda chydweithwyr mewn timau amlddisgyblaethol ac yn edrych am gyfleoedd i gydweithio ag eraill i sicrhau cysondeb, parhad, ac agwedd gyfannol tuag at ofal cleifion. Yn sefydlu perthnasoedd gwaith da gyda chydweithwyr amlddisgyblaethol o fewn ac ar draws sectorau trwy gynnig cyngor, cymorth, bod yn dryloyw, a gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod rhagnodi a gofal cleifion yn ddiogel ac yn effeithiol. Yn myfyrio ar agweddau cadarnhaol a negyddol o weithio mewn tîm, cydweithredu ag eraill i rannu arfer da, a gwella gwaith tîm a pherfformiad tîm.	5.1	4.13 10.1 10.2	7 27

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
CYDWEITHIO Â'R TÎM FFERYLLIAETH AC AMLDDISGYBLAETHOL EHANGACH	1.8	Yn dangos hyder wrth siarad â gweithwyr gofali iechyd proffesiynol ar draws y tim amlldisgyblaethol; ceisio defnyddio iaith briodol i ddylanwadu ar eraill	Yn cyflwyno hysbysrwydd, gwybodaeth ac argymhellion yn effeithiol ac yn bendant i ystod eang o aelodau tim mewn gwahanol leoliadau er mwyn trafod rhagnodi a defnyddio meddyginiaethau yn ddiogel ac yn effeithiol, ac optimeiddio gofali cleifion. Yn herio aelodau o'r tim amlldisgyblaethol yn adeiladol, pan ystyrir bod hynny'n angenrheidiol er budd gofali cleifion.	6.1	10.1 10.2	27
	1.9	Yn cydnabod gwerth aelodau o'r tim fferylliaeth ac amlldisgyblaethol ar draws y llwybr gofali cyfan, gan dynnu ar unigolion yn bersonol ac yn rhithiol, i ddatblygu ystod eang o sgiliau a chefnogi ei ymarfer ei hun; dirprwyo a chyfeirio'n briodol, gan ddefnyddio arbenigedd a gwybodaeth unigolion eraill	Yn parchu ac yn barod i dderbyn barn gweithwyr proffesiynol fferylliaeth a gofali iechyd eraill, ac yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth o fewn y tim fferylliaeth ac amlldisgyblaethol. Yn cyrchu cyngor gan weithwyr proffesiynol eraill ac aelodau'r tim fferylliaeth, ac yn darparu cyngor iddynt, yn unol â'u rolau a'u harbenigedd. Yn cyfeirio'n briodol at aelodau'r tim fferylliaeth ac amlldisgyblaethol a gwasanaethau ar draws y llwybr gofali; yn cydnabod gwasanaethau sylfaenol, cymunedol ac eilaidd, a gwasanaethau gwirfoddol ehangach. Yn trefnu ac yn dirprwyo tasgau yn briodol i sicrhau'r effeithiolrwydd gorau posibl yn y fferyllfa a'r tim ehangach.	5.3 5.5	1.8 7.1 10.1 10.2	7 27 29 32
	1.10	Yn cefnogi aelodau o'r tim amlldisgyblaethol i ddefnyddio meddyginiaethau yn ddiogel ac i ddiwallu anghenion unigol y rhai sy'n derbyn gofali; yn dylanwadu'n effeithiol ar y broses benderfynu ar draws y tim ynghylch meddyginiaethau, lle bo hynny'n briodol	Gweithio'n rhagweithiol o fewn ac ar draws timau i wella diogelwch cleifion a darparu gofali, defnyddio ei wybodaeth glinigol ei hun o'r defnydd diogel o feddyginiaethau i ddylanwadu, trafod, asesu blaenoriaethu a rheoli sefyllfaoedd cymhleth yn effeithiol. Yn rhagweld ac yn nodi materion a allai godi gyda phobl neu gyflenwad meddyginiaeth, gan gydweithredu'n rhagweithiol ag eraill ar draws y system gofali iechyd ehangach i ddatrys a sicrhau gofali cleifion di-dor.	5.4	9.2 10.1 10.2 10.4	15 27

Maes 2:
Ymarfer Proffesiynol

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
YN CYMHWYSO GWYBODAETH A SGILIAU CLINIGOL YN YMARFEROL	2.1	Yn cymhwyso gwybodaeth glinigol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'r canllawiau diweddaraf i wneud argymhellion addas neu i gymryd camau priodol yn hyderus	Yn cymhwyso gwybodaeth a sgiliau clinigol i nodi, blaenoriaethu ac optimeiddio rheolaeth ffarmacolegol ac an-ffarmacolegol o: - gyflyrau clinigol cyffredin; - cyflyrau aciwt a thymor hir; - atal salwch a hybu iechyd. Yn gallu meddwl yn feirniadol a dadansoddi a chymhwyso gwybodaeth o sawl ffynhonnell, gan gynnwys y sylfaen dystiolaeth, canllawiau, polisiau a fformwleiddiadau lleol / rhanbarthol / cenedlaethol i reoli pobl sydd â chyfuniad o gyflyrau aciwt a thymor hir. Yn cymhwyso arbenigedd a sgiliau gwneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd cymhleth o aml-afiachusrwydd, eiddilwch, aml-amhuredd a / neu ddefnydd meddyginiaeth didrwydded; yn ystyried dull gweithredu a ffarmacocineteg meddyginiaethau a sut y gellir newid y rhain (e.e. yn ôl geneteg, oedran, nam arenol, beichiogrwydd). Yn ystyried yr amod(au) sy'n cael ei drin yn nhermau dilyniant naturiol, difrifoldeb, dirywiad, a'r ymateb a ragwelir i driniaeth. Yn ystyried unrhyw ffactorau perthnasol i gleifion (e.e. bronfwydo, y gallu i lyncu, crefydd, ethnigrwydd, cefnogaeth gymdeithasol) a'r effaith bosibl ar y dewis, llwybr y weinyddiaeth, llunio meddyginiaethau ac adlyniad. Yn ystyried defnyddio technolegau gofal iechyd arloesol, gan gynnwys meddygaeth genomig, deallusrwydd artifisial, ac uwch-gynhyrchion meddyginiaethol therapiwtig i hyrwyddo'r defnydd effeithiol o feddyginiaethau ac i wella gofal cleifion.	1.1 3.1	1.6 2.1 2.3-2.9 3.1 3.2 3.4 4.1 4.3 4.5 4.11	11 16 18 26

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
YN CYMHWYSO GWYBODAETH A SGILIAU CLINIGOL YN YMARFEROL	2.2	Yn cynnal adolygiad clinigol cyfannol o unigolyn a'i feddyginiaethau i sicrhau eu bod yn briodol	Yn blaenoriaethu pobl / grwpiau ar gyfer adolygiad clinigol yn ôl angen a blaenoriaethau lleol. Yn cynnal adolygiadau clinigol i bobl â phroblemau cymhleth mewn amrywiaeth o leoliadau (gan gynnwys o bell), gan sicrhau dull amlddisgyblaethol; cyfathrebu a dogfennu penderfyniadau ac argymhellion yn briodol. Yn gweithio mewn partneriaeth â'r unigolyn, gan gymryd agwedd bragmatig yng nghyd-destun ei gredoau, ei ddiwylliant a'i hoffterau, gan arwain at y disgwyliad nad oes angen presgripsiwn bob amser. Yn ystyried unrhyw ffactorau a allai arwain at anghydraddoldebau iechyd. Yn annog hunanofal lle bo hynny'n briodol ac yn ystyried iechyd meddwl ac iechyd corfforol yn gyfartal, gan weithredu dull cyfannol mewn perthynas ag anghenion unigol pob unigolyn. Yn cael hanes meddyginiaeth cywir y claf, gan gynnwys alergedd, hunan-feddyginiaeth, defnydd cynhyrchion gofal iechyd cyflenwol, ac adweithiau alergaidd / andwyol blaenorol. Yn cysoni meddyginiaethau. Yn ystyried yr angen parhaus am feddyginiaethau, ymateb i driniaeth, ymlyniad at feddyginiaeth, rhagnodi ar sail tystiolaeth, effeithiau andwyol, cost-effeithiolrwydd a'r wybodaeth ddiweddaraf am feddyginiaethau (e.e. argaeledd, maint pecynnau, amodau storio, llanwyddion, costau). Mae hefyd yn ystyried penderfynyddion ehangach iechyd, e.e. gofal cymdeithasol, sefyllfa ddomestig a ffactorau amgylcheddol. Yn ystyried effaith amgylcheddol rhagnodi argymhellion ac yn dod i benderfyniad a rennir gyda'r unigolyn os yw hyn yn bwysig iddynt (e.e. ôl troed carbon pypmiau asthma). Yn llunio cynllun rheoli sy'n cynnwys asesiad clir o'r risgiau a'r manteision a pharamedrau monitro, amllder ac amserlen fel sy'n briodol. Yn addasu / diwygio'r cynllun mewn ymateb i fonitro ac adolygu parhaus o gyflwr a hoffterau'r unigolyn; yn gwirio dealltwriaeth yr unigolyn / gofalwr a'i fod yn fodlon â'r cynllun rheoli. Yn argymhell rhagnodi ymyriadau (ychwanegu, stopio, camu i fyny / i lawr a / neu optimeiddio meddyginiaeth) lle bo hynny'n briodol. Yn cynnwys meysydd ansicr lle mae tystiolaeth yn brin / yn gwrthdaro. Yn cwblhau ac yn gwirio cyfrifiadau sy'n berthnasol i ragnodi a dosio ymarferol yn gywir. Yn defnyddio'r systemau a'r technolegau sy'n ofynnol i ragnodi meddyginiaethau yn ddiogel ac yn effeithiol. Yn defnyddio dull strwythuredig i ddogfennu'r cynllun rheoli yn gywir a phenderfyniadau rhagnodi yn y fformat a'r lleoliad priodol, gan gynnwys yr amgylchedd digidol. Yn cynnal cofnodion yn ddigonol i alluogi'r gofal gorau posibl i gleifion.	1.7	1.1 1.2 1.7 2.2-2.5 2.9 3.1 3.2 3.4-3.6 4.2 4.6 4.8 4.9 4.10 4.12 4.13 5.1 5.2 5.4 5.5 6.1-6.4 7.3	2 4 6 16 17 20 22 23 24 30

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
YN CYMHWYSO GWYBODAETH A SGILIAU CLINIGOL YN YMARFEROL	2.3	Yn casglu gwybodaeth ac yn cofnodi hanesion yn hyfedrus; yn cynnal archwiliadau ac asesiadau clinigol; yn datblygu sgiliau diagnostig	Yn cynnal ymgynghoriad a / neu asesiad clinigol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn lleoliad priodol, gan ystyried cyfrinachedd, cydsyniad, urddas a pharch. Yn cael caniatâd dilyn i fwrw ymlaen â'r archwiliad clinigol a / neu'r asesiad. Yn deall y materion a all godi pan nad oes gan bobl y galluedd ac ar draws y gwahanol nodweddion gwarchodedig. Yn gwybod ble i ofyn am gyngor, os oes angen. Yn cofnodi hanes strwythuredig mewn ffordd drefnus, gan gynnwys iechyd meddwl a hanes cyfochrog, mewn amodau anodd neu heriol o bryd i'w gilydd (e.e. ffynonellau gwybodaeth annibynadwy neu anghyflawn); gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, symptomau, pryderon, blaenoriaethau a hoffterau cleifion. Yn defnyddio'r holl ffynonellau gwybodaeth perthnasol, gan gynnwys gofalwyr / teulu. Yn arddangos rhesymu clinigol trwy gasglu gwybodaeth â ffocws sy'n berthnasol i ofal yr unigolyn ac yn ôl y sefyllfa sy'n cyflwyno. Yn cyrchu ac yn dehongli'r holl gofnodion cleifion perthnasol sydd ar gael i sicrhau gwybodaeth am reolaeth yr unigolyn hyd yn hyn. Yn perfformio archwiliadau ac asesiadau clinigol corfforol ac anghorfforol yn systematig (a ddiffinnir yn y canllaw sgiliau) ac yn gallu dehongli arwyddion corfforol yn gywir. Yn gofyn am, ac yn dehongli archwiliadau ac ymchwiliadau perthnasol i gefnogi asesu, diagnosis, monitro a rheoli mewn modd systematig ac effeithlon. Yn deall arwyddocâd y canfyddiadau a'r canlyniadau ac yn gweithredu mewn ffordd sy'n briodol ac yn amserol. Yn defnyddio offer gwneud penderfyniadau clinigol yn briodol, e.e. algorithmau a chyfrifiannellau risg. Yn llunio diagnosisu gwahaniaethol priodol ac yn cymhwyso barn glinigol er mwyn cyrraedd diagnosis sy'n gweithio. Yn defnyddio dull strwythuredig i ddogfennu canlyniadau'r asesiad clinigol yn gywir, yn y fformat a'r lleoliad priodol, gan gynnwys yr amgylchedd digidol. Yn cynnal cofnodion yn ddigonol i sicrhau'r gofal gorau posibl i gleifion.	1.4	1.1-1.5 1.8 2.5 2.7 3.1 3.2 4.6 6.2	5 19 20 21 24
YN TYNNU AR WYBODAETH BRIODOL AC YN EI GWERTHUSO'N FEIRNIADOL I LYWIO'R BROSES O WNEUD PENDERFYNIADAU; YN RHEOLI ANSICRWYDD A RISG YN BRIODOL	2.4	Yn cyrchu ac yn gwerthuso gwybodaeth briodol yn feirniadol i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth mewn modd effeithlon a systematig; yn sicrhau bod sylw uchel i fanylion yn cael ei gynnal wrth wneud penderfyniadau ynghylch y sawl sy'n derbyn gofal	Yn defnyddio sgiliau gwerthuso beirniadol i ddehongli'r sylfaen dystiolaeth ac i ystyried ei ddilysrwydd a'i ddefnyddioldeb mewn cyd-destun penodol; yn defnyddio rhesymu clinigol a barn broffesiynol i benderfynu pryd i gymhwyso'r sylfaen dystiolaeth i wneud penderfyniadau clinigol a phryd i herio ei ddefnydd. Yn gallu cydnabod pa brofion ystadegol sy'n briodol wrth werthuso astudiaethau'n feirniadol i farnu pwysau tystiolaeth, gan gynnwys dilysrwydd, dibynadwyedd a pherthnasedd. Yn derbyn ac yn ateb amrywiaeth o ymholiadau clinigol sy'n ymwneud â meddyginiaeth gan bobl, gofalwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Yn defnyddio ffynonellau gwybodaeth priodol i ateb ymholiadau clinigol sy'n ymwneud â meddyginiaeth ar draws pob sector gofal iechyd. Yn cyfathrebu gwybodaeth gywir, briodol a strwythuredig am feddyginiaethau yn unol ag anghenion y claf a / neu weithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, gan gyfeirio yn ôl yr angen.	3.2 3.3 3.5	2.4 2.7 2.8 5.2	16

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
YN TYNU AR WYBODAETH BRIDOL AC YN EI GWERTHUSO'N FEIRNIADOL I LYWIO'R BROSES O WNEUD PENDERFYNIADAU; YN RHEOLI ANSICRWYDD A RISG YN BRIDOL	2.5	Yn rheoli ansicrwydd a risg yn briodol	Mae'n rheoli ansicrwydd clinigol trwy werthuso'r sylfaen dystiolaeth yn feirniadol, gan gymhwyso rhesymu clinigol a barn broffesiynol i sefyllfaoedd clinigol, i wneud penderfyniadau diogel a rhesymegol sy'n gwneud y gorau o gydbwysedd budd i niwed i'r unigolyn. Yn pennu agwedd y claf at risg ac yn trafod y risgiau a'r manteision ar y lefel briodol, fel rhan o'r broses benderfynu ar y cyd. Yn defnyddio rhwydi diogelwch i sicrhau bod systemau ar waith i ddarparu monitro a gwaith dilynol diogel; yn darparu ac yn dogfennu'r cyngor penodol a roddir i'r unigolyn. Yn ystyried gwybodaeth ysgrifenedig i atgyfnerthu cyngor llafar. Yn ystyried defnyddio meddyginiaethau didrwydded, oddi ar label, y tu allan i ymarfer safonol dim ond pan fyddant yn fodlon na fyddai meddyginiaeth drwyddedig amgen yn diwallu anghenion yr unigolyn. Yn defnyddio prosesau sy'n cefnogi rhagnodi diogel mewn meysydd risg uchel (e.e. trosglwyddo gwybodaeth am feddyginiaethau, rhagnodi meddyginiaethau risg uchel, trosglwyddo gofal).	3.5	2.3 2.5 2.8 3.1-3.3 4.11 7.4	16 17
	2.6	Yn ystyried cost- effeithiolrwydd penderfyniad lle bo angen, gan weithio yn ôl y fformiwlari priodol	Yn amlinellu sut mae tystiolaeth gyhoeddadedig ar gyfer meddyginiaethau newydd yn cael ei gwerthuso, ei chymhwyso gan bwyllgorau rhagnodi'r GIG a'i hystyried ar gyfer fformweiddiadau lleol / rhanbarthol / cenedlaethol. Yn ystyried goblygiadau cost opsiynau triniaeth o ran arian, offer ac adnoddau dynol (e.e. rhagnodi generig, IV v gwrthfotigau trwy'r geg) mewn penderfyniadau clinigol, gan gadw at fformweiddiadau lleol / cenedlaethol / prosesau rheoli fformiwlari, lle bo hynny'n briodol.	3.7	2.7 2.8 4.3 4.4 4.5 4.8	13
	2.7	Cydnabod a chywiro'r gordddefnydd o feddyginiaethau yn rhagweithiol; yn effeithio'n gadarnhaol ar ddefnydd a stiwardiaeth meddyginiaethau ar lefel unigolyn a phoblogaeth	Yn gweithredu strategaethau, yn cyfrannu at brosiectau rhagnodi, ac yn cynnal adolygiadau meddyginiaeth i wella rhagnodi diogel a chost-effeithiol, gwella stiwardiaeth gwrthficrobaidd, cefnogi gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, a lleihau gwastraff amlgyffuriaeth a meddyginiaethau. Yn ystyried effaith demograffeg leol, amrywiaeth ethnig a diwylliannol wrth deilwra anghenion gofal fferyllo cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i unigolion a'r boblogaeth leol. Yn cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Yn ymgorffori effeithiau ymwrthedd gwrthficrobaidd a chlefydau trosglwyddadwy eraill ar sail poblogaeth ar benderfyniadau ynghylch rhagnodi gwrthficrobaidd; yn sicrhau bod penderfyniadau triniaeth a mesur ataliaeth yn cyd-fynd â chanllawiau lleol a chenedlaethol perthnasol. Yn cydymffurfio â, ac yn hyrwyddo polisiau, canllawiau, strategaethau ac ymgyrchoedd rheoli meddyginiaethau lleol a chenedlaethol i gael effaith gadarnhaol ar ddefnyddio meddyginiaeth (e.e. meddyginiaethau didrwydded, meddyginiaethau risg uchel, iechyd y cyhoedd / poblogaeth, stiwardiaeth gwrthficrobaidd, rheoli heintiau, gofal a rennir, prosiectau effeithlonrwydd rhagnodi).	7.4 1.6	2.9 2.10 4.3 4.5 4.7 4.11 7.4 2.7	2 11 13 26

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
YN DEALL Y GWERTH Y GALL DATA A THECNOLEG DDIGIDOL EI GAEL, GAN DYNNU AR Y RHAIN LLE BO ANGEN I YRRU GOFAL A GWELLA CANLYNIADAU	2.8	Yn dadansoddi ac yn defnyddio data a thecnolegau digidol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau clinigol, a gwella canlyniadau clinigol a diogelwch cleifion	Yn defnyddio dyfeisiau, cymwysiadau, meddalwedd a systemau sy'n berthnasol i wahanol dasgau ac i gefnogi'r broses o ddarparu gofal; yn deall ymarferoldeb, manteision a chyfyngiadau, a sut mae'r rhain yn effeithio ar ofal. Yn arddangos penderfyniadau a rennir a chydlyn gofal o fewn y tim amlddisgyblaethol, yng nghydestun y cofnod iechyd electronig. Yn cymhwyso safonau gwybodeg iechyd ar gyfer cofnodi data iechyd i gynyddu rhyngweithrededd systemau; yn cydnabod y materion o ran diffyg cydymffurfio a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddarparu gofal integredig. Yn disgrifio priodoleddau allweddol data a gwybodaeth, gan gynnwys ansawdd, uniondeb, cywirdeb, prydlondeb a phriodoldeb, a gall drafod eu cyfyngiadau yng nghydestun y defnydd a fwriadwyd. Yn defnyddio ystod eang o ddyfeisiau digidol, technolegau, meddalwedd a chymwysiadau er mwyn creu, cyrchu, golygu, monitro, storio a rhannu gwybodaeth, data a chynnwys. Yn dehongli data trwy redeg ymholiadau, adroddiadau a defnyddio dulliau dadansoddol priodol ac ystadegau disgrifiadol i ddarganfod patrymau a gwybodaeth. Yn defnyddio data i gefnogi gwneud penderfyniadau clinigol a deall amrywiad mewn gofal a chanlyniadau iechyd, tynnu sylw at gyfleoedd i leihau anghydraddoldebau iechyd a gwerthuso effaith myriadau. Yn defnyddio technolegau digidol i gefnogi diagnosis, hunanofal, i wneud penderfyniadau ar y cyd a monitro ymatebion pobl i feddyginiaethau, e.e. synwryddion, gwisgoedd gwisgadwy ac apiau ffôn clyfar; yn addysgu pobl / gofawyr ar eu defnydd ac yn cyfeirio at adnoddau. Yn defnyddio dulliau sy'n cael eu gyrru gan ddata i hwyluso a galluogi gwella ansawdd, rheoli newid a blaenoriaethu materion ar lefel unigolyn, poblogaeth a gwasanaeth; yn cynhyrchu delweddu data i gyfleu canfyddiadau yn effeithiol o fewn y tim gofal iechyd. Yn disgrifio'r ystyriaethau moesegol, llywodraethu a diogelwch cleifion o ddefnyddio technolegau data a digidol ac yn eu cyfleu i bobl / gofawyr. Yn cadw at reolau a rheoliadau llywodraethu gwybodaeth, hawlfraint ddigidol, eiddo deallusol a phreifatrwydd.	3.6	5.5 6.2 7.3 9.3 10.1	20 21 22 24 30
YN YMARFER YN BROFFESIYNOL	2.9	Yn ymarfer gonestrwydd ac uniondeb ym mhopeth a wnânt; yn cynnal dyletswydd didwylledd	Yn gweithredu mewn ffordd agored, onest a thryloyw gyda phobl, gofawyr, teuluoedd ac aelodau o'r tim iechyd a gofal cymdeithasol, pan fo diogelwch o dan fygythiad. Yn ymddiheuro am wallau ac yn cymryd camau i leihau effaith ac atal digwyddiadau pellach, gan adrodd digwyddiadau / digwyddiadau a fu bron â digwydd yn unol â pholisi'r sefydliad. Yn ymgymryd â phroses fyfyrïol ac yn trafod digwyddiadau / digwyddiadau a fu bron â digwydd gydag uwch gydweithiwr i wella arfer yn y dyfodol.	7.1	8.2	

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
YN YMARFER YN BROFFESIYNOL	2.10	Yn atebol ac yn gyfrifol am ei benderfyniadau a'i weithredoedd ei hunan, gan ddeall canlyniadau posibl y penderfyniadau hyn ar draws y llwybr gofai cyfan	Yn ystyried risgiau a chanlyniadau penderfyniadau a allai effeithio ar ofal uniongyrchol neu ddilynol unigolyn neu grŵp o bobl ar draws taith y claf. Yn cymryd perchnogaeth o broblemau ac yn ceisio eu datrys yn rhagweithiol a herio arfer gwael. Yn cyfiawnhau ac yn dogfennu gwroddi wrth ganllawiau a pholisi fel sy'n briodol.	7.2	2.3 4.11 4.13 8.2 8.3	8 14 17
	2.11	Yn gweithio o fewn canllawiau moesegol a fframweithiau cyfreithiol, gan gynnwys cydsyniad a chyfrinachedd; yn ceisio sicrhau caniatâd yr unigolyn cyn cyrchu cofnodion cyfrinachol lle bo angen	Mae'n rheoli sefyllfaoedd sy'n herio o ran moeseg, cydsyniad, anghenion cyfathrebu gwahaniaethol neu faterion galluedd, ac yn cyrchu cyngor pan yn ansicr. Yn annog craffu ar ymddygiad proffesiynol, yn agored i adborth ac yn arddangos parodrwydd i newid. Yn cydnabod ac yn delio â ffactorau a allai ddylanwadu'n ddiangen ar ragnodi (e.e. y diwydiant fferyllol, y cyfryngau, pobl a chydweithwyr). Mae'n gweithio o fewn codau ymddygiad y GIG / sefydliadol / rheoliadol a chodau ymddygiad eraill wrth ryngweithio â'r diwydiant fferyllol.	7.8	1.8 4.3 4.9 4.12 8.2-8.6 9.1	9 10 11 14
	2.12	Yn cydnabod ac yn gweithio'n ddiogel o fewn ei lefel cymhwysedd ei hun, gan ddeall pwysigrwydd gweithio o fewn hyn; yn gwybod pryd y mae'n briodol i uwchgyfeirio sefyllfa neu atgyfeirio	Yn meddu ar ddealltwriaeth feirniadol o derfynau eich cymhwysedd eich hun a chwmpas ymarfer proffesiynol. Yn arddangos gwybodaeth ynghylch pryd a sut i ddefnyddio polisïau uwchgyfeirio lleol; yn galw am gymorth a chynghor uwch mewn modd amserol neu'n atgyfeirio at gydweithiwr / cydweithwyr mwy priodol. Yn arddangos ymwybyddiaeth o'ch cyfyngiadau eich hun a'ch cymhwysedd ymwybodol; yn asesu risg yn erbyn eu cyfyngiadau proffesiynol eu hunain.	7.5	1.8 7.1 8.2	29 32

Maes 3:
Arweinyddiaeth A Rheolaeth

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
YN HYRWYDDO GWASANAETHAU FFERYLLOL AC YN DATBLYGU'R PROFESIWN	3.1	Yn arddangos ac yn hyrwyddo gwerth fferylliaeth i'r cyhoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill	Yn cydweithio â grwpiau aml-broffesiynol / amlasiantaethol ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, i ddarparu a gwella gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Yn arddangos effaith ymarfer fferyllol ar ddarparu gwasanaethau, effeithiolrwydd ac ansawdd (canlyniadau, profiad a diogelwch cleifion) trwy gyfrannu at werthuso a (lle bo hynny'n berthnasol) ail ddylunio systemau, prosesau a gwasanaethau i wella gofal cleifion. Yn disgrifio'r dirwedd iechyd a gofal cymdeithasol, a'r rhyngweithiadau a'r cysylltiadau ar draws sectorau, sefydliadau a thimau. Yn hyrwyddo ymgyrchoedd iechyd cyhoeddus lleol a chenedlaethol a gwasanaethau fferyllol i'r cyhoedd a darparwyr / rhwydweithiau gofal eraill, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau. Mae'n darparu ymyriadau manteisgar sy'n hybu iechyd ac yn cymell y cyhoedd i ymgysylltu â gwasanaethau fferyllol, a strategaethau hybu iechyd ac atal afiechydon. Nodi a chyfrannu at gyfleoedd i leihau anghydraddoldebau iechyd. Yn gweithredu strategaethau priodol i leihau camddefnyddio cyffuriau.	4.3	2.9	26
	3.2	Yn cyfleu gweledigaeth a nodau i'r tîm fferylliaeth ac amlddisgyblaethol ehangach i'w cefnogi nhw gyda chyflawni tasgau grŵp	Yn cydnabod sut mae nodau sefydliadol yn cael eu hadlewyrchu mewn amcanion personol a tîm. Yn cyfathrebu pwrpas a gweledigaeth gyda brwdfrydedd; yn creu cyfleoedd i ddod ag unigolion a grwpiau amlddisgyblaethol ynghyd i rannu gwybodaeth ac adnoddau, a sicrhau bod gan aelodau'r tîm ddealltwriaeth glir o ddisgwyliadau a nodau. Yn creu amgylchedd cefnogol sy'n annog aelodau'r tîm i gyfrannu syniadau a datrysiadau i wella gwasanaethau, cyfrannu at wneud penderfyniadau a chyflawni nodau sefydliadol; yn parchu ac yn gwerthfawrogi cyfraniadau aelodau'r tîm. Yn arddangos dilyswydd, uniondeb, modelu rôl ac arwain trwy esiampl o fewn gweithgareddau tîm.	4.2		

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
YN CYDNABOD CYFLEOEDD AR GYFER NEWID, ARLOESED A GWELLA ANSAWDD	3.3	Dadansoddi anghenion busnes yn feiriadol; yn ymwybodol o agweddau masnachol yng nghyd-destun y fferyllfa; yn cydnabod y newidiadau i rôl fferyllwyr a'r cyfleoedd posibl yn y dyfodol; yn chwilio am gyfleoedd i addasu eich dull gwaith eich hun a darparu / hyrwyddo gwasanaethau fferyllol newydd	Yn deall anghenion busnes yng nghyd-destun y fferyllfa (e.e. sicrhau gwerth am arian, lleihau gwastraff, caffael, adolygu gwasanaethau sy'n bodoli / cyflwyno gwasanaethau newydd) a dadansoddi'r data sydd ar gael o'r tu mewn a'r tu allan i'r sefydliad, gan gynnwys trwy gael adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Yn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael i lywio syniadau newid er mwyn gwella gwasanaethau newydd neu ddatblygu gwasanaethau newydd. Yn mabwysiadu safbwynt beiriadol, dadansoddol a myfyriol tuag at ymarfer proffesiynol a busnes. Yn deall y broses gomisiynu leol ar gyfer gwasanaethau newydd a phresennol. Yn cyfrannu at ddatblygu gwasanaethau newydd mewn ymateb i strategaethau lleol a chenedlaethol, anghenion iechyd newidiol y boblogaeth, amcanion sefydliadol a chyfeiriad yn y dyfodol, gan roi diogelwch cleifion a'r defnydd gorau posibl o feddyginiaethau yng nghanol unrhyw newidiadau.	4.6		
	3.4	Yn tynnu ar rwydweithiau i ddeall yr ystod o weithgareddau clinigol, cysylltiedig â meddyginiaethau ac iechyd y cyhoedd, a gynigir gan fferylliaeth ar draws sectorau a'r llwybr gofal	Yn adeiladu rwydweithiau aml-broffesiynol, ar draws rhyngwynebau iechyd a gofal cymdeithasol (e.e. trwy gyfrannu at gymunedau ymarfer), gan hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau i wella cysylltiadau gwaith a gofal cleifion. Yn atgyfeirio pobl a chydweithwyr yn briodol at wasanaethau fferyllol a chymorth / adnoddau ar draws pob sector ymarfer.	1.3 4.7 4.8	2.9	26 29
	3.5	Yn agored i ddulliau a ffyrdd newydd o gwblhau tasgau gwaith, ac yn herio eraill yn briodol i ystyried newid i wella ansawdd gofal; yn rhannu syniadau arloesol i wella arferion gwaith, yn fewnol ac yn allanol	Yn defnyddio tystiolaeth a gwybodaeth i fynd ati i hwyluso newid a fydd yn gwella gwasanaethau, ac yn defnyddio sgiliau rheoli newid effeithiol i gyfrannu at weithredu a gwerthuso newidiadau. Yn defnyddio methodolegau archwilio a gwella ansawdd i wella arferion gwaith a lleihau amrywiad mewn gofal a darparu gwasanaethau. Yn dangos mentergarwch i ddatblygu atebion amgen i arferion gwaith ac yn cymryd rhan yn adeiladol mewn profion newid o fewn y sefydliad trwy weithio ar y cyd ag eraill. Yn rhannu gwaith trwy rwydweithiau lleol a'r system fferylliaeth / gofal iechyd ehangach i sicrhau bod arloesedd yn cael ei rhannu a'i fabwysiadu.	4.4 4.5		

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
YN CYDNABOD CYFLEOEDD AR GYFER NEWID, ARLOESED A GWELLA ANSAWDD	3.6	Yn nodi a chodi pryderon ynghylch diogelwch cleifion yn effeithiol; yn cymhwyso egwyddorion rheoli risg; yn ymdrechu i wella ansawdd a defnydd diogel o feddyginiaethau fel mater o drefn	Yn codi ac yn uwchgysyfeirio pryderon, ac yn hyderus i herio eraill yn adeiladol (gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol uwch) lle mae problem gyda diogelwch cleifion a / neu ansawdd gofal. Yn mynd ati yn weithredol i adolygu prosesau, systemau ac arferion i wella safonau diogelwch cleifion, cefnogi rhagnodi diogel, a lleihau risg. Yn adrodd gwallau rhagnodi, digwyddiadau a fu bron â digwydd a digwyddiadau critigol, ac yn defnyddio offer megis dadansoddiad digwyddiadau sylweddol, dadansoddiad ffactorau dynol a / neu ddadansoddiad gwraidd y broblem i'w harchwilio nhw; yn datblygu ac yn gweithredu strategaethau i osgoi a lleihau gwallau meddyginiaeth rhag digwydd eto, ac yn monitro effaith unrhyw newidiadau ar ddiogelwch cleifion. Yn cynnal hunanarchwiliad sy'n gysylltiedig ag arferion proffesiynol a rhagnodi. Yn cefnogi gwerthuso cyson, adeiladol a theg o weithredoedd staff sy'n ymwneud â digwyddiadau diogelwch cleifion. Yn defnyddio mecanweithiau i fyfyrto ar adborth a chwynion defnyddwyr gwasanaeth a dysgu ohonynt er mwyn gwella gofal cleifion. Cymryd rhan ragweithiol mewn gweithgareddau diogelwch cleifion, e.e. ymateb i rybuddion diogelwch, adrodd digwyddiadau andwyol (hynny yw, adrodd Cerdyn Melyn). Yn gweithredu blaenoriaethau neu gynlluniau cenedlaethol / byd-eang i wella'r defnydd diogel ac effeithiol o feddyginiaethau, e.e. lleihau ymwrthedd gwrthficrobaidd. Yn cymhwyso mesurau atal a rheoli heintiau mewn poblogaethau, amgylcheddau a phobl. Yn cyfrannu* at brosiectau archwilio a gwella ansawdd (gan ddefnyddio methodoleg gwella ansawdd) i wella'r defnydd bregus ac effeithiol o feddyginiaethau. * Mae 'cyfrannu' yn golygu mwy na chasglu data. Nid yw'n ofynnol i'r unigolyn arwain, ond dylai gyfrannu at agweddau amrywiol, gan gynnwys dylunio, casglu data, dadansoddi, gweithredu a gwerthuso newidiadau, a rhannu dysgu. Yn cydnabod ac yn cymryd cyfrifoldeb am ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion, gan ddefnyddio systemau priodol ar gyfer nodi, codi pryderon, cael cyngor a gweithredu.	7.3 7.7	2.9 2.10 4.2 6.3 7.2-7.6 9.1-9.3	15 25 28

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
YN DANGOS HUNANYMWYBYDDIAETH, GWYTNWCH A'R GALLU I ADDASU	3.7	Yn dangos hunanymwbyddiaeth a deallusrwydd emosiynol yn y rôl, yn myfyrio ar, ac yn deall yr effaith y gallai sefyllfa ei chael ar iechyd a lles personol	Mae'n nodi teimladau, rhagfarnau gwybyddol, emosiynau a rhagfarnau personol, ac yn deall sut y gall y rhain effeithio ar ei ymddygiad a'i benderfyniadau, a sut y gallant effeithio ar berthnasodded gwaith a darpariaeth gofal. Yn ymwybodol o'r math o bersonoliaeth sydd ganddo, ac yn addasu dulliau cyfathrebu / ffyrdd o weithio wrth ryngweithio â phobl â gwahanol fathau o bersonoliaethau ac mewn gwahanol sefyllfaoedd. Yn rhagweld ac yn rheoli'r ffactorau yn y gwaith, y cartref a'r amgylchedd ehangach sy'n dylanwadu ar berfformiad a lles o ddydd i ddydd (personol neu eraill), gan gynnwys y gallu i berfformio dan bwysau; cymryd camau i leihau'r effaith, ynghyd ag ymwybyddiaeth o ffynonellau cymorth; yn cyrchu cefnogaeth os yw ei ymddygiad ei hun mewn perygl o effeithio ar ddiogelwch cleifion a darpariaeth gofal. Yn cydnabod ac yn cyfleu eich gwerthoedd a'ch egwyddorion eich hun, gan ddeall sut y gallant fod yn wahanol i werthoedd pobl a grwpiau eraill, gan sicrhau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant bob amser. Yn cyfrannu at ddiwylliant gweithle sy'n gwerthfawrogi ac yn cefnogi lles ei staff; yn cyrchu cefnogaeth yn briodol ynghylch pryderon iechyd neu emosiynol a allai effeithio ar ymarfer proffesiynol personol.	9.2		2
	3.8	Yn gallu aros yn ddigyffro hyd yn oed mewn sefyllfaoedd heriol neu dan bwysau mawr; yn datblygu ac yn tynnu ar rwydwaith cymorth mewn sefyllfaoedd heriol	Yn cydnabod amodau o ansicrwydd neu sefyllfaoedd anrhagweladwy; yn parhau i fod yn gynhyrchiol trwy addasu cynlluniau neu ddatblygu systemau a phrosesau i gefnogi gwneud penderfyniadau mewn sefyllfaoedd cymhleth; yn ymateb mewn modd rhesymegol a digynnwrf. Yn defnyddio strategaethau i reoli gwrthdaro a safbwyntiau croes. Yn defnyddio rhwydwaith cymheiriaid amlddisgyblaethol a chydweithwyr profiadol i gael cefnogaeth wrth ddelio â sefyllfaoedd heriol; yn myfyrio ar, ac yn dysgu o'r profiad.	9.1 9.3		
	3.9	Rheoli sawl blaenoriaeth yn effeithiol, yn effeithlon ac yn ddiogel; yn cynnal cywirdeb pan fydd mewn sefyllfa heriol; yn rheoli ei amser ei hun a'i lwyth gwaith yn ddigyffro, gan arddangos gwytnwch	Mae'n rheoli llwyth gwaith amrywiol yn effeithiol wrth gynnal ansawdd ac ystyried unigolion sy'n derbyn gofal; yn arddangos ymwybyddiaeth o lwyth gwaith pobl eraill, o fewn y tim fferylliaeth a'r tim amlddisgyblaethol; yn cynorthwyo'n briodol ac o fewn terfynau galluoedd cyfredol. Yn cwrdd â therfynau amser ar gyfer tasgau o ddydd i ddydd a thasgau tymor hwy, gan ddefnyddio sgiliau rheoli amser, trosglwyddo, blaenoriaethu a dirprwyo effeithiol; yn addasu ei ddull gwaith mewn ymateb i'r galw a'r gallu. Yn defnyddio strategaethau personol fel myfyrio, ôl-drafod, trosglwyddo i gydweithiwr arall, cefnogaeth cymheiriaid, a gofyn am help, i ddelio â heriau ac anawsterau ac adfer ohonynt; yn cynnal agwedd gadarnhaol gan ddysgu o lwyddiant yn ogystal â methiannau.	9.4 9.5		

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
YN DANGOS HUNANYMWYBYDDIAETH, GWYTNWCH A'R GALLU I ADDASU	3.10	Yn addasu ac yn gweithio'n effeithiol mewn gwahanol amgylcheddau o fewn maes fferylliaeth trwy gymhwyso dysgu blaenorol i leoliadau newydd	Yn ymateb yn hyblyg i weithio mewn gwahanol amgylcheddau ac yn helpu eraill i wneud hynny; yn datblygu dull strwythuredig o ddeall yr amgylchedd, y gweithgareddau a'r adnoddau sydd ar gael i lywio arferion gwaith, cydweithredu a gwneud penderfyniadau. Yn gallu newid cyflymder a chyfeiriad y gwaith er mwyn addasu a delio â digwyddiadau annisgwyl, mewn ymarfer o ddydd i ddydd a gyda nodau tymor hwy.	9.6		

Maes 4:
Addysg

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
YN DATBLYGU’N BERSONOL TRWY NODI CYFLEOEDD DYSGU YN RHAGWEITHIOL A MYFYRIO AR ADBORTH	4.1	Yn dangos agwedd gadarnhaol at hunanddatblygiad trwy gydol ei yrfa, nawr ac yn y dyfodol; yn cyrchu profiadau dysgu yn rhagweithiol i gefnogi ei ymarfer personol, ac mae ganddo awydd a chymhelliant i roi cynnig ar bethau newydd	Yn cyrchu ac yn cymryd rhan yn rhagweithiol mewn cyfleoedd dysgu a datblygiad proffesiynol o fewn ymarfer o ddydd i ddydd a thu hwnt, i gael y wybodaeth ddiweddaraf am arfer sy’n esblygu, pryderon diogelwch sy’n dod i’r amlwg sy’n gysylltiedig â rhagnodi, a datblygu ei wybodaeth a’i set sgiliau. Yn cyfrannu’n weithredol mewn gweithgareddau adolygu cymheiriaid a dysgu rhyngbroffesiynol. Yn cyfrannu at ddatblygu diwylliant o ddysgu sefydliadol i ysbrydoli staff y dyfodol a staff presennol; ymateb yn rhagweithiol i adborth i lunio gweithgareddau datblygu.	8.1 8.2 8.3	2.8 7.5 9.1	12
	4.2	Yn datblygu cynllun datblygu personol sy’n adlewyrchu ehangder datblygiad proffesiynol parhaus ac sy’n cynnwys datblygiadau arloesol posibl mewn meddyginiaeth a datblygiadau ymarfer	Myfyrio’n rheolaidd ar berfformiad i nodi cryfderau personol, meysydd i’w datblygu a rhwystrau posibl rhag cyflawni’r rhain. Yn datblygu cynllun datblygu personol gydag amcanion penodol i fynd i’r afael ag anghenion dysgu a datblygu a nodwyd, ac i gynnal cymhwysedd ar draws pob maes; gan gynnwys, yn benodol, amcanion i ddatblygu ymarfer rhagnodi a chynnal cymhwysedd; yn gwerthuso llwyddiant wrth gyflawni amcanion ac yn addasu yn unol â hynny. Yn dangos sut mae elfennau o ddatblygiad personol yn effeithio ar gynllunio gyrfa, anghenion y sefydliad, ac yn hwyluso symud o fod yn fferylllydd cymwys i fod yn fferylllydd medrus. Yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am dechnolegau gofal iechyd arloesol, meddyginiaethau a datblygu ymarfer; yn cydnabod sut y gallant ychwanegu at ymarfer clinigol a gwella canlyniadau i gleifion.	8.5 8.6	2.8 8.1 9.1 9.3	12

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
YN DATBLYGU'N BERSONOL TRWY NODI CYFLEOEDD DYSGU YN RHAGWEITHIOL A MYFYRIO AR ADBORTH	4.3	Yn cyrchu adborth a chefnogaeth gan gydweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth lle bo hynny'n briodol; yn barod i dderbyn gwybodaeth neu gyngor a roddir iddynt gan eraill i wneud newidiadau i'w harfer eu hunain	Yn cyrchu ac yn agored i dderbyn adborth, cadarnhaol a negyddol, gan bobl, defnyddwyr gwasanaeth a chydweithwyr. Yn arddangos newid a gwelliant mewn ymarfer o ganlyniad i fyfyrrio ar adborth ac adborth aml-ffynhonnell o ddigwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth / ffynonellau eraill.	5.2 8.7	9.1 9.3	12
YN CEFNOGI ADDYSG A DATBLYGIAD CYDWEITHWYR	4.4	Yn gweithredu fel model rôl a mentor cadarnhaol yn y tîm fferylliaeth ac amlddisgyblaethol, lle bo hynny'n briodol	Yn gweithredu fel model rôl a mentor cadarnhaol, ac yn cefnogi cydweithwyr a myfyrwyr llai profiadol i ddatblygu gwerthoedd ac ymddygiadau personol a phroffesiynol trwy anogaeth, cymhelliant a chefnogaeth. Yn cyfrannu at greu diwylliant gweithle amrywiol a chynhwysol lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi. Yn cyfrannu at greu amgylchedd sy'n hybu iechyd corfforol a meddyliol da ac yn darparu cefnogaeth fugeiliol i bobl â phroblemau iechyd meddwl.	4.1		
	4.5	Yn defnyddio ei arbenigedd ei hun yn effeithiol i ddarparu addysg a hyfforddiant i'r tîm fferylliaeth ac amlddisgyblaethol; yn cefnogi ac yn goruchwyllo aelodau llai profiadol o'r tîm	Yn mynd ati yn weithredol i rannu arfer gorau, gwybodaeth a sgiliau gydag aelodau eraill o'r tîm, defnyddwyr gwasanaethau a phobl, e.e. trwy sesiynau addysgol, trafodaethau anffurfiol ac adborth. Cynllunio a darparu gweithgareddau addysgol ar gyfer unigolion a grwpiau, o faes fferylliaeth, y tîm amlddisgyblaethol ehangach, defnyddwyr gwasanaeth ac unigolion sy'n derbyn gofal; yn datblygu cynlluniau hyfforddi, deunydd ategol perthnasol, yn defnyddio dulliau addysgu sy'n briodol i'r gweithgaredd addysgol ac yn ystyried anghenion y dysgwyr. Yn gwerthuso ac yn myfyrrio ar effeithiolrwydd y gweithgareddau addysgol; coladu data a defnyddio adborth i addasu ei ddull pan fo angen. Mae'n darparu adborth effeithiol, amserol ac adeiladol, wedi'i lywio gan fodelau adborth, i gefnogi datblygiad eraill. Mae'n darparu goruchwyliaeth effeithiol i fyfyrwyr a chydweithwyr llai profiadol, gan nodi anghenion dysgu a datblygu a chodi pryderon trwy sianeli priodol pan fo angen.	1.2 5.6	9.2	

Maes 5:
Ymchwil

Mae pwyllgor Addysg a Safonau (ESC) yr RPS yn cydnabod yr angen am fwy o eglurder ynghylch beth sy'n ffurfio'r safon dderbyniol sy'n ymwneud ag ymchwil ar draws cwricwla ôl-gofrestru'r RPS. Yn ystod eu trafodaeth, cyfeiriodd y pwyllgor at y diffiniadau safonol yn Nhabl Diffinio Ymchwil yr HRA. Yn hyn o beth, penderfynodd y pwyllgor ddarparu mwy o eglurhad canllaw i'r safon fel y nodir isod:

- Sylfaen ôl-gofrestru'r RPS:**
Gall gweithgareddau derbyniol i gyflawni'r canlyniad gynnwys tystiolaeth o ymchwil a/neu werthuso gwasanaeth gan ddefnyddio egwyddorion ymchwil. Ar gyfer sylfaen ôl-gofrestru dylai'r diweddariad hwn i'r diffiniad ymchwil ganiatáu i ymgeiswyr ddysgu sut i ymgymryd ag ymchwil o ansawdd uchel a gwerthuso gwasanaeth heb geisio adolygiad moeseg llawn a gydnabu'r pwyllgor y gall greu rhwystrau. Nid oes angen i'r gweithgaredd ar y lefel hon fod yn brosiect ymchwil unigol ac nid oes angen i'r ymchwil fod wedi'i chwblhau'n llawn; mae'n ymwneud â chyfranogiad ac amlygiad, nid arwain na dangos effaith ymchwil ar gleifion, ar y lefel hon.

GALLUOEDD		CANLYNIADAU	DISGRIFYDDION	FPF	RPS IP	GPHC IP
YN CYFRANNU AT WAITH YMCHWIL	5.1	Yn ymdrechu i gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil; yn mynd ati i ledaenu canlyniadau i gynulleidfaoedd priodol	Yn disgrifio'r gwahaniaethau rhwng archwilio, gwerthuso gwasanaeth, gwella ansawdd ac ymchwil. Yn beirniadu llenyddiaeth sydd wedi'i gyhoeddi ac yn cynnal trafodaethau gyda chyfoedion, e.e. cymryd rhan mewn clybiau cyfnodolion neu sesiynau adolygu cymheiriaid. Yn disgrifio nodweddion craidd protocol ymchwil a methodolegau ymchwil cyffredin (gan gynnwys meintiol ac ansodol) a ddefnyddir mewn ymchwil gwasanaethau iechyd ac ymchwil glinigol. Yn cymhwyso egwyddorion ymarfer ymchwil da wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil; e.e. gweithredu fel pwnc mewn grŵp ffocws neu astudiaeth sy'n seiliedig ar gyfweiliadau, neu drwy gefnogi prosiect ymchwil. Yn deall pwysigrwydd ymddygiad moesegol, cydsyniad, cyfrinachedd a threfniadau llywodraethu i sicrhauansawdd ymchwil a diogelu'r cyhoedd. Yn rhannu canfyddiadau prosiect ymchwil a gynhaliwyd yn lleol / rhanbarthol / cenedlaethol, ac yn disgrifio'r goblygiadau ar ei ymarfer / darpariaeth gwasanaeth er mwyn gwella gofal cleifion.	8.4		

3.2 Sut mae'r cwricwlwm yn cefnogi arferion rhagnodi diogel?

Mae rhagnodi yn broses gymhleth ac mae ei hintegreiddio trwy'r cwricwlwm cyfan yn cefnogi fferyllwyr lefel sylfaen ôl-gofrestru i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o egwyddorion rhagnodi diogel, effeithiol a chost-effeithiol. Dylai'r cwricwlwm ddatblygu fferyllwyr sy'n gallu ymgymryd y gwahanol gamau yn y broses sy'n arwain at ragnodi (gan gynnwys cychwyn neu newid), dad-ragnodi neu beidio â rhagnodi meddyginiaeth, o fewn eu cwrmpas ymarfer. Mae hyn yn cynnwys:

- cael hanes llawn a pherfformio sgiliau asesu clinigol
- rheoli ansicrwydd a risg glinigol
- cymhwyso rhesymu clinigol a meddwl yn feirniadol wrth wneud penderfyniadau ar y cyd
- cytuno ar y driniaeth fwyaf priodol mewn partneriaeth â'r unigolyn
- sicrhau trefniadau dilynol, monitro ac atgyfeirio priodol
- cyfathrebu a dogfennu ymyriadau rhagnodi
- cymryd cyfrifoldeb am, a chyfiawnhau penderfyniadau
- bod yn ymwybodol o gyfyngiadau eich hun ac ymarfer o fewn y cyfyngiadau hynny

Wrth gychwyn fel rhagnodwyr, argymhellir bod gan bob rhagnodydd lefel sylfaen ôl-gofrestru fynediad at fecanweithiau goruchwyllo a chymorth priodol, cefnogaeth cymheiriaid a mentora, i helpu i ddatblygu eu cymhwysedd a'u hyder. Rydym yn argymhell bod fferyllwyr lefel sylfaen ôl-gofrestru a'u rheolwyr llinell yn ystyried cyd-destun eu maes ymarfer / gwasanaethau a gomisiynir er mwyn cytuno ar gwmpas eu hymarfer. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, gweithgareddau optimeiddio meddyginiaethau diffiniedig a rhagnodi ar gyfer set graidd o gyflyrau aciwt a / neu dymor hir cyffredin, wedi'u dogfennu o fewn fframwaith rhagnodi.

3.3 Pa sgiliau asesu clinigol craidd sydd wedi'u cynnwys?

Mae'r **canllaw pwnc** yn cynnwys y set graidd o sgiliau asesu clinigol y mae'n rhaid i fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru ddod yn gymwys ynddynt erbyn diwedd eu hyfforddiant. Mae'r rhestr wedi cael ei llywio gan ymarfer cwrmpasu i bennu'r sgiliau asesu clinigol a ddefnyddir amlaf gan fferyllwyr mewn ymarfer clinigol ac i gefnogi adnabod unigolyn sy'n ddifrifol wael neu sy'n dirywio.^{3,4,5,6} Mae cynnwys set graidd o sgiliau asesu clinigol yn cefnogi cludadwydd y gweithlu ac yn helpu i reoli disgwyliadau ymhlith y tîm amlddisgyblaethol ehangach.

Mae'r sgiliau asesu clinigol sy'n ofynnol gan fferyllwyr yn debygol o esblygu wrth i wasanaethau newydd gael eu comisiynu a bydd y canllaw pwnc yn cael ei ddiweddarau yn unol â hynny. Rhaid i fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru allu amlinellu'r dangosyddion ar gyfer yr asesiadau hyn, arddangos y dechneg gywir, dilyn y gweithdrefnau priodol ar gyfer sicrhau caniatâd dilys, a pherfformio'r asesiadau mewn lleoliad priodol gan ystyried cyfrinachedd, cydsyniad, urddas a pharch.

Er ei bod yn ddymunol gallu cyflawni'r holl sgiliau asesu clinigol yn gymwys ac yn annibynnol yn ymarferol, cydnabyddir efallai na fydd gan rai lleoliadau gwaith y gwasanaethau na'r offer i allu darparu hyfforddiant yn y gweithle a bydd angen cyfleoedd dysgu amgen, e.e. hyfforddiant efelychol mewn labordy sgiliau clinigol neu hyfforddiant gyda chefnogaeth i ymgymryd â dysgu mewn lleoliad gwaith arall.

3. Girvin, B., Akpan, U., Hampson, N., Middleton, H., Sims, L., & Barry, H. (2020). Establishing the roles undertaken and clinical skills needed by general practice-based pharmacists: a web-based survey. *Pharmacy Education*, 20(1): 253 <https://doi.org/10.46542/pe.2020.201.249264>
4. NHS Health Education England. *Pre-registration Pharmacist in General Practice Handbook 2020/2021*
5. Robert Gordon University Aberdeen and NHS Highland. *Clinical skills and procedures logbook. Master of Pharmacy, Pharmacy Longitudinal Clerkship 2019/2020*
6. Hasan Ibrahim A, Barry H, Girvin B, Hughes C. (2021) Development of a core set of clinical skills for pharmacist prescribers working in general practice: A Delphi study. Unpublished

Cydnabyddir y bydd rhai rhaglenni sylfaen ôl-gofrestru neu gyflogwyr yn darparu hyfforddiant ar gyfer sgiliau asesu clinigol ychwanegol i ddiwallu anghenion darpariaeth gwasanaeth lleol; ni fydd y rhain yn cael eu cynnwys yn rhaglen asesu'r RPS.

Ar y lleiaf, rhaid i unigolion allu perfformio pob sgil asesu clinigol gyda goruchwyliaeth / cymorth cyfyngedig er mwyn cael ei achredu ar ddiwedd y rhaglen.

3.4 Sut y byddwn yn sicrhau bod cynnwys dysgu'r cwricwlwm yn gynhwysol?

Mae'r RPS wedi ymrwymo i ddathlu amrywiaeth y proffesiwn fferylliaeth a sicrhau bod ei gwricwlwm yn gynhwysol ac yn hygyrch i bawb. Er mwyn sicrhau hyn, rydym wedi cynnal asesiad effaith cydraddoldeb llawn o'r cwricwlwm; rydym yn annog rhaglenni hyfforddi i adolygu'r adroddiad ac ystyried y pwyntiau a godwyd a ffactorau a gweithredoedd lliniarol.

Yn ogystal, er mwyn annog cymaint o leisiau â phosibl i lunio cynnwys y cwricwlwm, rydym wedi mynd ati i gyrchu mewnbwn gan grŵp Action in Belonging, Culture and Diversity (ABCD) yr RPS, y Black Pharmacist Collective a'r Black Pharmacist Initiative i sicrhau bod lleisiau amrywiol wedi llunio'r cwricwlwm a'r rhaglen asesu, lle bo hynny'n bosibl:

- Fferyllwyr o grwpiau ethnig gwahanol;
- Fferyllwyr ag anableddau;
- Fferyllwyr o bob rhan o'r sbectrwm cyfeiriadedd rhywiol;
- Fferyllwyr o bob rhan o'r sbectrwm rhywedd;
- Fferyllwyr nad ydynt yn gweithio'n llawn-amser;
- Fferyllwyr sydd wedi cymryd egwyl o hyfforddiant, e.e. y rheini sydd yn absennol, neu sydd wedi bod yn absennol o'r gwaith oherwydd ymrwymadau teuluol.

4

Darpariaeth addysg a hyfforddiant

4.1 Sut y gellir cyflwyno hyfforddiant yn erbyn y cwricwlwm?

Er mwyn gallu dangos canlyniadau'r rhaglen ddysgu yn llwyddiannus, mae profiad o weithio mewn rôl sy'n canolbwyntio ar y claf mewn o leiaf un sector o ymarfer fferylliaeth yn hanfodol.

Dyluniwyd y cwricwlwm i gynnig hyblygrwydd sylweddol i gyflogwyr, cyrff addysg statudol, sefydliadau addysg uwch a darparwyr hyfforddiant eraill o ran sut y darperir yr addysg a'r hyfforddiant. Yn bwysig, bydd angen i raglenni hyfforddi bob amser gynnwys sefydliad addysg uwch achrededig GPhC i gyflawni'r elfennau hyfforddi rhagnodi annibynnol. Mae enghreifftiau o sut y gellid cyflwyno'r cwricwlwm yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- **Rhaglenni hyfforddiant wedi'u comisiynu**
 - Gall y cyrff addysg statudol gomisiynu darparwyr hyfforddiant i ddarparu addysg a hyfforddiant yn erbyn canlyniadau cwricwlwm yr RPS. Gallai hyn fod ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol.
- **Rhaglenni hyfforddiant a arweinir gan gyflogwyr**
 - Efallai y bydd rhai cyflogwyr yn dewis datblygu eu rhaglenni hyfforddiant eu hunain sy'n diwallu canlyniadau cwricwlwm yr RPS. Byddai angen i'r cyflogwr gomisiynu sefydliad addysg uwch i gyflawni'r elfen rhagnodi annibynnol, a gallai gynnwys darparwyr hyfforddiant wrth gyflwyno meysydd eraill o'r cwricwlwm a / neu gyflawni'r hyfforddiant hwn yn fewnol.
- **Rhaglenni hyfforddiant gan ddarparwyr hyfforddiant**
 - Darparwyr hyfforddiant yn datblygu ac yn cyflwyno rhaglen hyfforddi lawn sy'n diwallu canlyniadau cwricwlwm yr RPS. Byddai'r darparwr hyfforddiant yn marchnata ei raglen hyfforddi ei hun.
- **Dull a arweinir gan yr unigolyn**
 - Os nad oes gan unigolyn fynediad at raglen hyfforddi sylfaen ôl-gofrestru ffurfiol, gallai ddefnyddio'r cwricwlwm i greu ei lwybr datblygu ei hun. Byddai hyn yn cynnwys ymgymryd â chwrs rhagnodi annibynnol arwahanol a chynllunio sut i ymgymryd â dysgu a datblygu er

mwyn gallu cyflawni'r canlyniadau rhagnodi nad ydynt yn annibynnol, e.e. trwy ddysgu o brofiad a / neu hyfforddiant ffurfiol.

Disgrifir y ddau fodel cyffredinol ar gyfer darpariaeth addysg a hyfforddiant sy'n ymwneud â'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â rhagnodi a'r canlyniadau nad ydynt yn gysylltiedig â rhagnodi isod. Ni fydd yr RPS yn cyflwyno rhaglenni addysg a hyfforddiant ffurfiol yn erbyn canlyniadau'r cwricwlwm ar gyfer y naill fodel neu'r llall; bydd hyn yn cael ei ddarparu gan ddarparwyr hyfforddiant, gan gynnwys darparwyr rhagnodi annibynnol achrededig GPhC, a / neu'n alwedigaethol.

- Rhaglen hyfforddi **integredig**: mae'r elfennau rhagnodi a'r elfennau nad ydynt yn gysylltiedig â rhagnodi wedi'u hintegreiddio i mewn i un rhaglen sy'n cyd-fynd â chanlyniadau'r cwricwlwm. Mae'r sefydliad addysg uwch sy'n cyflwyno'r elfen rhagnodi (+/- yr elfen nad yw'n gysylltiedig â rhagnodi) a'r RPS yn cydweithio ac yn cynnal asesiad portffolio diwedd rhaglen ar y cyd (yn amodol ar gymeradwyaeth GPhC), gan ddyfarnu ardystiad rhagnodi annibynnol a chymhwyster diwedd rhaglen ar yr un pryd.

- Rhaglen hyfforddi **fodwlar**: cyflwynir yr elfen rhagnodi trwy gwrs rhagnodi annibynnol arwahanol a gynigir gan ddarparwr sefydliad addysg uwch achrededig, gan arwain at ardystiad rhagnodi annibynnol gan y sefydliad addysg uwch. Cyflwynir yr elfen nad yw'n gysylltiedig â rhagnodi trwy brofiadau dysgu ffurfiol a / neu alwedigaethol eraill. Mae'r RPS yn cynnal asesiad portffolio diwedd rhaglen ac yn dyfarnu cymhwyster diwedd rhaglen; cydnabyddir ardystiad rhagnodi annibynnol ar wahân trwy achrediad dysgu ardystiedig blaenorol.

Gellir dangos tystiolaeth ar gyfer canlyniadau'r cwricwlwm trwy ennill profiad mewn ystod eang o amgylcheddau, gan ganiatáu hyblygrwydd i ddiwallu anghenion y gwasanaeth a'r fferyllwydd unigol.

Os yw fferyllwyr yn dymuno symud i faes ymarfer gwahanol a / neu wlad wahanol yn ystod eu hyfforddiant, bydd hyn yn dibynnu ar fformat eu rhaglen hyfforddi, a dylid trafod y sefyllfa gydag arweinydd y rhaglen yn y corff addysg statudol a / neu'r sefydliad addysg uwch.

Ffigwr 6.
Modelau rhaglen hyfforddiant

	INTEGREDIG	MODIWL
Cwricwlwm	Deilliannau sylfaen ôl-gofrestru RPS	Canlyniad sylfaen ôl-gofrestru RPS
Darpariaeth addysg a hyfforddiant	Elfennau rhagnodi a pheidio â rhagnodi wedi'u hintegreiddio trwy gydol y rhaglen hyfforddi Darperir gan sefydliad addysg uwch/darparwyr hyfforddiant eraill/galwedigaethol	Cwrs rhagnodi annibynnol + darpariaeth addysg a hyfforddiant nad yw'n bresgripsiwn Darperir gan sefydliad addysg uwch/darparwyr hyfforddiant eraill/galwedigaethol
Asesiad	Asesiad RPS/sefydliad addysg uwch ar y cyd	Rhagnodi: asesiad sefydliad addysg uwch Peidio â rhagnodi: asesiad RPS
Gwobr	Sefydliad addysg uwch yn dyfarnu tystysgrif ymarfer rhagnodi annibynnol Gwobrau RPS Cymhwysedd Sylfaen ôl-gofrestru	Sefydliad addysg uwch yn dyfarnu tystysgrif ymarfer rhagnodi annibynnol Gwobrau RPS Cymhwysedd Sylfaen ôl-gofrestru
Achrediad rhagnodi annibynnol GPhC	Rhaglen hyfforddi fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru	Cwrs rhagnodi annibynnol aruning

Bydd y cwricwlwm safonedig yn galluogi hyblygrwydd i fferyllwyr sy'n dymuno ennill profiad mewn gwahanol sectorau a / neu wledydd ar ôl cwblhau eu hyfforddiant.

Mae hyd y rhaglenni yn hyblyg a byddant yn amrywio yn dibynnu ar y model cyflwyno ac a yw'r fferyllwydd dan hyfforddiant yn gweithio'n llawn amser neu'n llai nag amser llawn, yn cael unrhyw seibiannau yn ystod eu hyfforddiant a'u hamgylchiadau unigol. Ni osodir unrhyw derfyn amser ar raglenni, er y gall rhai rhaglenni gynnwys terfyn amser ar gyfer yr elfen ragnodi ffurfiol a / neu eu rhaglen hyfforddi lawn.

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys y wybodaeth, sgiliau, ymddygiadau a phrofiad craidd sy'n ofynnol i ymarfer yn ddiogel ar draws pob sector a gwlad. Mae hyfforddiant ychwanegol sy'n ofynnol i ddarparu gwasanaethau sy'n benodol i bob sector a / neu wlad y tu allan i gwmpas y cwricwlwm hwn.

Mae'r cwricwlwm yn cynnwys meini prawf ar gyfer cydnabod dysgu ardstyiedig blaenorol er mwyn osgoi dyblygu.

4.2 Pa fathau o brofiadau ddylai unrhyw hyfforddiant eu cynnwys?

Dylai'r cwricwlwm gael ei ddefnyddio i helpu i lywio hyfforddiant i sicrhau y gall dysgwyr ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i gwblhau eu rhaglenni hyfforddi.

Er mwyn datblygu galluoedd rhagnodi, bydd angen i fferyllwyr ddod i gysylltiad ag amrywiaeth o brofiadau dysgu sy'n caniatáu iddynt dreulio amser gyda rhagnodwyr eraill, gweithredu fel rhan o'r tîm amlddisgyblaethol a datblygu eu sgiliau clinigol, diagnostig a rhagnodi. Bydd natur y profiadau dysgu yn amrywio yn dibynnu ar y lleoliad gwaith a'r rhaglen, a gall gynnwys astudio dan gyfarwyddyd, astudio hunangyfeiriedig, diwrnodau astudio (rhithwir neu wyneb yn wyneb) a dysgu yn ymarferol.

Yn ymarferol, dylai'r profiadau dysgu a awgrymir i gefnogi'r cyfnod dysgu rhagnodi gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Oruchwylio ymarfer gyda rhagnodwyr annibynnol cymwys, dod i gysylltiad ag ehangder ymarfer gyda chyfranogiad gweithredol i gefnogi datblygiad sgiliau a chymwyseddau clinigol;

- Cyfranogiad gweithredol mewn gweithgareddau i ddatblygu sgiliau gwneud penderfyniadau clinigol, fel arsylwi a holi rhagnodwyr profiadol ar eu prosesau gwneud penderfyniadau, defnyddio adborth a myfyrion ar eich penderfyniadau eich hun gyda chefnogaeth goruchwylwyr clinigol, efelychu ac adolygu cymheiriaid;
- Goruchwyliaeth ymarfer ac amlygiad i ymarfer, mewn gwasanaethau y cyfeirir atynt yn ystod gwaith arferol, e.e. ymarfer cyffredinol, unedau mân anafiadau;
- Arsylwi a chymryd rhan weithredol mewn clinigau sy'n cael eu rhedeg gan rhagnodwyr (meddygol ac anfeddygol);
- Mynychu cwrs hyfforddi priodol, e.e. hyfforddiant sgiliau clinigol, hyfforddiant sgiliau ymgynghori i gefnogi datblygiad cymwyseddau;
- Cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd amlddisgyblaethol mewn meysydd ymarfer perthnasol;
- Cymryd rhan weithredol mewn sesiynau dysgu rhyngbroffesiynol, gan gynnwys sesiynau efelychol;
- Trafodaethau gyda chyfoedion a mentoriaid ynghylch dysgu o ymarfer a phrofiadau, e.e. trafodaethau ar sail achosion, dysgu ar sail problemau, dysgu mewn tîm.

Yn ogystal, rhaid i bob rhaglen sylfaen ôl-gofrestru fodloni'r gofynion amser dysgu lleiaf a ddiffinnir yn Safonau'r GPhC ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr sy'n rhagnodwyr annibynnol.

Yn ogystal, bydd gofyn i fferyllwyr ddod i gysylltiad â lluo o weithgareddau proffesiynol nad ydyn nhw'n canolbwyntio ar y claf ond sy'n bwysig ar gyfer darparu gofal proffesiynol diogel a datblygiad proffesiynol parhaus. Dylai'r mwyafrif o brofiadau dysgu fod ar gael yng ngweithle'r unigolyn ei hun a gellir eu hwyluso gan dechnoleg o bell, lle bo angen.

Bydd angen profiad ar fferyllwyr o gymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau rheoli risg, gwella ansawdd, llywodraethu clinigol a datblygu gwasanaeth lleol i ddatblygu eu sgiliau arwain a rheoli. Gall enghreifftiau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Ymchwilio i wall rhagnodi neu ddsbarthu a gweithredu newid i leihau gwallau yn y dyfodol;

- Gweithredu gwasanaeth neu ymyrraeth iechyd cyhoeddus newydd;
- Ymgymryd â phrosiect gwella ansawdd i leihau gwastraff meddyginiaethau;
- Cynnal archwiliad o ymlyniad rhagnodi ar ran y fformiwlari lleol neu'r canllaw cenedlaethol ar gyfer cyflwr clinigol;
- Cynnal dadansoddiad digwyddiad arwyddocaol pan fydd rhywbeth wedi mynd o'i le.

Yn ogystal, bydd angen i fferyllwyr ennill profiad o oruchwyllo a mentora eraill, a datblygu a darparu ymyriadau addysg i'r tîm fferylliaeth ac i'r tîm amlddisgyblaethol. Gall enghreifftiau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Goruchwyllo a / neu fentora myfyrwyr fferyllol neu dechnegwyr fferyllol ar leoliad;
- Goruchwyllo a / neu fentora fferyllwyr sylfaen neu dechnegwyr fferyllol cyn-gofrestru;
- Datblygu a darparu sesiwn hyfforddi ar gyfer staff fferyllol ar reoli poen aciwt;
- Datblygu a darparu sesiwn ddysgu amser cinio o bell ar gyfer staff gofal cymdeithasol ynghylch cefnogi pobl â'u meddyginiaethau;
- Datblygu a darparu sesiwn hyfforddi ar gyfer staff cartrefi gofal ynghylch rhoi meddyginiaethau i gleifion ag anawsterau llyncu (o bell neu'n bersonol).

Yn olaf, bydd angen i'r rheini sy'n ymgymryd â'r rhaglen gymryd rhan mewn gweithgareddau ymchwil. Er mwyn gallu cyflawni hyn, mae'n debygol y bydd angen i'r fferylllydd chwilio am gyfleoedd i gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil sy'n cael eu harwain gan eraill. Efallai y bydd goruchwylwyr, cyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a / neu gyrff addysg statudol yn gallu cyfeirio fferyllwyr at gyfleoedd ymchwil a fydd hefyd yn caniatáu i'r fferylllydd gymhwyso egwyddorion ymarfer ymchwil da. Gall enghreifftiau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Gasglu data ar gyfer cydweithiwr sy'n ymgymryd â phrosiect ymchwil, gan sicrhau y cedwir at y trefniadau cydsynio a llywodraethu perthnasol;
- Monitro llif anadl pobl sydd wedi cydsynio i gymryd rhan mewn prosiect ymchwil lleol sy'n archwilio effaith cwnsela pypmpiau anadlu ar ganlyniadau asthma;

- Gweithio gyda chydweithwyr i ddylunio a gwerthuso effaith teclyn brysbennu fferylliaeth leol;
- Cynnal cyfweiliadau cleifion fel rhan o brosiect ymchwil mwy a gynhelir gan y meddygfeydd lleol, i archwilio ymlyniad wrth feddyginiaeth atal eilaidd;
- Cymryd rhan mewn grŵp ffocws sy'n rhan o brosiect ymchwil y mae'r brifysgol yn ei gynnal.

Cyfrifoldeb cyflogwyr a / neu gyrff comisiynu addysgol yw trefnu a darparu unrhyw hyfforddiant ffurfiol sy'n gysylltiedig â chyflawni'r canlyniadau hyn.

4.3 Pa strwythurau goruchwyllo a chymorth ddylai fod ar waith i gefnogi dysgu?

Er mwyn sicrhau bod fferyllwyr sy'n ymgymryd â rhaglen sylfaen ôl-gofrestru yn cael cefnogaeth dda trwy gydol eu hyfforddiant, rhaid bod ganddyn nhw ymarferydd rhagnodi dynodedig, a dylent dderbyn cefnogaeth gan oruchwyllydd addysgol a enwir, a goruchwylwyr ymarfer. Er bod rolau'r gwahanol oruchwylwyr yn wahanol ac yn cael eu disgrifio isod, mae'n bosibl y gall un person ymgymryd â dwy neu hyd yn oed tair o'r rolau hyn mewn rhai lleoliadau gwaith / sefydliadau llai. Dylai rhaglenni hyfforddi ystyried adnoddau wrth benderfynu ar drefniadau goruchwyllo. Rydym yn argymhell yn gryf bod gan unigolion fynediad at oruchwyllydd addysgol i arwain eu datblygiad personol a phroffesiynol a'u cefnogi i gyflawni gofynion y cwriclewm.


Rydym wedi gwahanu rolau'r goruchwylwyr i'w gwneud hi'n glir bod yr ymarferydd rhagnodi dynodedig yn gyfrifol am gymeradwyo'r fferylllydd sylfaen fel un sy'n gymwys i fod yn rhagnodydd annibynnol. Mewn rhai rhaglenni, disgwyliwn y bydd gan y goruchwyllydd addysgol rôl sylweddol hefyd o ran cefnogi'r elfen rhagnodi ac y gall ymgymryd â rôl ymarferydd rhagnodi dynodedig hefyd.

Fe'ch cynghorir y dylai'r dysgwr fynychu cyfarfodydd **misol rheolaidd**, wedi'u hamserlennu a'u goruchwyllo, gyda'i oruchwyllydd addysgol a / neu ymarferydd rhagnodi dynodedig. Yn absenoldeb strwythurau cyfathrebu mwy ffurfiol rhwng y goruchwyllydd addysgol a'r ymarferydd rhagnodi dynodedig, bydd y dysgwr yn gweithredu fel cyswllt rhwng ei oruchwylwyr trwy gyfathrebu effeithiol.

Dylai pob goruchwilydd:


- Gael hyfforddiant priodol ar gyfer eu rolau a deall y rhaglen ddysgu, y dull addysgol a phrosesau asesu'r rhaglen sylfaen ôl-gofrestru;
- Bod yn fodelau rôl cadarnhaol;
- Arddangos ymwybyddiaeth ddiwylliannol a chymryd camau gweithredol i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, mynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai arwain at gyrhaeddiad gwahaniaethol, a hyrwyddo diwylliant ac amgylchedd dysgu cynhwysol i bawb;
- Darparu adborth cefnogol ac adeiladol o ansawdd uchel sy'n hanfodol ar gyfer datblygiad proffesiynol y fferylllydd, ac sy'n hyrwyddo dysgu dyfnach wrth ei gyfuno â hunan-fyfyrio.

Ffigwr 7.
Strwythur cymorth a argymhellir



Ffigwr 8.

Crynodeb o rolau a chyfrifoldebau goruchwyliol



4.3.1 Goruchwylwyr addysgol

Dylai fferyllwyr sy'n ymgymryd â rhaglen sylfaen ôl-gofrestru gael fferylllydd a enwir sy'n gyfrifol am oruchwyllo a rheoli eu cynnydd addysgol yn gyffredinol yn ystod y rhaglen (ac eithrio rhagnodi annibynnol). Gellir cyflawni'r rôl hon o bell. Bydd y goruchwyllydd addysgol yn helpu i arwain y fferylllydd gyda'i ddatblygiad personol a phroffesiynol ac, yn ogystal â sgiliau goruchwyllydd y fferyllfa, dylent hefyd fod â dealltwriaeth o theori addysgol.

Disgwylir iddynt gynnal digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth, monitro ansawdd unrhyw dystiolaeth o ddysgu a gyflwynir gan y fferylllydd, darparu adborth amserol ac effeithiol ar gynnydd y fferylllydd sylfaen ôl-gofrestru, ac arwain ymarfer myfyriol. I grynhoi, y goruchwyllydd addysgol sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am gadarnhau bod y fferylllydd wedi diwallu canlyniadau rhagnodi heb fod yn annibynnol y rhaglen.

Bydd y goruchwylydd addysgol:

- Yn deall yr ystod dysgu, asesu a chyfleoedd cymorth dysgu yn y gweithle er mwyn diwallu gofynion y cwricwlwm;
- Yn sicrhau bod y fferylllydd yn derbyn cymorth, hyfforddiant ac addysg briodol;
- Yn cydweithio â chydweithwyr i fonitro a chefnogi cynnydd y fferylllydd;
- Yn meithrin ymreolaeth y fferylllydd;
- Yn meddu ar ddealltwriaeth dda o unrhyw offer technoleg gwybodaeth (TG) ategol, e.e. e-bortffolio a'r hyn a ystyrir yn gynnydd derbyniol;
- Yn adolygu dysgu ac yn darparu adborth ffurfiannol ar gyfer ymarfer myfyriol;
- Yn asesu tystiolaeth gweithle ffurfiol yn erbyn y cwricwlwm;
- Yn cwrdd â'r fferylllydd yn rheolaidd i adolygu ei gynnydd trwy'r cwricwlwm;
- Yn nodi a chefnogi fferyllwyr sy'n profi anawsterau, gan gynnwys cysylltu â'r goruchwylydd / goruchwylwyr perthnasol, rhyngwynebu â gweithdrefnau rheoli perfformiad cyflogaeth a sicrhau bod camau / camau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael eu rhannu fel y bo'n briodol.

4.3.2 Ymarferydd Rhagnodi Dynodedig

Rhaid bod gan fferyllwyr ymarferydd rhagnodi dynodedig penodol yn ystod y cyfnod ffurfiol o ddysgu ymarferol.

Rhaid i ymarferwyr rhagnodi dynodedig fodloni'r gofynion rheoliadol yn Safonau GPhC ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr sy'n rhagnodwyr annibynnol, a dylent allu dangos y cymwyseddau yn Fframwaith Cymhwysedd yr RPS ar Ymarferwyr Rhagnodi Dynodedig. Dylent fod â'r gallu i gyflawni'r rôl yn ddigonol a darparu'r lefel ofynnol o gefnogaeth a goruchwyliaeth i sicrhau diogelwch cleifion.

Bydd yr ymarferydd rhagnodi dynodedig yn helpu i arwain y fferylllydd gyda datblygiad proffesiynol ei alluoedd rhagnodi. Disgwylir iddynt asesu sgiliau clinigol a diagnostig wynebu cleifion, monitro ansawdd unrhyw dystiolaeth o ddysgu a gyflwynir gan y fferylllydd, darparu adborth amserol ac effeithiol ar gynnydd y fferylllydd, ac arwain ymarfer myfyriol. Bydd gan yr ymarferydd rhagnodi

dynodedig gyfrifoldeb cyffredinol am gadarnhau bod y fferylllydd wedi cyflawni canlyniadau rhagnodi annibynnol y rhaglen a'i fod yn gymwys i ymarfer fel rhagnodydd.

Mae'n ofynnol i'r ymarferydd rhagnodi dynodedig oruchwyllo'r fferylllydd yn ystod y cyfnod dysgu ymarferol ac, yn ystod yr amser hwn, dylai:

- Ddarparu goruchwyliaeth a chefnogaeth ddigonol i'r fferylllydd a'i helpu i gynllunio ei gyfnod dysgu ymarferol, gan nodi a hwyluso cyfleoedd dysgu perthnasol;
- Darparu amser a chyfleoedd dynodedig i gydweithio â'r fferylllydd mewn lleoliad clinigol;
- Deall y ffordd orau o addysgu sut i gymhwyso gwybodaeth glinigol neu sgiliau clinigol, ac addasu yn unol ag arddull ddysgu'r fferylllydd;
- Defnyddio ystod o ddulliau addysgu effeithiol yn y gweithle;
- Adolygu dysgu a darparu adborth ffurfiannol ar gyfer ymarfer myfyriol, annog sgiliau meddwl yn feirniadol, a chefnogi'r fferylllydd i ddatblygu ei sgiliau rhagnodi a'i wybodaeth er mwyn bod yn rhagnodydd diogel;
- Asesu tystiolaeth a gasglwyd yn y gweithle yn erbyn y cwricwlwm;
- Cwrdd â'r fferylllydd yn rheolaidd i adolygu ei gynnydd o ran ei hyfforddiant rhagnodi;
- Sicrhau bod y fferylllydd yn gweithio dan oruchwyliaeth uniongyrchol gweithiwr gofal iechyd proffesiynol cymwysedig a'i fod yn perfformio tasgau cysylltiedig â rhagnodi y mae un ai'n gymwys i'w cyflawni neu'n dysgu dan oruchwyliaeth i'w cyflawni, fel nad yw diogelwch cleifion yn cael ei gyfaddawdu;
- Hysbysu'r brifysgol a'r goruchwylydd addysgol os oes unrhyw faterion neu bryderon yn ymwneud â pherfformiad y fferylllydd a gallu'r fferylllydd i ddatblygu i fod yn rhagnodydd annibynnol;
- Gweithio mewn partneriaeth â'r fferylllydd, ymarferwyr eraill a darparwr y rhaglen i gadarnhau cymhwysedd y fferylllydd;
- Nodi dysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd, cymryd camau cychwynnol i gefnogi fferyllwyr ag anawsterau, a sicrhau bod y goruchwylydd

addysgol a'r darparwr hyfforddiant yn ymwybodol o'r camau / camau gweithredu y cytunwyd arnynt lle bo hynny'n briodol.

4.3.3 Goruchwylwyr Ymarfer

Mae goruchwyllydd ymarfer yn gyfrifol am oruchwyliaeth dydd i ddydd yn y gweithle. Nid yw hyn yn golygu bod angen iddynt weithio'n gorfforol ochr yn ochr â'r unigolyn, ond dylent fod ar gael i gefnogi'r dysgwyr a rhoi adborth iddynt yn rheolaidd. Bydd goruchwylwyr ymarfer yn integreiddio dysgu yn y gweithle â darpariaeth gwasanaeth trwy alluogi'r fferylllydd i gymryd cyfrifoldeb am reoli cleifion go iawn wrth reoli risg i ddiogelwch cleifion trwy lywodraethu clinigol effeithiol. Maent yn darparu amgylchedd diogel a chyfrinachol i fferyllwyr fyfyrion ar eu gwaith a'i drafod. Dylai goruchwylwyr ymarfer bod yn fodolau rôl cadarnhaol a dylent feddu ar brofiad priodol personol er mwyn goruchwyllo'r fferylllydd sylfaen ôl-gofrestru yn effeithiol. Er mwyn cyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol, dylai goruchwylwyr ymarfer fod ar gael i'r fferylllydd, darparu cyfleoedd addysgu, dysgu a datblygu yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn, darparu adborth rheolaidd ac effeithiol, cynnal digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth, a bod yn bresennol i gefnogi'r fferylllydd pan fydd materion yn codi. Gellir dirprwyo rhai elfennau o oruchwyliaeth ymarfer i aelodau profiadol o'r tîm amlddisgyblaethol a gellir darparu goruchwyliaeth ymarfer o bell.

Dylai'r goruchwyllydd ymarfer:

- Ddeall sut mae gwahanol fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru yn dysgu orau, perthnasedd hyn i addysgu a hyfforddi, ac addasu ei arddull bersonol yn unol â hynny;
- Deall y ffordd orau o addysgu sut i gymhwyso gwybodaeth neu sgil, ac addasu yn unol ag arddull ddysgu'r fferylllydd sylfaen ôl-gofrestru;
- Cefnogi dull personol a rhagweithiol o ddysgu trwy ddadansoddi anghenion dysgu;
- Defnyddio amrywiaeth o ddulliau addysgu effeithiol yn y gweithle;
- Deall pwysigrwydd myfyrion ar, a gwerthuso ei addysg / hyfforddiant ei hun;
- Teilwra a darparu adborth effeithiol i fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru unigol;

- Defnyddio trafodaethau myfyriol i gynorthwyo dysgwyr i archwilio a rheoli heriau, cymhlethdod a phwysau eraill yn eu rolau;
- Nodi dysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd, cymryd camau cychwynnol wrth gefnogi hyfforddeion ag anawsterau, a sicrhau bod y goruchwyllydd addysgol a / neu'r ymarferydd rhagnodi dynodedig yn ymwybodol o'r camau / camau gweithredu y cytunwyd arnynt lle bo hynny'n briodol.

Bydd adegau pan na fydd fferyllwyr sylfaen ôl-gofrestru yn gwneud cynnydd yn ôl y disgwyl ac angen cefnogaeth ychwanegol. Gall hyn ddeillio o berfformiad gwael yn y gweithle, absenoldeb estynedig o ymarfer neu faterion eraill sy'n atal y dysgwr rhag cael digon o gyfleoedd dysgu a datblygu. Mae'r goruchwyllydd ymarfer, goruchwyllydd addysgol a / neu'r ymarferydd rhagnodi dynodedig yn gyfrifol am nodi pryd mae hyn yn angenrheidiol a chyfathrebu â'i gilydd i sicrhau bod y gefnogaeth ofynnol yn cael ei roi ar waith cyn gynted â phosibl. Dylid annog y fferylllydd bob amser i weithio gyda'i oruchwyllydd / goruchwylwyr i ddatrys unrhyw faterion sy'n effeithio ar gynnydd neu berfformiad a chodi unrhyw bryderon fel rhan o'u cyfarfodydd adolygiad addysgol. Gellir gweld yr egwyddorion ar gyfer cefnogi dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol yn Atodiad 6.1.

4.4 Pa fathau o ddysgu ddylai rhaglenni hyfforddi eu cynnwys?

Disgwylir i fferyllwyr sy'n gweithio tuag at ymarfer lefel sylfaen ôl-gofrestru ymgymryd ag ystod o wahanol weithgareddau dysgu er mwyn ennill y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad sy'n ofynnol i gyflawni'r canlyniadau dysgu.

Mae'n ofynnol i unigolion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain a bod yn rhagweithiol ynghylch trefnu cyfarfodydd a digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth er mwyn derbyn adborth ac i gefnogi dysgu a datblygu.

4.4.1 Dysgu seiliedig ar waith

Mae dysgu yn y gwaith yn rhan sylfaenol o ddatblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sy'n ofynnol i gyflawni canlyniadau'r cwricwlwm. Gan weithio'n agos gyda goruchwylwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, bydd

yn ofynnol i unigolion sy'n ymgymryd â'r rhaglen hon reoli senarios clinigol a phroffesiynol mewn lleoliadau go iawn er mwyn datblygu cyfuniad o wybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau sydd ymhlyg yn y canlyniadau. Dylai hyn gynnwys cael eich arsylwi, derbyn adborth a myfyrio ar arfer, sydd oll yn hanfodol o ran dysgu effeithiol yn y gweithle. Gellir defnyddio technoleg o bell i helpu i hwyluso cyfleoedd dysgu yn y gwaith i ddysgwyr sy'n gweithio mewn rolau mwy ynysig.

4.4.2 Dysgu hunan-gyfeiriedig

Bydd dysgu hunan-gyfeiriedig yn hanfodol i nodi a mynd i'r afael ag anghenion dysgu unigolion a / neu fylchau mewn profiad, yn unol â chanlyniadau'r cwricwlwm. Bydd hyn yn cynnwys cymryd agwedd ragweithiol tuag at hunanasesu ac ymgymryd ag ymarfer myfyriol rheolaidd i nodi meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach; gall hyn gynnwys dysgu annibynnol a chyrchu'r llw o adnoddau sydd ar gael, megis darllen o amgylch pwnc penodol, myfyrio ar brofiadau neu gyrchu profiadau dysgu yn annibynnol ac y tu hwnt i'w ymarfer o ddydd i ddydd.

4.4.3 Dysgu gydag eraill

Mae dysgu gydag eraill yn ffordd effeithiol o ddysgu o brofiad unigolion eraill a gall helpu'r rhai sy'n gweithio tuag at y canlyniadau yn y cwricwlwm hwn i beidio â theimlo'n ynysig. Gall dysgu gydag eraill gynnwys dysgu gydag ystod amrywiol o gyfoedion a chydweithwyr mwy profiadol sy'n gweithio fel rhan o'r tîm fferylliaeth a'r tîm amlddisgyblaethol ehangach. Gall hefyd gynnwys dysgu gan gleifion a grwpiau cymorth i gleifion. Mae dysgu gyda chyfoedion yn caniatáu i unigolion rannu profiadau tebyg, archwilio'r cwricwlwm gyda'i gilydd, trafod a myfyrio ar feysydd ymarfer a thrafod dulliau effeithiol o ddysgu ac asesu. Nid oes angen i'r digwyddiadau dysgu hyn ddigwydd wyneb yn wyneb, o reidrwydd, a gellir eu trefnu yn rhithiol ar wahanol adegau o'r dydd i helpu i wella hygyrchedd i fferyllwyr a allai fel arall gael eu cyfyngu gan eu patrwm gweithio a / neu gyfrifoldebau y tu allan i'r gwaith.

Mae trafod rheolaeth glinigol pobl â gweithwyr fferyllol a gofal iechyd proffesiynol eraill yn rhoi cyfle gwyb i ddatblygu sgiliau rhesymu clinigol. Yn yr un modd, bydd ymgysylltu â staff i drafod ymagweddau at weithgareddau anghlinigol megis gwella

ansawdd, rheoli risg ac ymchwil gydag amrywiaeth o gydweithwyr yn cefnogi datblygu galluoedd ym mhob agwedd ar ymarfer.

Anogir unigolion i sefydlu rhwydweithiau cymheiriaid, gan ddefnyddio technoleg o bell, i ddysgu gyda chyfoedion.

Mae deall y rhyngwynebau rhwng gwasanaethau fferyllol a gwasanaethau clinigol eraill yn allweddol i ddarparu gofal effeithiol i gleifion. Mae ymgysylltu â staff anghlinigol sy'n gwneud penderfyniadau allweddol am ofal cleifion a'r gwasanaethau sydd wrth wraidd y cwricwlwm hwn hefyd yn bwysig. Anogir pawb sy'n ymgymryd â'r rhaglen hon i fanteisio ar gyfleoedd yn eu datblygiad proffesiynol i ymuno â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill mewn digwyddiadau addysgu a dysgu a rennir.

4.4.4 Dysgu ffurfiol

Er mwyn diwallu gofynion y cwricwlwm, yn enwedig rhai o'r canlyniadau rhagnodi annibynnol, mae rhaglenni hyfforddi yn debygol o gynnwys adnoddau hyfforddi a dysgu ffurfiol. Gall hyn fod wyneb yn wyneb (mewn person a / neu o bell), dysgu o bell neu drwy ddull cyfunol.

Mae rhai enghreifftiau o ddysgu ffurfiol yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, hyfforddiant sgiliau clinigol, hyfforddiant arweinyddiaeth a rheolaeth, sgiliau ymchwil a digwyddiadau dysgu a drefnir gan ddarparwyr hyfforddiant neu gyrff proffesiynol.

Nid yw'r dysgu'n dod i ben unwaith y bydd y canlyniadau hyn wedi'u cyflawni ac mae rhaglenni sylfaen ôl-gofrestru yn darparu man cychwyn perffaith i ddechrau datblygu a gweithio tuag at gyflawni cymwysterau ymarfer uwch yr RPS. Mewn amgylchedd gofal iechyd sy'n newid yn barhaus, mae'n hanfodol bod unigolion yn datblygu'r sgiliau i gadw eu gwybodaeth a'u sgiliau'n gyfredol er mwyn parhau i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Wrth i fferyllwyr ymgymryd â rolau cynyddol gymhleth, bydd eu hanghenion dysgu yn esblygu ac mae strwythur datblygiad proffesiynol ôl-gofrestru'r RPS wedi'i gynllunio i ddarparu sgaffald i fferyllwyr ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u hymddygiadau i gyflawni'r rolau cynyddol hyn yn effeithiol ac yn ddiogel.

5 Y Rhaglen Asesu

Mae'r rhaglen asesu yn amlinellu sut y bydd fferyllwyr yn cael eu hasesu yn erbyn canlyniadau'r cwricwlwm a'r offer sydd ar gael at ddefnydd ffurfiannol a chrynodol.

5.1 Beth yw pwrpas y rhaglen asesu?

Pwrpas y rhaglen asesu yw:

- Darparu proses asesu gymharol ar gyfer pob fferylllydd o wahanol sectorau a lleoliadau daearyddol;
- Asesu perfformiad go iawn yr unigolyn yn y gweithle yn erbyn canlyniadau'r cwricwlwm;
- Gwella dysgu trwy raglen asesu sy'n cynnwys aml-asesiadau 'risg isel', gan alluogi unigolion i dderbyn adborth ar unwaith er mwyn deall eu perfformiad a nodi meysydd i'w datblygu;
- Gyrru'r broses ddysgu trwy egluro'r hyn sy'n ofynnol gan unigolion sy'n ymgymryd â'r rhaglen a'u cymell i sicrhau eu bod yn derbyn hyfforddiant, goruchwyliaeth a phrofiad addas;
- Arddangos bod dysgwyr wedi caffael y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sy'n ofynnol i fodloni canlyniadau'r cwricwlwm a darparu gofal diogel ac effeithiol i bobl ar y lefel hon;
- Arddangos bod dysgwyr yn diwallu gofynion y Safonau GPhC ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr sy'n rhagnodwyr annibynnol;
- Arddangos bod dysgwyr wedi cael y profiad priodol er mwyn cyflawni canlyniadau'r cwricwlwm.

5.2 Sut bydd y model ar gyfer cyflwyno hyfforddiant yn dylanwadu ar yr asesiad terfynol?

Ar gyfer rhaglenni hyfforddi integredig, mae'r adrannau canlynol yn ymwneud â'r cyd-asesiad portffolio terfynol o holl ganlyniadau'r cwricwlwm.⁷

Ar gyfer rhaglenni hyfforddi **modwlar** sydd â darpariaeth addysg a hyfforddiant rhagnodi annibynnol a rhagnodi heb fod yn annibynnol arwahanol, mae'r canlynol **ond yn berthnasol** i'r 13 canlyniad rhagnodi heb fod yn annibynnol

7. Efallai y bydd angen asesiadau ychwanegol ar rai rhaglenni integredig i fodloni gofynion academaidd y sefydliad addysg uwch ar gyfer rhagnodi annibynnol. Mewn achosion o'r fath, bydd yr asesiadau hyn yn cyd-fynd â rhaglen asesu'r RPS.


a aseswyd fel rhan o asesiad portffolio terfynol yr RPS. Bydd y dysgwr yn cael ei eithrio yn awtomatig rhag asesu canlyniadau cysylltiedig â rhagnodi annibynnol y cwricwlwm trwy lanlwytho ei Dystysgrif Ymarfer mewn Rhagnodi Annibynnol. Gweler y **glasbrint asesu yn adran 5.12** am fwy o wybodaeth.

Egwyddorion ar gyfer elfennau o'r cwricwlwm a aseswyd gyda chyfranogiad yr RPS:

- Bydd yr RPS yn mabwysiadu dull rhaglennol o asesu (gweler 5.3 am fwy o fanylion);
- Bydd yn ofynnol i ddysgwyr lunio portffolio electronig (e bortffolio) er mwyn cyflwyno tystiolaeth o'u dysgu yn erbyn canlyniadau (perthnasol) y cwricwlwm;
- Bydd dysgwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddigwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth i ddangos eu dysgu yn erbyn y canlyniadau (perthnasol), gan gyfeirio at y disgrifiyddion i'w helpu i'w tywys ar lefel y perfformiad sy'n ofynnol;

Ffigwr 9.

Crynodeb o'r model asesu ar gyfer rhaglenni hyfforddi integredig a modwlar.



- Mae'r RPS wedi ceisio sicrhau dull hyblyg a dilys o asesu trwy ganllawiau ynghylch pryd a sut i ddefnyddio pob digwyddiad dysgu dan oruchwyliaeth wrth ganiatáu rhyddid i'r dysgwr a'i oruchwylwyr lunio barn wybodus ynghylch pa offeryn neu gyfuniad sydd fwyaf priodol mewn unrhyw sefyllfa ddysgu benodol;
- Ar gyfer rhai canlyniadau risg uwch, nodwyd canllawiau asesu gorfodol; mae hyn yn golygu bod yn rhaid i dystiolaeth sydd wedi'i mapio i'r canlyniadau hyn gynnwys enghreifftiau o'r mathau hyn o asesiad sydd i'w cyflawni. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am fathau o asesiadau gorfodol yn y **glasbrint asesu yn adran 5.12**.

5.3 Beth yw asesiad rhaglennol?

Mae asesiad rhaglennol yn cynrychioli symudiad i ffwrdd o 'arholiad terfynol i basio' at ddull sy'n integreiddio llawer o wahanol offer sy'n dangos tystiolaeth o'r dysgu trwy gydol y rhaglen; mae wedi'i hen sefydlu mewn disgyblaethau eraill, yn enwedig mewn hyfforddiant ôl-raddedig. Gyda'r dull hwn, mae unrhyw asesiad unigol yn cynrychioli un pwynt data yn unig sydd â defnyddioldeb cyfyngedig, fel picsel unigol nad yw'n wirioneddol gynrychioliadol o'r ddelwedd gyfan. Fodd bynnag, pan gynhelir sawl asesiad dros amser, gwelir darlun cliriach o wir allu'r dysgwr.

Mae'r dull hydredol hwn o asesu yn ategu natur y canlyniadau a ddiffinnir yn y cwricwlwm hwn; mae'r rhain yn gofyn am gymhwyso a chyfuno gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiadau i senarios clinigol ac anghlinigol. Datblygir galluoedd o'r fath yn hydredol dros gyfnodau o amser, yn hytrach nag ar ôl cwrs hyfforddi ar wahân, ac mae angen eu dangos fel rhan o berfformiad bob dydd. Bydd asesu ymarfer bywyd go iawn, hynny yw, ar lefel 'Gwneud' pyramid Miller, yn defnyddio dulliau ansafonol, yn cyfuno aml-fformatau asesu, ac yn dibynnu ar farn broffesiynol i sicrhau bod dysgwyr wedi cyflawni'r canlyniadau a'r lefel perfformiad disgwylledig a nodir yn y disgrifiadau. Mae angen i'r asesiad fod yn ddilys a bydd unrhyw ymgais i'w safoni yn lleihau ei werth. Dyma ble mae dull rhaglennol yn darparu ffordd fwy effeithiol o asesu unigolion, o gymharu â dulliau asesu mwy traddodiadol. Nod asesiad rhaglennol yw optimeiddio'r swyddogaeth gwneud penderfyniadau a dysgu ar yr un pryd.

Mae asesiad rhaglennol yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol, a fydd yn sail i'r rhaglen asesu hon:

1. **Mae pob asesiad yn cynrychioli un pwynt data sydd â diffygion cynhenid** – mae unrhyw ddyfarniad a wneir trwy un offeryn asesu yn cynnwys cyfaddawd o ryw fath ac nid yw'n sefydlu newid na thwf. O ganlyniad, bydd y rhaglen asesu hon yn defnyddio triongli ystyrion lle mae pob maes yn cael ei lywio gan wybodaeth am gryfderau a gwendid y dysgwr, yn seiliedig ar offerynnau a dulliau asesu amrywiol.
2. **Rhaid optimeiddio pob digwyddiad asesu ar gyfer dysgu** – mae asesu yn gyrru dysgu; mae'r rhaglen asesu yn pennu beth a sut y bydd y dysgwr yn dysgu, gyda'r dysgwr bob amser yn ceisio uchafu strategaethau ar gyfer llwyddiant yn yr asesiad terfynol. Felly, rhaid cynllunio pob digwyddiad asesu i hyrwyddo'r mathau o ddysgu sy'n ffafriol i ddatblygu'r galluoedd sy'n ofynnol ar y lefel hon o ymarfer.
3. **Mae adborth o ansawdd yn hanfodol** – dylai pob digwyddiad dysgu fod yn ffurfiannol a chynhyrchu adborth ystyrion i'r dysgwr. Dylai'r gefnogaeth a argymhellir gan oruchwylwyr, mentoriaid, cyfoedion, cleifion a chydweithwyr hyrwyddo dysgu a chynnydd hunangyfeiriedig. Mae creu perthnasoedd ymddiriedus gydag unigolion a fydd yn gweld ac yn trafod yr holl wybodaeth asesu ac adborth yn effeithiol iawn yn addysgol.
4. **Nid oes unrhyw fathau asesu 'drwg'** – mae dewis offeryn neu ddull asesu penodol yn dibynnu'n llwyr ar gyfiawnhad addysgol y dull hwn ar yr eiliad benodol honno. Mae unrhyw offeryn asesu yn ddilys cyn belled â'i fod yn ateb ei nod bwriadedig, bod y defnyddwyr yn cymryd amser i roi / myfyrio ar adborth, a chaiff naratif ei ddogfennu.
5. **Mae barn broffesiynol yn hanfodol** – er mwyn asesu'r galluoedd a ddisgrifir yn y cwricwlwm hwn, mae dyfarniadau gan ystod mor eang â phosibl o bobl, gan gynnwys cleifion, cyfoedion, cydweithwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill, yn hanfodol i fesur perfformiad yn effeithiol. Dylai'r defnydd o ddyfarniadau proffesiynol gael ei blethu trwy gydol y rhaglen asesu hon a bydd yn ffurfio sail i'r penderfyniad terfynol.

6. **Gellir agregu asesiadau risg isel i wneud penderfyniadau risg uchel** – mewn asesiad rhaglennol, mae penderfyniadau pasio / methu yn cael eu dileu o unrhyw ddigwyddiad asesu sengl, gan wneud pob digwyddiad asesu (e.e. digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth) yn asesiad "risg is"; fodd bynnag, ni ddylid cymysgu hyn â 'dim risg'. Mae'r asesiad crynodol terfynol yn benderfyniad risg uchel a bydd yn seiliedig ar ddehongli'r cyfuniad o ganlyniadau o amrywiaeth o ddulliau asesu, a gynhaliwyd yn hydredol, e.e. a yw unigolyn yn barod i ragnodi ai peidio.

7. **Mae cysylltiadau rhwng y lefelau risg a nifer y digwyddiadau asesu** – po uchaf yw'r risg o ran diogelwch cleifion, y mwyaf cadarn y mae angen i'r wybodaeth fod er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch perfformiad unigolyn yn erbyn y rhaglen ddysgu. Felly, fel y manylir yn y glasbrint asesu isod, mae canlyniadau sydd wedi'u cysylltu'n fwyaf uniongyrchol â diogelwch cleifion yn cael eu hystyried yn risg uchel ac mae angen llawer mwy o bwyntiau data (asesiadau unigol neu ddarnau o dystiolaeth) i wneud penderfyniad ar gymhwysedd unigolyn o gymharu â chanlyniadau risg canolog neu risg isel. Yn y rhaglen asesu hon, bydd y data hwn yn llywio dau fath o benderfyniad:

- **Adolygiadau cynnydd canolradd** – pwyntiau gwirio ffurfiannol sy'n cynnwys y dysgwr a'r tîm goruchwyllo i adolygu cynnydd, sy'n gallu arwain at gyflwyno camau cefnogol pellach i sicrhau cynnydd parhaus;
- **Penderfyniad cyfansymiol terfynol** – y pwynt cynnydd risg uchel critigol, yn seiliedig ar nifer o bwyntiau data, a adolygir yn gyfannol gan bwyllgor cymhwysedd. Bydd canlyniad y penderfyniad hwn yn pennu a yw unigolyn wedi cyflawni gofynion y cwricwlwm yn foddhaol er mwyn cael ei achredu.

8. **Mae sicrhau ansawdd effeithiol a gweithdrefnau cadarn yn ychwanegu at ddibynadwyedd gwneud penderfyniadau risg uchel** – rhaid i randdeiliaid fod â hyder yn y penderfyniad risg uchel ynghylch a yw unigolyn yn arddangos y gallu i fod yn rhagnodydd diogel. Bydd y penderfyniad hwn yn cael ei ategu gan ddata meintiol ac ansoddol ac mae cydgrynhoad gwybodaeth yn gofyn am farn broffesiynol gredadwy a dibynadwy. Penodir

pwyllgor cymhwysedd annibynnol i adolygu'r portffolio dysgu a data asesu, i ystyried y wybodaeth ac i drafod er mwyn dod i benderfyniad sy'n cael ei gymeradwyo gan bawb. Mae gwneud penderfyniadau am gynnydd gan bwyllgor yn helpu i liniaru'r rhagfarn gynhenid sy'n rhan o ddyfarniadau goddrychol unigol. Mae mwy o fanylion am y pwyllgor cymhwysedd ar gael yn adran 5.13.

5.4 Beth yw digwyddiad dysgu dan oruchwyliaeth?

Mae digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth yn darparu cyfle pwysig ar gyfer dysgu a datblygu dilys yn y gweithle ac fe'u defnyddir yn llwyddiannus mewn disgyblaethau gofal iechyd eraill. Dylai'r holl ddigwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth a gynhelir fel rhan o'r rhaglen hon gynnwys agwedd ffurfiannol, gan sicrhau bod y fferyllydd yn derbyn adborth o ansawdd uchel ar unwaith, gan ganiatáu iddo fyfrio ar ei berfformiad ei hun a nodi meysydd i'w datblygu yn erbyn y canlyniadau. Nid yw'n bosibl pasio neu fethu digwyddiad dysgu dan oruchwyliaeth, ond cânt eu hadolygu fel rhan o'r asesiad crynodol terfynol i benderfynu a yw'r unigolyn wedi cyflawni canlyniadau'r cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o gyfarfyddiadau a brofir mewn ymarfer o ddydd i ddydd yn darparu cyfle i fyfrio a / neu gael adborth, a dylai'r broses hon, fel rheol, ddigwydd yn wythnosol. Bydd dysgwyr yn cael y budd mwyaf o gynnal digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth os ydynt yn derbyn adborth gan amrywiaeth o wahanol bobl, gan gynnwys y tîm amlddisgyblaethol.

Bydd pob dysgwr yn cael digon o gyfleoedd i gynnal asesiadau. Nid oes angen i ddigwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth ddigwydd, o reidrwydd, wyneb yn wyneb, a gellir eu cynnal o bell gan ddefnyddio technolegau digidol os yw hyn yn bosibl ac yn briodol i'r cyd-destun addysgol. Bydd hyn yn cefnogi rhaglenni hyfforddi lle darperir peth o'r oruchwyliaeth o bell a / neu y tu allan i oriau gwaith safonol. Rhaid cynnal pob asesiad yn unol ag egwyddorion llywodraethu gwybodaeth, gan sicrhau bod cyfrinachedd cleifion bob amser yn cael ei gynnal.

Mae'n ofynnol i ddysgwyr ddefnyddio templedi digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth yr RPS ar gyfer y rhannau o'u rhaglen a fydd yn cael eu hasesu gan yr RPS. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y broses asesu derfynol yn deg ac yn gyfiawn.

Learners are required to use the RPS supervised learning event templates for the parts of their programme that will be assessed by the RPS. This will help ensure the final assessment process is fair and equitable.

5.5 Pa offer digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth sydd angen bod ar gael i asesu dysgwyr yn ymarferol o ran yr e-bortffolio?

Dylid cynnwys ystod o offer digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth yn y portffolio sylfaen ôl-gofrestru y gall unigolion sy'n ymgymryd â'r rhaglen, ynghyd â'u goruchwylwyr a'u cydweithwyr, eu defnyddio i gofnodi dysgu ac i arddangos cynnydd tuag at y canlyniadau. Dewiswyd yr holl offer digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth isod i samplu sgiliau a chanlyniadau integredig uwch ar frig yr holl dacsonomeg dysgu ac i ddarparu adborth ar berfformiad ymarferol y dysgwr. Ni ddisgwylir i unigolion ddefnyddio'r holl offer ac

OFFERYN ASESU	DISGRIFIAD
DIGWYDDIADAU DYSGU DAN ORUCHWYLIAETH ARSYLWI UNIONGYRCHOL	
Offeryn Asesu Gofal Aciwt (ACAT)	Yn gwerthuso asesiad clinigol a rheolaeth, sgiliau gwneud penderfyniadau, gweithio mewn tim, rheoli amser, cadw cofnodion, blaenoriaethu a throsglwyddo'r unigolyn dros gyfnod parhaus o amser ar draws cleifion lluosog. Gellir ei ddefnyddio ym mhob sector.
Cyflwyno Achos (CP)	Yn gwerthuso gallu'r unigolyn i gyflwyno achos ar lafar i gydweithwyr.
Arsylwi Uniongyrchol ar Sgiliau Anghlinigol (DONCS)	Yn gwerthuso sgiliau anghlinigol yr unigolyn.
Arsylwi Uniongyrchol ar Sgiliau Gweithdrefnol (DOPS)	Yn gwerthuso gallu'r unigolyn i gynnal gweithdrefn ymarferol.
Cyflwyniad Clwb Cyfnodolion (JCP)	Yn gwerthuso gallu'r unigolyn i wneud cyflwyniad mewn Clwb Cyfnodolion.
Ymarfer Gwerthuso Clinigol Bach (mini-CEX)	Yn gwerthuso cyfarfyddiad clinigol cyffredinol â chlaf ac yn asesu'r cyfuniad o ofal clinigol hanfodol, fel cofnodi hanes, cyfathrebu, archwilio a rhesymu clinigol.
Arsylwi Addysgu (TO)	Yn gwerthuso gallu'r unigolyn i ddarparu profiad dysgu effeithiol i eraill.
DIGWYDDIADAU DYSGU DAN ORUCHWYLIAETH ARSYLWI ANUNIONGYRCHOL	
Trafodaeth Seiliedig ar Achos (CbD)	Yn gwerthuso mewnbyn yr unigolyn i ofal cleifion yn ôl-weithredol. Cynhelir trafodaeth strwythuredig o bell gyda'r claf ac fe'i defnyddir i archwilio rhesymu clinigol, gwneud penderfyniadau a chymhwyso gwybodaeth glinigol yn ymarferol.
Sgiliau Asesu Arweinyddiaeth (LEADER)	Yn gwerthuso galluedd arweinyddiaeth a gwaith tim yr unigolyn.
Offeryn Asesu Prosiect Gwella Ansawdd (QIPAT)	Yn gwerthuso gallu'r unigolyn i ymgymryd â phrosiect gwella ansawdd.

OFFER ARALL	
Adborth Aml-ffynhonnell (MSF)	Yn gwerthuso perfformiad yr unigolyn gan ddefnyddio adborth gan gydweithwyr.
Arolwg Cleifion (PS)	Yn gwerthuso sgiliau cyfathrebu ac ymgynghori'r unigolyn o safbwynt y claf.
Myfyrion ar Arolwg Cleifion (PSR)	Yn caniatáu i'r unigolyn fyfyrion ar yr adborth.
Cyfrif Myfyriol (RA)	Offeryn hyblyg i unigolion ddogfennu myfyrdodau a dysgu o ystod eang o leoliadau.

rydym yn cydnabod bod rhai offer yn addas ar gyfer amgylcheddau gwaith penodol neu i'r rheini sy'n defnyddio technoleg o bell.

Pan fydd y dysgwr yn defnyddio technoleg o bell gymeradwy i recordio ymgynghoriadau fideo neu ffôn at ddibenion digwyddiad dysgu dan oruchwyliaeth, dylid storio'r recordiad gyda'r e-bortffolio a dylai'r dysgwr / goruchwylydd llynu at ganllaw'r rhaglen ar gyfer cael caniatâd ac i reoli'r recordiadau sain neu weledol (e.e. diogelwch, cyfrinachedd, storio, gwaredu).

5.6 Pa fathau eraill o dystiolaeth y gellir eu defnyddio yn ychwanegol at ddigwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth?

Bydd angen mathau o dystiolaeth yn ychwanegol at ddigwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth hefyd i ddangos eu bod wedi cyflawni canlyniadau'r cwricwlwm. Mae'r unigolyn sy'n ymgymryd â'r rhaglen hon yn rhydd i lanlwytho unrhyw fath o dystiolaeth y mae'n teimlo sy'n dangos ei fod wedi cyflawni canlyniadau'r cwricwlwm. Gallai enghreifftiau gynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Erthyglau cyfnodolion neu waith ymchwil cyhoeddus;
- Crynodeb / poster cynhadledd;
- Copïau o adborth ysgrifenedig anhysbys gan gleifion a gydweithwyr;
- Copïau o ddogfennau anhysbys yn tystio i gyfranogiad gweithredol, e.e. dadansoddiad digwyddiadau arwyddocaol, gweithgareddau rheoli risg, datblygiadau gwasanaeth, rheoli cyffurlyfr;
- Fideos neu recordiadau o gyflwyniadau a / neu gyfarfodydd;

- Cyrsiau datblygu;
- Logiau dysgu;
- Ymatebion anhysbys wedi'u dogfennu i ymholiadau clinigol am feddyginiaethau;
- Cynlluniau datblygu personol.

5.7 Beth yw'r gofynion tystiolaeth ar gyfer asesiad terfynol y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol (RPS)?

Mae'r **glasbrint asesu** yn **adran 5.12** yn cynnwys disgrifiad manwl o'r rhain.

Ar gyfer rhai o'r canlyniadau, rydym o'r farn ei bod yn angenrheidiol i'r dysgwr gael ei arsylwi'n uniongyrchol yn ymarferol ac, yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'n dderbyniol defnyddio technoleg o bell i hwyluso hyn. Fodd bynnag, rydym wedi nodi nifer fach o ganlyniadau lle rydym yn teimlo y dylid arsylwi ar y dysgwr wyneb yn wyneb mewn amser real i sicrhau y gellir arsylwi ymddygiadau fel iaith y corff a chiwiau dieiriau yn llawn er mwyn cefnogi eu hanghenion datblygu a hyfforddi. Manylir ar unrhyw ofynion tystiolaeth orfodol yn y glasbrint asesu isod. Pan fydd angen arddangos perfformiad yn ymarferol, mae digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth, gan gynnwys adborth aml-ffynhonnell, yn debygol o ffurfio'r dystiolaeth o'r ansawdd uchaf y gall goruchwylydd addysgol, ymarferydd rhagnodi dynodedig neu banel adolygu seilio ei farn arno.

Yn ogystal, rydym yn awgrymu o **leiaf dri darn o dystiolaeth** arwahanol wedi'u mapio i bob canlyniad. Rydym yn deall y gallai fod yn well gan rai unigolion nifer rhagnodol o ddarnau o dystiolaeth sydd eu hangen ar gyfer pob canlyniad; fodd bynnag, o ystyried yr ystod eang o rolau a mathau o dystiolaeth posibl sydd ar gael,

byddai'n anodd iawn gosod uchafswm ystyrion sy'n berthnasol i bob darpar ymgeisydd. Mae'n bwysig blaenoriaethu cynhyrchu tystiolaeth o ansawdd uchel ar draws ystod o gyfarfyddiadau clinigol / eraill, yn hytrach na nifer yr asesiadau a gwblheir. Bydd nifer y darnau o dystiolaeth a fapiwyd i ganlyniad yn dibynnu ar yr unigolyn sy'n cael ei asesu, ei faes ymarfer clinigol, graddfa risg y canlyniad ac ystod ac ehangder y dystiolaeth a gyflwynir. Rydym yn argymhell bod unigolion yn adolygu'r disgrifyddion canlyniadau i sicrhau bod eu tystiolaeth yn berthnasol ac yn unol â lefel y perfformiad a ddisgrifir yn y rhain. Fe'ch cynghorir hefyd bod goruchwylwyr a chydweithredwyr yn gyfarwydd â'r disgrifyddion i sicrhau bod y naratif a gofnodir ar ddigwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth yn cyfleu os yw'r dysgwr wedi dangos y lefel ofynnol o berfformiad.

Mae'r **glasbrint asesu** yn dangos yr offer asesu a argymhellir ar gyfer pob canlyniad; fodd bynnag, mae pa offeryn asesu sy'n cael ei ddewis i gyflwyno tystiolaeth ar gyfer pob canlyniad yn ôl disgrisiwn yr unigolyn. **Ni** ddisgrifir i'r unigolyn ddefnyddio'r holl offer a argymhellir isod ar gyfer pob canlyniad - darperir y rhain fel arweiniad, a bydd yr offer asesu a ddefnyddir yn dibynnu ar natur y dysgu a'r cyd-destun addysgol.

5.8 A oes gofyniad am ymarfer myfyriol?

Dylai tystiolaeth o arfer myfyriol lifo'n hydredol trwy'r dystiolaeth. Lle bo modd, dylid ategu cyfrifon myfyriol â thystiolaeth ddilysu arall sy'n cefnogi'r myfyrdodau. Cydnabyddir efallai na fydd hi bob amser yn bosibl ymgymryd â myfyrio cyfoes os oes peth amser wedi mynd heibio ers y digwyddiad dysgu; os yw hyn yn wir, mae enghreifftiau o fyfyrion ôl-weithredol yr un mor dderbyniol.

5.9 Beth yw'r graddfeydd canlyniadau a beth mae'r rhain yn ei olygu o ran gofynion tystiolaeth?

Yn unol â'r dull asesu rhaglennol, mae pob canlyniad wedi cael graddfa risg, naill ai Uchel (**High**), Canolig (**Medium**) neu Isel (**Low**), yn seiliedig ar y risg posibl i ddiogelwch cleifion.

Dylai nifer y pwyntiau data asesu yn yr e-bortffolio fod yn gymesur â'i risgiau er mwyn llywio penderfyniadau cadarn sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, hynny yw, yr uchaf yw'r raddfa risg ar gyfer

canlyniad, y mwyaf o dystiolaeth o ddysgu sydd angen ei fapio i'r canlyniad hwnnw. Felly, cynghorir unigolion i sicrhau bod y canlyniadau hynny a nodwyd fel risg uchel yn cael eu cefnogi gan ystod mor eang â phosibl o dystiolaeth gadarn.

Nid yw'r raddfa risg yn ymwneud â phwysigrwydd y canlyniad. Dylid ystyried bod holl ganlyniadau'r cwricwlwm yr un mor bwysig o ran dangos ymarfer lefel sylfaen ôl-gofrestru a rhaid cyflawni'r holl ganlyniadau yn y rhaglen asesu er mwyn cael achrediad.

5.10 Beth sydd angen i ddatrysiaid e-bortffolio ei gynnwys?

Bydd angen i ddysgwyr gael mynediad at ddatrysiaid e-bortffolio i gofnodi a chasglu tystiolaeth dysgu ac asesu yn erbyn unrhyw ganlyniadau a gofynion craidd sy'n cael eu hasesu gyda chyfranogiad yr RPS.

Mae portffolio sylfaen ôl-gofrestru yr RPS ar gael i gefnogi hyfforddiant ac fe'i cynlluniwyd yn benodol i fodloni gofynion ymarferoldeb y cwricwlwm hwn. Os caiff ei ddefnyddio, byddai partneriaid rhaglenni sylfaen ôl-gofrestru, gan gynnwys sefydliadau addysg uwch a chyrff addysg statudol, yn cael mynediad at swyddogaethau adrodd o fewn e-bortffolio'r RPS; mae'r RPS yn hapus i weithio gyda phartneriaid i hwyluso unrhyw geisiadau am ofynion ychwanegol i fodloni eu hanghenion sicrwydd ansawdd a rheolaeth unigol.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y gallai fod gan rai cyrff addysg statudol, darparwyr hyfforddiant a / neu gyflogwyr bortffolio ar-lein cyfredol a'u bod yn dymuno ei ddefnyddio i gofnodi a chasglu tystiolaeth yn erbyn gofynion y cwricwlwm. Os mai dyna'r achos, ar gyfer unrhyw elfennau a asesir gan yr RPS, bydd angen i'r e-bortffolio fodloni'r egwyddorion canlynol:

- Bydd pob dysgwr yn ymgysylltu â'r cwricwlwm trwy gynnal a diweddarau e-bortffolio;
- Defnyddir yr e-bortffolio i gofnodi cyfarfodydd gwerthuso, cynlluniau datblygu personol, digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth ac unrhyw gynnwys arall sy'n darparu tystiolaeth tuag at gyflawni canlyniadau'r cwricwlwm (perthnasol) a sgiliau asesu clinigol;

- Rhaid i'r e-bortffolio gynnwys y templedi digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth a ddiffinnir isod a dylai'r rhain fod yn gyson â'r fformat y cytunwyd arno at ddiben cysondeb wrth asesu;
- Bydd goruchwylwyr yn defnyddio tystiolaeth e-bortffolio i gymeradwyo canlyniadau a llywio adolygiadau cynnydd canolradd;
- Bydd angen i unrhyw un sy'n arsylwi neu sy'n darparu adborth i ddysgwyr (a elwir yn **gydweithredwyr**), gan gynnwys unrhyw oruchwylwyr, gael mynediad i'r e-bortffolio i gynnal digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth, cofnodi adborth a darparu dyfarniadau a naratif yn erbyn y canlyniadau;
- Dylai'r e-bortffolio hwyluso trosolwg cyflym o wybodaeth gyfun i helpu i nodi dysgwyr a allai fod angen cymorth ychwanegol;
- Rhaid i ryngwynebau aseswyr ar gyfer asesiad terfynol yr e-bortffolio fod mor debyg â phosibl i sicrhau profiad asesydd cyson;
- Rhaid i gynnwys yr e-bortffolio gydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu gwybodaeth ac ni fydd yn cynnwys unrhyw ddata y gellir ei adnabod neu wybodaeth sensitif arall.

5.11 Beth yw'r broses ar gyfer penderfynu bod unigolyn wedi cwrdd â gofynion y cwricwlwm?

Mae'n ofynnol i oruchwylwyr addysgol ac ymarferwyr rhagnodi dynodedig lunio barn broffesiynol ynghylch a yw'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr e-bortffolio yn dangos bod y fferylllydd wedi cyflawni canlyniadau'r cwricwlwm a gofynion craidd eraill y cwricwlwm. Mae'r broses yn dibynnu ar y model cyflwyno hyfforddiant ac fe'i crynhoir isod:

GOFYNIAD CWRICWLAIDD	INTEGREDIG	MODWLAR
CANLYNIADAU	Bydd y dystiolaeth sydd wedi'i mapio i'r canlyniadau yn cael ei hadolygu gan oruchwyllydd / goruchwylwyr yr unigolyn. Mae'n debygol y bydd yr ymarferydd rhagnodi dynodedig yn adolygu'r canlyniadau rhagnodi annibynnol a bydd y goruchwyllydd addysgol yn adolygu'r canlyniadau rhagnodi nad ydynt yn annibynnol, ond gall hyn amrywio ar draws rhaglenni hyfforddi, yn dibynnu ar y strwythur goruchwyllo.	Mae laniwytho'r dystysgrif ragnodi annibynnol yn darparu tystiolaeth bod y canlyniadau sydd wedi'u hanodi yn 'Canlyniadau IP' yn y glasbrint asesu wedi eu cyflawni. Mae hyn yn berthnasol i'r holl ganlyniadau ym meysydd 1 a 2, a chanlyniadau 3.6, 4.2 a 4.3. Nid oes angen tystiolaeth bellach ar gyfer y canlyniadau hyn. Bydd y goruchwyllydd addysgol yn adolygu'r dystiolaeth sydd wedi'i mapio yn y canlyniadau rhagnodi nad ydynt yn annibynnol i sicrhau eu bod wedi eu cyflawni.
SGILIAU ASESU CLINIGOL	Rhaid bod gan yr unigolyn dri DOPS ar gyfer pob sgil asesu clinigol. Dylai'r rhain fod wedi cael eu cwblhau yn ystod y rhaglen hyfforddi ac nid ar y diwedd. Y lefel sgil isaf ar gyfer pob asesiad clinigol yw: 'Yn gallu cyflawni'r weithdrefn gyda goruchwyliaeth / cymorth cyfyngedig'.	Mae'n ofynnol i'r dysgwr arddangos ei fod yn gallu perfformio pob sgil yn gymwys trwy ardystio hyfforddiant blaenorol. Dylid asesu unrhyw sgiliau asesu clinigol craidd sydd yn weddill trwy DOPS, yn unol â'r glasbrint asesu.

- Canlyniadau sylfaen ôl-gofrestru'r RPS sy'n mapio i [Safonau GPhC ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr sy'n rhagnodwyr annibynnol \(2019\)](#) a [Fframwaith Cymhwysedd yr RPS ar gyfer pob Rhagnodydd \(2016\)](#).

Rhaid i'r ymarferydd rhagnodi dynodedig ddarparu cadarnhad ffurfiol unwaith y bydd yn fodlon ar gymhwysedd y fferylllydd wrth ragnodi. Rydym yn argymhell bod mecanweithiau cytunedig ar waith, rhwng y rhai sy'n ymwneud â'r rhaglen sylfaen ôl-gofrestru, ar gyfer cydlynu goruchwyliaeth, goruchwyllo cynnydd a chytuno bod y fferylllydd sylfaen ôl-gofrestru wedi cwrdd â gofynion y cwricwlwm.

5.12 Glasbrint asesu

Dylid ystyried y pwyntiau canlynol wrth ddefnyddio'r glasbrint asesu:

1. Offer asesu

- Mae'r tabl yn dangos y dulliau asesu posibl ar gyfer pob canlyniad. Ni ddisgwylir y bydd pob offeryn asesu yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob un o'r canlyniadau a gellir defnyddio tystiolaeth ychwanegol.

2. Rhaglenni integredig

- Mae'r glasbrint asesu cyflawn yn berthnasol.

3. Rhaglenni modwlar

- Canlyniadau cwricwlwm** – dim ond i'r canlyniadau cwricwlwm rhagnodi nad ydynt yn annibynnol y bydd y glasbrint asesu yn berthnasol, a bydd yn cael ei asesu fel rhan o asesiad portffolio terfynol yr RPS. Mae hyn wedi'i anodi yn y glasbrint.
- Sgiliau asesu clinigol craidd** – dylid asesu unrhyw un o'r sgiliau asesu clinigol a gynhwysir yn y canllaw pwnc nad ydynt wedi'u hasesu yn ystod y cwrs rhagnodi annibynnol arwahanol yn unol â'r glasbrint asesu.

CANLYNIADAU		RISGAU	CANLYNIAD IP	ACAT	DOPS	MINI-CEX	CBD	RA	MSF	PS	DNCS	CP	JCP	TO	QIPAT	LEADER	GOFYNION TYSTIOLAETH GORFODOL ²
1.1	Cyfathrebu'n effeithiol â phobl sy'n derbyn gofal a chydweithwyr	H	x	x	x	x	x	x	x	x		x	x				Arsylwi uniongyrchol* Tystiolaeth o adborth gan y rhai y mae'n cyfathrebu â nhw
1.2	Yn trin pobl eraill yn gyfartal a chydag urddas a pharch, gan eu cefnogi nhw, waeth beth fo'u hamgylchiadau neu gefndir unigol; gan hyrwyddo hyn yn weithredol yn eu hymarfer	H	x	x	x	x	x	x	x	x							Arsylwi anuniongyrchol
1.3	Yn ymgynghori â phobl trwy drafodaethau agored; yn archwilio agweddau corfforol, seicolegol a chymdeithasol ar gyfer yr unigolyn hwnnw, gan aros yn agored i'r hyn y gallai unigolyn ei rannu; yn grymuso'r unigolyn i greu amgylchedd i gefnogi gwneud penderfyniadau ar y cyd ynghylch canlyniadau gofal iechyd personol a newidiadau i ymddygiad iechyd	H	x	x	x	x	x	x	x	x							Arsylwi uniongyrchol*

CANLYNIADAU		RISIOAU	CANTYNIAD IP	ASAT	DOPS	MINI-CEX	GBD	RA	MSF	PS	DONCS	CP	JCP	TO	QIPAT	LEADER	GOFYNIION TYSTIOLAETH GORFODOL ¹
1.4	Yn dangos empathi; yn ceisio deall sefyllfa o safbwynt pob unigolyn	M	x	x	x	x	x	x	x	x							Arsylwi uniongyrchol
1.5	Bob amser yn cadw'r unigolyn yn ganolog i'w ddull gofalu	H	x	x		x	x	x	x	x							Arsylwi uniongyrchol
1.6	Yn cefnogi ac yn hwyluso parhad di-dor gofal i bob unigolyn	H	x	x		x	x	x	x	x							Arsylwi anuniongyrchol
1.7	Yn meithrin perthnasoedd cryf ar draws y tîm amlddisgyblaethol; yn gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol	H	x	x		x	x	x	x								Arsylwi uniongyrchol
1.8	Yn arddangos hyder wrth siarad â gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar draws y tîm amlddisgyblaethol; ceisio defnyddio iaith briodol i ddylanwadu ar eraill	H	x	x		x		x	x								Arsylwi uniongyrchol
1.9	Yn cydnabod gwerth aelodau'r tîm fferylliaeth ac amlddisgyblaethol ar draws y llwybr gofal cyfan, gan dynnu ar y rhai sy'n bresennol ac sydd ar gael yn rhithiol, i ddatblygu ystod eang o sgiliau a chefnogi eich ymarfer eich hun; dirprwyo a chyfeirio'n briodol, gan ddefnyddio arbenigedd a gwybodaeth unigolion eraill	M	x	x		x	x	x	x								Arsylwi uniongyrchol
1.10	Yn cefnogi aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol i ddefnyddio meddyginiaethau yn ddiogel ac i ddiwallu anghenion unigol y rhai sy'n derbyn gofal; yn dylanwadu'n effeithiol ar y broses benderfynu ar draws y tîm ynghylch meddyginiaethau, lle bo hynny'n briodol	M	x	x		x	x	x	x								Arsylwi uniongyrchol
2.1	Yn cymhwyso gwybodaeth glinigol ar sail tystiolaeth a chanllawiau cyfoes i wneud argymhellion addas neu gymryd camau priodol yn hyderus	H	x	x	x	x	x	x	x			x					Arsylwi uniongyrchol
2.2	Yn cynnal adolygiad clinigol cyfannol o unigolyn a'i feddyginiaethau i sicrhau eu bod yn briodol	H	x	x	x	x	x	x		x		x					Arsylwi uniongyrchol

CANLYNIADAU		RISIOAU	CANLYNIAD IP	ACAT	DOPS	MINI-CEX	GBD	RA	MSF	PS	DONCS	CP	JCP	TO	QIPAT	LEADER	GOFYNION TYSTIOLAETH GORFODOL ¹
2.3	Yn casglu gwybodaeth ac yn cofnodi hanesion yn hyfedrus; yn cynnal archwiliadau ac asesiadau clinigol; yn datblygu sgiliau diagnostig	H	x	x	x	x	x	x		x							Arsylwi uniongyrchol*
2.4	Yn cyrchu ac yn gwerthuso gwybodaeth briodol yn feiriadol i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth mewn modd effeithlon a systematig; yn sicrhau bod sylw uchel i fanylion yn cael ei gynnal wrth wneud penderfyniadau ynghylch y sawl sy'n derbyn gofal	H	x	x		x	x	x				x					Arsylwi anuniongyrchol
2.5	Yn rheoli ansicrwydd a risg yn briodol	H	x	x		x	x	x				x					Arsylwi uniongyrchol
2.6	Yn ystyried cost-effeithiolrwydd penderfyniad lle bo angen, gan weithio yn ôl y fformiwleri priodol	M	x	x		x	x	x									Arsylwi anuniongyrchol
2.7	Cydnabod a chywiro gor-ddefnyddio meddyginiaethau yn rhagweithiol; effeithio'n gadarnhaol ar ddefnydd a stiwardiaeth meddyginiaethau ar lefel unigolyn a phoblogaeth	H	x	x		x	x	x								x	Arsylwi anuniongyrchol
2.8	Yn dadansoddi ac yn defnyddio data a thechnolegau digidol i lywio'r broses o wneud penderfyniadau clinigol, a gwella canlyniadau clinigol a diogelwch cleifion	M	x				x	x				x				x	
2.9	Yn ymarfer gonestrwydd ac uniondeb ym mhopeth a wnânt; yn cynnal dyletswydd didwylled	H	x	x		x	x	x	x	x							Arsylwi anuniongyrchol
2.10	Yn atebol ac yn gyfrifol am eich penderfyniadau a'ch gweithredoedd eich hun, gan ddeall canlyniadau posibl y penderfyniadau hyn ar draws y llwybr gofal cyfan	H	x	x	x	x	x	x									Arsylwi anuniongyrchol
2.11	Yn gweithio o fewn canllawiau moesegol a fframweithiau cyfreithiol, gan gynnwys cydsyniad a chyfrinachedd; yn sicrhau caniatâd yr unigolyn cyn cyrchu cofnodion cyfrinachol lle bo angen	H	x	x	x	x	x	x	x								Arsylwi anuniongyrchol
2.12	Yn cydnabod ac yn gweithio'n ddiogel o fewn ei lefel cymhwysedd ei hun, gan ddeall pwysigrwydd gweithio o fewn hynny; yn gwybod pryd y mae'n briodol i uwchgyfeirio sefyllfa neu atgyfeirio	H	x	x	x	x	x	x	x								Arsylwi anuniongyrchol

CANLYNIADAU		RISIOAU	CANLYNIAD IP	ACAT	DOPS	MINI-CEX	CBD	RA	MSF	PS	DONCS	CP	JCP	TO	QIPAT	LEADER	GOFYNION TYSTIOLAETH GORFODOL ²
3.1	Yn dangos ac yn hyrwyddo gwerth fferylliaeth i'r cyhoedd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol eraill	L						x	x		x	x				x	
3.2	Yn cyfleu gweledigaeth a nodau i'r tim ehangach i'w cefnogi nhw i gyflawni tasgau grŵp	L						x	x		x					x	Arsylwi uniongyrchol
3.3	Dadansoddi anghenion busnes yn feirniadol; yn ymwybodol o agweddau masnachol yng nghyd-destun fferylliaeth; yn cydnabod y newidiadau i rôl fferyllwyr a'r cyfleoedd a fydd yn codi yn y dyfodol; yn chwilio am gyfleoedd i addasu eich dull gwaith eich hun a darparu / hyrwyddo gwasanaethau fferyllol newydd	L					x				x	x			x	x	
3.4	Yn tynnu ar rwydweithiau i ddeall yr ystod o weithgareddau clinigol, cysylltiedig â meddyginiaethau ac iechyd y cyhoedd a gynigir gan fferylliaeth ar draws sectorau a'r llwybr gofal	M					x	x								x	
3.5	Yn agored i ddulliau gwaith newydd a ffyrdd newydd o gwblhau tasgau gwaith, ac yn herio eraill yn briodol i ystyried newid er mwyn gwella ansawdd gofal; yn rhannu syniadau arloesol personol er mwyn gwella arferion gwaith, yn fewnol ac yn allanol	M						x	x		x	x			x	x	
3.6	Nodi a chodi pryderon ynghylch diogelwch cleifion yn effeithiol; yn cymhwyso egwyddorion rheoli risg; yn ceisio gwella ansawdd a diogelwch y defnydd o feddyginiaethau fel mater o drefn	H	x	x		x	x	x	x		x	x			x	x	
3.7	Yn dangos hunanymwybyddiaeth a deallusrwydd emosiynol yn y rôl, yn myfyrio ar, ac yn deall yr effaith y gallai sefyllfa ei chael ar iechyd a lles personol	M						x	x							x	
3.8	Yn aros yn ddigwyffro, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd heriol neu o dan bwysau mawr; yn datblygu ac yn tynnu ar rwydwaith cymorth mewn sefyllfaoedd heriol	H					x	x	x		x					x	Arsylwi anuniongyrchol
3.9	Rheoli sawl blaenoriaeth yn effeithiol, yn effeithlon ac yn ddiogel; yn cynnal cywirdeb pan fydd mewn sefyllfa heriol; yn rheoli eich amser a'ch llwyth gwaith eich hun yn bwyllog; arddangos gwynnchw	H						x	x		x					x	Arsylwi anuniongyrchol
3.10	Yn addasu ac yn gweithio'n effeithiol mewn gwahanol amgylcheddau o fewn maes fferylliaeth trwy gymhwyso dysgu blaenorol i leoliadau newydd	M						x	x		x					x	Arsylwi anuniongyrchol

CANLYNIADAU		RISGAU	CANLYNIAD IP	ACAT	DOPS	MINI-CEX	CBD	RA	MSF	PS	DONCS	CP	JCP	TO	QIPAT	LEADER	GOFYNION TYSTIOLAETH GORFODOL ¹
4.1	Yn arddangos agwedd gadarnhaol at hunanddatblygiad trwy gydol ei yrfa, yn gyfredol ac wrth edrych tuag at y dyfodol; yn chwilio'n rhagweithiol am brofiadau dysgu i gefnogi ei ymarfer ei hun, ac mae ganddo awydd a chymhelliant i roi cynnig ar bethau newydd	M						x			x						
4.2	Yn datblygu cynllun datblygu personol sy'n adlewyrchu ehangder datblygiad proffesiynol parhaus ac sy'n cynnwys datblygiadau arloesol posibl mewn meddyginiaeth a datblygu ymarfer	M	x	x	x	x	x	x	x	x	x	x	x	x	x	x	
4.3	Yn cyrchu adborth a chefnogaeth gan gydweithwyr lle bo hynny'n briodol; yn barod i dderbyn gwybodaeth neu gyngor a roddir iddo gan eraill i wneud newidiadau i'w arfer personol	M	x	x	x	x	x	x	x	x	x	x	x	x	x	x	
4.4	Yn gweithredu fel model rôl cadarnhaol a mentor o fewn y fferyllfa a'r tîm amlddisgyblaeth, lle mae hynny'n briodol	M						x	x							x	
4.5	Yn defnyddio'i arbenigedd personol i ddarparu tîm y fferyllfa a'r tîm amlddisgyblaethol gydag addysg a hyfforddiant; yn cefnogi ac yn goruchwyllo aelodau llai profiadol o'r tîm	M						x	x		x	x	x	x			Arsylwi uniongyrchol
5.1	Yn awyddus i gyfrannu at weithgareddau ymchwil; yn lledaenu canlyniadau yn weithredol i gynulleidfaoedd priodol	L						x	x		x	x	x			x	
SGILIAU ASESU CLINIGOL CRAIDD																	
Trowch at y canllaw pwnc i weld rhestr o sgiliau asesu clinigol craidd		H		x													Arsylwi uniongyrchol*

Key

ACAT Offeryn asesu gofal aciwt

CbD Trafodaeth ar sail achos

CP Cyflwyniad Achos

DONCS Sgiliau anghlinigol arsylwi uniongyrchol

DOPS Arsylwi sgiliau gweithdrefnol yn uniongyrchol

IP Rhagnodi annibynnol

JCP Cyflwyniad clwb dyddlyfr

LEADER Sgiliau asesu arweinyddiaeth glinigol

Mini-CEX Ymarfer gwerthuso clinigol bach

MSF Adborth aml-ffynhonnell

PS Arolwg cleifion

QIPAT Offeryn asesu prosiect gwella ansawdd

RA Cyfrif myfyriol

TO Addysgu arsylwi

1. H = high stakes, M = medium stakes, L = low stakes

2. **Arsylwi Uniongyrchol:** Rhaid arsylwi ar y dysgwr yn ymgymryd â gweithgareddau. Gellir ei wneud o bell a / neu'n ôl-weithredol (Sylwer: yn cynnwys MSF a PS). *rhaid bod yn wyneb yn wyneb.

Arsylwi Anuniongyrchol:: Yn gofyn am drafodaeth rhwng y goruchwylydd a'r dysgwr. Gellir ei wneud o bell.

Gwag: Nid oes angen rhyngweithio.

5.13 Sut ddylai fferyllwyr dderbyn adborth o ansawdd uchel yn ystod rhaglenni?

Asesu **ar gyfer** Dysgu (asesiad ffurfiannol) = Digwyddiad dysgu dan Oruchwyliaeth
 Asesu **o** Ddysgu (asesiad crynodol) = Asesiad o Berfformiad


Mae darparu adborth ffurfiannol o ansawdd uchel i lywio dysgu yn hanfodol o ran asesiad rhaglennol effeithiol. Dylai'r unigolyn sy'n ymgymryd â'r rhaglen dderbyn adborth ffurfiannol rheolaidd gan ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys yr unigolion canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

- Cydweithwyr yn arsylwi ar yr unigolyn wrth gynnal digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth;
- Cydweithwyr o'r tu mewn a'r tu allan i'w sefydliad;
- Cydweithwyr o'r tîm fferyllol ehangach;
- Cydweithwyr o'r tîm amlddisgyblaethol ehangach;
- Cyfoedion ac unigolion uwch;
- Cleifion.

Dylai cyfleoedd asesu ffurfiannol trwy'r digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth annog unigolion sy'n gweithio tuag at gymhwystr ymarfer lefel sylfaen ôl-gofrestru i fyfrio ar eu harfer a'u hanghenion dysgu. Disgwylir y bydd y portffolio terfynol yn cynnwys tystiolaeth o adborth ffurfiannol o ystod o ffynonellau gyda thystiolaeth o gynnydd o ganlyniad i'r adborth hwn.

Mae tri math gwahanol o adolygiad y bydd y dysgwr yn eu profi yn ystod y rhaglen hyfforddi:

Ffigwr 10.
Lefelau adolygu




Lefel 1: Adolygiadau anffurfiol

Dylai unigolion dderbyn adborth ffurfiannol yn eu cyfarfodydd adolygu **misol** rheolaidd gyda'u goruchwyllydd addysgol, ac yn ystod eu cyfnod dysgu ymarferol gyda'u hymarferydd rhagnodi dynodedig. Bydd yr adborth hwn yn helpu i arwain dysgu a hyfforddiant yr unigolyn ac adolygu ei gynnydd. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn helpu i hwyluso trafodaeth gynnar os yw'r unigolyn yn cael anawsterau, fel y gallant dderbyn cefnogaeth briodol ac amserol. Dylai'r adborth a'r drafodaeth hon gael eu nodi yn adroddiad y goruchwyllydd addysgol a chaiff ei ddefnyddio i lywio trafodaethau yn yr adolygiadau cynnydd canolradd mwy ffurfiol.

Lefel 2: Adolygiad cynnydd canolradd

Yn ogystal â'r cyfarfodydd adolygu anffurfiol misol rhwng y dysgwr a'i oruchwilydd addysgol a / neu ymarferydd rhagnodi dynodedig, rydym yn argymhell yn gryf y dylid cynnwys adolygiad cynnydd canolradd mwy ffurfiol o leiaf bob **chwe mis**.

Pwrpas yr adolygiad cynnydd canolradd yw:



Gellir cynnal yr adolygiadau cynnydd canolradd wyneb yn wyneb neu o bell. Dylent gynnwys y **dysgwr a goruchwilydd**, o leiaf (goruchwilydd addysgol a / neu ymarferydd rhagnodi dynodedig). Er na fydd y dysgwr yn bresennol yn yr asesiad crynodol terfynol, mae'r cyfarfodydd adolygu canolradd yn rhoi cyfle da i weld sut y bydd ei dystiolaeth yn cael ei gloriannu yn erbyn canlyniadau a disgrifyddion y cwricwlwm i sicrhau ei fod yn cwrdd â'r lefel isaf o berfformiad.

Mae hyblygrwydd i raglenni sylfaen ôl-gofrestru gynnwys rolau ychwanegol yn rhai neu bob un o'u cyfarfodydd adolygu fel sy'n briodol i'w strwythur rhaglen. Gall y rhain gynnwys:

- aelod o'r tîm academiaidd;
- goruchwilydd addysgol allanol profiadol (yn enwedig os yn uwchsgilio goruchwylwyr addysgol newydd).

Mae cynnwys goruchwilydd addysgol allanol profiadol yn darparu persbectif allanol ac yn cefnogi prosesau sicrwydd ansawdd y rhaglen asesu trwy gymedroli traws-hyfforddiant.

Rydym yn argymhell bod rhaglenni sylfaen ôl-gofrestru yn darparu gwybodaeth i ddysgwyr a goruchwylwyr ar y trefniadau adolygu cynnydd canolradd, gan gynnwys y broses ar gyfer trefnu'r cyfarfod, a lle mae adolygiadau'n cynnwys sawl person, yr unigolyn a fydd yn gweithredu fel yr adolygydd arweiniol.

Cyn yr adolygiad:

- Dylai dysgwyr hunanasesu eu cynnydd trwy gwblhau dadansoddiad o anghenion dysgu. Mae hyn yn caniatáu iddynt fyfyrir ar eu cynnydd a nodi meysydd i'w datblygu. Dylent hefyd ddiweddarau eu cynllun datblygu personol a sicrhau bod eu portffolio yn gyfredol trwy fapio tystiolaeth wedi'i chwblhau i ganlyniadau'r cwricwlwm;
- Dylai'r goruchwylydd ddewis sampl o dystiolaeth (o leiaf pum digwyddiad dysgu dan oruchwyliaeth / mathau eraill o dystiolaeth) o wahanol feysydd er mwyn llywio trafodaeth gyfannol yn ystod y cyfarfod. Dylent ystyried ansawdd ac ystod y dystiolaeth, gwirio bod digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth wedi'u cynnal gydag amrywiaeth o aseswyr, a sicrhau bod y dysgwr wedi cynnwys myfyrir ystyrlon.
 - Pwrpas hyn yw sicrhau bod y dystiolaeth yn cwrdd â'r safon ofynnol ac yn caniatáu i unrhyw faterion posib gael eu datrys mewn modd amserol, cyn yr asesiad crynodedol terfynol.

Yn dilyn y cyfarfod, dylai'r holl gyfranogwyr gwblhau'r adroddiad adolygiad cynnydd canolradd, ei gadw o fewn e-bortffolio y dysgwr a sicrhau bod copi ar gael i'r sefydliad sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y rhaglen sylfaen ôl-gofrestru. Dylai'r adroddiad nodi a yw'r tîm adolygu'n fodlon â pherfformiad cyffredinol y dysgwr. Os nodwyd unrhyw bryderon, mae'n bwysig bod cynllun gweithredu yn cael ei gychwyn, yn unol â chanllawiau lleol ar gyfer cefnogi dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol.

Bydd dysgwyr yn datblygu eu cymhwysedd a'u galluoedd ar wahanol gyfraddau, yn dibynnu ar eu galluoedd eu hunain, amlgyiad i gyfleoedd dysgu, lleoliadau / patrymau sifft, a strwythur eu rhaglen sylfaen ôl-gofrestru. Efallai y bydd rhaglenni sylfaen ôl-gofrestru unigol yn dymuno ystyried amlinellu'r gyfradd cynnydd ddisgwyliedig sy'n briodol i'w strwythur cwrs, i sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan, gan gynnwys dysgwyr, goruchwylwyr a chyflogwyr, yn glir o ran beth yw cynnydd derbyniol.

Os defnyddir e-bortffolio yr RPS, bydd yr RPS yn darparu crynodeb o ddata asesu o'r e-bortffolio i gefnogi adolygiadau cynnydd canolradd, gan gynnwys nifer y digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth sydd wedi'u cwblhau, cyfran y dystiolaeth sy'n aros am adborth neu gymeradwyaeth goruchwylydd, a chynnydd yn erbyn y canlyniadau (yn gyffredinol ac o fewn pob maes). Bydd y data hwn yn cefnogi adnabod dysgwyr nad

ydynt yn ymgysylltu â'r e-bortffolio neu ddysgwyr sy'n methu â diwallu gofynion y cwricwlwm, neu lle mae problemau posibl o ran goruchwyllo a derbyn adborth amserol.

5.14 Sut mae'r asesiad achredu terfynol yn gweithio?

Bydd y broses ychydig yn wahanol, yn dibynnu ar y model hyfforddi. Dylai penderfyniadau i gyflwyno gael eu cefnogi gan oruchwyllydd / goruchwylwyr yr unigolyn (os oes ganddo un).

RHAGLEN HYFFORDDI INTEGREDIG

Gall unigolion gyflwyno eu e-bortffolios ar gyfer adolygiad penderfyniad terfynol gan bwyllgor cymhwysedd pan:

- Fydd yr holl ganlyniadau cwricwlwm a sgiliau asesu clinigol wedi'u cwblhau;
- Fydd unrhyw asesiadau crynodedol ychwanegol sy'n ofynnol gan y sefydliad addysg uwch i fodloni eu rheoliadau academaidd wedi'u cwblhau.

RHAGLEN HYFFORDDI MODWLAR

Gall unigolion gyflwyno eu e-bortffolios ar gyfer adolygiad penderfyniad terfynol gan bwyllgor cymhwysedd pan:

- Fyddant wedi cyflawni'r canlyniadau rhagnodi annibynnol ac unrhyw sgiliau asesu clinigol na gafodd eu hasesu yn ystod y cwrs rhagnodi annibynnol arwahanol;
- Fydd y sefydliad addysg uwch wedi dyfarnu Tystysgrif Ymarfer mewn Rhagnodi Annibynnol ac wedi ei lanlwytho i'w e-bortffolio.

Gan ddiystyru'r model hyfforddi, sefydliad addysg uwch y dysgwr fydd y corff dyfarnu ar gyfer y Dystysgrif Ymarfer mewn Rhagnodi Annibynnol. Pan fydd gofynion y sefydliad addysg uwch ar gyfer rhagnodi annibynnol yn cael eu diwallu'n llawn gan raglen asesu'r RPS, gall yr asesiad crynodedol terfynol weithredu fel asesiad crynodedol terfynol deuol, a byddai'r sefydliad addysg uwch a'r RPS yn cytuno ar hyn.

Gan ddefnyddio'r data asesu a gasgliwyd o amrywiaeth o ffynonellau trwy gydol y rhaglen, bydd pwyllgorau cymhwysedd sylfaen ôl-gofrestru

yn adolygu gwybodaeth perfformiad i asesu a yw'r dysgwr wedi cyflawni'r lefel isaf o berfformiad er mwyn cael ei achredu.

Er mwyn cael ei achredu, rhaid bod yr unigolyn wedi derbyn y Dystysgrif Ymarfer mewn Rhagnodi Annibynnol.

PWYLLGORAU CYMHWYSEDD SYLFAEN ÔL-GOFRESTRU

Mae pwyllgorau cymhwysedd sylfaen ôl-gofrestru yn seiliedig ar y cysyniad o bwyllgorau cymhwysedd clinigol sy'n cael eu cydnabod yn y llenyddiaeth fel dull effeithiol o ddod i benderfyniadau terfynol ar gynydd unigolion trwy ddull rhaglennol o ddysgu ac asesu.

Bydd aelodau pwyllgor cymhwysedd sylfaen ôl-gofrestru yn cynnal adolygiad cyfannol annibynnol o gynnwys portffolio'r unigolyn, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, adborth digwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth, arolygon cleifion, adborth aml-ffynhonnell, fformatau tystiolaeth eraill, cynlluniau gweithredu, cyfrifon myfyriol a'r adolygiadau cynnydd canolraddol. Yna, bydd y pwyllgor cymhwysedd sylfaen ôl-gofrestru yn cynnal trafodaeth grŵp i gytuno a yw gofynion y cwricwlwm wedi'u bodloni ai peidio.

Bydd pwyllgorau cymhwysedd sylfaen ôl-gofrestru yn cynnwys o leiaf dri aelod o'r panel; lle mae'r broses hon hefyd yn gweithredu fel yr asesiad crynodol terfynol ar gyfer rhagnodi annibynnol (hynny yw, rhaglenni hyfforddi integredig), rhaid i un aelod o'r panel fod o'r tîm academaidd ym mhrifysgol y dysgwr. Rhaid i aelodau ychwanegol y panel gynrychioli'r rolau canlynol:

- Goruchwylydd addysgol (nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â goruchwyllo'r dysgwr);
- Fferylllydd gweithredol (sy'n ymarfer ar lefel y tu hwnt i'r safon a fynegir yn y cwricwlwm hwn);
- Rhagnodydd gweithredol (fferylllydd neu ragnodydd anfeddygol gydag o leiaf dwy flynedd o brofiad rhagnodi);
- Arbenigedd academaidd.

Mae cynnwys goruchwylwyr addysgol a goruchwylwyr ymarfer fel aelodau panel yn sicrhau bod gan y panel wybodaeth ac arbenigedd o hyfforddiant sylfaen ôl-gofrestru a, thrwy ddod

i gysylltiad â phroses y pwyllgor cymhwysedd sylfaen ôl-gofrestru, byddant yn atgyfnerthu pwysigrwydd y rolau hyn o fewn hyfforddiant sylfaen ôl-gofrestru.

Yn ogystal â'r tri aelod o'r panel, bydd uwch gynrychiolydd yr RPS yn cadeirio'r pwyllgor. Mae canlyniadau posibl y pwyllgor fel a ganlyn:

Safon wedi'i bodloni – mae'r unigolyn wedi darparu tystiolaeth foddhaol i ddangos ei fod wedi cyflawni holl ofynion y cwricwlwm sylfaen ôl-gofrestru o dan asesiad.

Safon heb ei bodloni – nid yw'r unigolyn wedi darparu tystiolaeth foddhaol i ddangos ei fod wedi cyflawni holl ofynion y cwricwlwm sylfaen ôl-gofrestru sy'n cael eu hasesu. Gall y canlyniad hwn ddeillio o un neu'r ddau o'r canlynol: Bydd adborth clir yn cael ei ddarparu ar pa ganlyniadau sydd heb eu bodloni a pam fydd yr unigolyn angen cael ei ail-asesi yn un neu fwy o'r meysydd o'r cwricwlwm. Ni fydd yr unigolyn angen ailgyflwyno tystiolaeth i'r meysydd ble mae'r PCSO wedi cytuno bod y cynnydd yn y maes wedi eu cyrraedd.

Tystiolaeth annigonol – Er bydd rhai o'r dystiolaeth sydd wedi'i ddarparu yn nodi mae'r unigolyn yn ymarfer ar y lefel ddisgwyliedig, oherwydd bylchau yn y dystiolaeth ni all y panel wneud unrhyw ddatganiad hyderus bod y safon ofynnol wedi cael ei gyflawni. Bydd yr unigolyn angen ailgyflwyno i gael ei ail-asesi ar y maes/meysydd lle nad yw ddigon o dystiolaeth wedi cael ei ddarparu. Ni fydd yr unigolyn angen ailgyflwyno tystiolaeth i'r meysydd ble mae'r PCSO wedi cytuno bod y cynnydd yn y maes wedi eu cyrraedd.

5.15 Sut y gellir sicrhau ansawdd yr asesiad achredu terfynol?

Mae mecanweithiau sicrwydd ansawdd ar waith i sicrhau ansawdd parhaus y rhaglen asesu er mwyn sicrhau bod canlyniadau asesu yn deg ac yn ddilys. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Darpariaeth canllawiau manwl i'r rheini sy'n ymgymryd â'r rhaglen, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud â'u dysgu, er mwyn sicrhau tryloywder yn y safon ddisgwyliedig a'r broses asesu;
- Gwahoddir pawb sy'n ymgymryd â'r rhaglen, gan gynnwys y rheini sy'n cyflwyno ar gyfer yr asesiad, i roi adborth ar eu profiadau er mwyn llywio gwelliant yn y dyfodol;
- Bydd data canlyniadau perfformiad ac asesiad dysgwyr yn destun dadansoddiad seicometrig a fydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Banel Asesu Fferyllwyr Sylfaen Ôl-gofrestru'r RPS a Phwyllgor Addysg a Safonau'r RPS. Mae'r strwythurau llywodraethu hyn yn gyfrifol am adolygu tueddiadau perfformiad hydredol;
- Darperir arweiniad a hyfforddiant i oruchwylwyr a chydweithwyr i sicrhau eu bod yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac i wella ansawdd y gefnogaeth a'r adborth a ddarperir yn ystod y rhaglen;
- Mae prosesau gweithredol cadarn ar waith i sicrhau cysondeb a thegwch wrth redeg y pwyllgorau cymhwysedd sylfaen ôl-gofrestru;
- Bydd aelodau o'r gronfa pwyllgor cymhwysedd sylfaen ôl-gofrestru yn destun hyfforddiant gorfodol cyn adolygu portffolios byw;
- Gofynnir i aelodau o'r gronfa pwyllgor cymhwysedd sylfaen ôl-gofrestru ddatgan unrhyw wrthdrawiadau buddiannau posibl gydag ymgeiswyr i sicrhau asesiad annibynnol a theg;
- Bydd y rhaglen asesu yn cael ei hadolygu'n annibynnol gan arbenigwr asesu ar ôl ei blwyddyn gyntaf i sicrhau ei bod yn ddilys ac yn addas at y diben. Bydd y cwricwlwm, gan gynnwys y rhaglen asesu, hefyd yn destun adolygiad blynyddol gan is-bwyllgor y Panel Asesu Sylfaen Ôl-gofrestru i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol i ymarfer;

- Bydd proses apelio dryloyw ar gael i unigolion sy'n cael eu hasesu, os ydynt yn credu bod afreoleidd-dra gweithdrefnol neu weinyddol wedi effeithio ar eu canlyniad.

5.16 Sut mae dysgu ardystiedig blaenorol yn cael ei gydnabod?

Mae'r RPS wedi ymrwymo i osgoi dyblygu beichus o asesiadau, ond mae hefyd yn cydnabod ei ddyletswydd i amddiffyn cleifion a'r cyhoedd trwy sicrhau bod gan y rhai sy'n cael eu hachredu trwy'r rhaglen hon y wybodaeth, y sgiliau, yr ymddygiadau a'r profiad angenrheidiol i ymarfer yn ddiogel. Byddwn yn cyflawni hyn trwy broses o achredu dysgu ardystiedig blaenorol; a bydd y broses yn cael ei defnyddio i eithrio dysgwyr o ganlyniadau cwricwlwm fel rhan o gymhwyster ôl-gofrestru ehangach yr RPS ac ni fydd yn gysylltiedig ag unrhyw ddyfarniad sefydliad addysg uwch.

Mae achredu dysgu ardystiedig blaenorol yn rhoi cydnabyddiaeth i ddysgu sydd wedi'i asesu'n ffurfiol ac y dyfarnwyd tystysgrif ar ei gyfer; mae'r broses hon yn osgoi dyblygu asesiadau ar gyfer unigolion sy'n ymgymryd â'r rhaglen hon. Mae'r broses o roi cydnabyddiaeth yn seiliedig ar gymhariaeth o unrhyw lefel perfformiad a ardystiwyd yn flaenorol yn erbyn y canlyniadau a'r disgrifyddion a ddiffinnir yn rhaglen ddysgu'r cwricwlwm hwn.

Bydd yr RPS yn ystyried achredu ceisiadau dysgu ardystiedig blaenorol trwy gymhwyso'r egwyddorion canlynol:

- Byddwn yn cymeradwyo achrediad dysgu ardystiedig blaenorol ar gyfer canlyniadau risg uchel sy'n ymwneud â rhagnodi (yn unol â'r glasbrint asesu), os yw'r unigolyn wedi derbyn Tystysgrif Ymarfer mewn Rhagnodi Annibynnol ar gyfer cwrs sydd wedi'i achredu gan y GPhC (gweler isod) yn unig;
- Gellir dyfarnu achrediad dysgu ardystiedig blaenorol i eithrio unigolion rhag cael eu hasesu yn erbyn canlyniadau risg canolog a chanlyniadau risg isel;
- Rhaid i bob achrediad o geisiadau dysgu ardystiedig blaenorol fod yn berthnasol, yn wir ac yn ddilys;

- Rhaid i bob achrediad o geisiadau dysgu ardystiedig blaenorol fod ar yr un lefel o berfformiad, fel y disgrifir yn rhaglen ddysgu'r cwricwlwm hwn;
- Rhaid peidio â pheryglu diogelwch cleifion o dan unrhyw amgylchiadau.

Os yw unigolyn eisoes wedi derbyn Tystysgrif Ymarfer mewn Rhagnodi Annibynnol, dylid lanlwytho ei dystysgrif i'w e-bortffolio ac mae'r achrediad canlynol o ddysgu ardystiedig blaenorol yn berthnasol:

- Canlyniadau'r cwricwlwm wedi'u hanodi 'canlyniad IP' yn y glasbrint asesu – wedi'i eithrio;
- Sgiliau asesu clinigol craidd – mae'n ofynnol i'r unigolyn arddangos ei fod yn gallu perfformio pob sgil yn gymwys trwy ardystiad o hyfforddiant blaenorol. Dylid asesu unrhyw sgiliau asesu clinigol craidd sydd yn weddill trwy Arsylwi Sgiliau Ymarferol yn Uniongyrchol (DOPS), yn unol â'r glasbrint asesu.

Os yw unigolyn wedi cyflawni dysgu ardystiedig trwy sefydliadau ôl-raddedig eraill, e.e. cymhwyster Diploma / Meistr neu gwrs ardystiedig arall, efallai y bydd hyn yn gallu ei eithrio rhag asesiadau risg canolig a / neu risg isel perthnasol.

Er mwyn dod i benderfyniad, bydd angen i'r unigolyn gyflwyno achrediad cais dysgu ardystiedig blaenorol i'w adolygu gan asesydd dysgu ardystiedig blaenorol yr RPS. Bydd angen i'r unigolyn ddarparu copi o'r dystysgrif a / neu'r trawsgrifiad perthnasol, gwybodaeth am ganlyniadau'r cwricwlwm a / neu'r meini prawf asesu, a bydd angen iddo gynnal ymarfer mapio i ddangos pa ganlyniadau y mae'r dysgu ardystiedig yn eu diwallu.

Yn ogystal, gellir cyflwyno dysgu ardystiedig blaenorol (diweddar) fel tystiolaeth gyfrannol ar gyfer cyflawni'r canlyniadau risg uchel.

5.17 Sut ydym ni'n sicrhau bod yr asesiad achredu terfynol yn gynhwysol a bod unrhyw ragfarn bosibl yn cael ei liniaru?

Mae'r RPS wedi ymrwymo i ddatblygu a darparu asesiadau cynhwysol sy'n caniatáu i unrhyw unigolyn arddangos canlyniadau'r cwricwlwm heb ragfarn.

Yn ychwanegol at y mesurau a amlinellir yn **adran 3.5**, er mwyn sicrhau bod ein rhaglen asesu yn deg i bawb, mae gan yr RPS nifer o fesurau ar waith i liniaru rhagfarn a gwahaniaethu yn erbyn dysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Hyrwyddo cynwysoldeb ac amrywiaeth yn ein strwythurau llywodraethu asesu i sicrhau bod ein haelodaeth yn adlewyrchu amrywiaeth y rhai sy'n ymgymryd â'r rhaglenni asesu;
- Sicrhau bod paneli asesu wedi ymgymryd â hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant sy'n ymwneud â rhagfarn ymwybodol ac anymwybodol;
- Tasgio ein paneli asesu a'n bwrdd llywodraethu ansawdd cyffredinol i fonitro a mynd i'r afael â chyrhaeddiad gwahaniaethol yn ein rhaglenni asesu;
- Coladu a chyhoeddi data cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n gysylltiedig â pherfformiad asesu mewn modd tryloyw;
- Darparu prosesau addasu rhesymol a chlir i unrhyw un sy'n cynnal yr asesiad ac sy'n gofyn amdanynt ar sail anabled.

6

Atodiadau

6.1 Dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol

Diffiniad

Mae dysgwr sydd angen cymorth ychwanegol yn ddysgwr nad yw'n gwneud y cynnydd disgwyledig gyda'i hyfforddiant neu sy'n gweld rhai elfennau o'u hyfforddiant yn heriol ac sydd angen cefnogaeth ychwanegol.

Gall dysgwr sydd angen cymorth ychwanegol gyflwyno mewn gwahanol ffyrdd, sy'n tueddu i ddod o fewn y categorïau canlynol:

- Galluedd
- Ffactorau iechyd / personol
- Ymddygiad

Efallai na fydd materion sy'n effeithio ar hyfforddiant yn gysylltiedig â gallu unigol y dysgwr a gallant ymwneud â'r lleoliad hyfforddi, perthynas y dysgwr / goruchwylydd neu fod yn rhyngweithiad cymhleth rhwng sawl ffactor.

EGWYDDORION AR GYFER CEFNOGI DYSGWYR SYDD ANGEN CYMORTH YCHWANEGOL

Dylai rhaglenni hyfforddi sicrhau bod eu canllaw ar gyfer dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol yn cwmpasu'r egwyddorion canlynol:

1. Dylai diogelwch cleifion fod yn brif ystyriaeth bob amser.
2. Dylai prosesau teg, cyson a thryloyw fod yn hygyrch i bob parti.
3. Dylid ceisio adnabod dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol yn gynnar ac archwilio materion lle bynnag y bo modd i geisio atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu.
 - Cyfrifoldeb y goruchwylydd / goruchwylwyr ymarfer a chydweithwyr eraill y mae'r dysgwr yn gweithio gyda nhw yw nodi arwyddion rhybuddio cynnar a rhoi gwybod amdanynt yn brydlon i'r goruchwylydd addysgol (a'r ymarferydd rhagnodi dynodedig, os yw'n gysylltiedig ag ymarfer rhagnodi).
 - Dylid sefydlu a chael esboniad o'r ffeithiau a'r amgylchiadau trwy gasglu tystiolaeth o gynifer o ffynonellau â phosibl i wneud asesiad cywir cyn cwrdd â'r dysgwr.

- Gall data asesu hefyd gefnogi'r broses o adnabod dysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd, er enghraifft:
 - Diffyg ymgysylltu – heb gwblhau unrhyw ddigwyddiadau dysgu dan oruchwyliaeth yn ystod y tri mis diwethaf;
 - Pryderon ynghylch gallu – mae pum digwyddiad dysgu blaenorol dan oruchwyliaeth y dysgwr yn is na'r lefel perfformiad disgwyledig ar gyfer y cam hwnnw o'r rhaglen.
- Archwiliwch yr achos neu'r achosion sylfaenol:
 - Perfformiad clinigol (gwybodaeth, sgiliau, cyfathrebu)
 - Problemau o ran personoliaeth ac ymddygiad (proffesiynoldeb, cymhelliant)
 - Salwch / afiachusrwydd (straen personol / teuluol, rhwystredigaeth gofalwr, ariannol)
 - Anhawster dysgu neu anabledd corfforol (efallai nad yw'r dysgwr wedi cael diagnosis o ran yr anhawster dysgu)
 - Materion amgylcheddol (sefydliadol, llwyth gwaith, bwlio, aflonyddwch)
 - Ystyriwch yr angen am gyngor allanol (e.e. Adnoddau Dynol) neu atgyfeirio (e.e. Iechyd Galwedigaethol).
 - Bydd y llwybr uwchgyfeirio yn dibynnu ar ddiifrifoldeb a dyfalbarhad y pryderon a, phan ystyrir ei fod yn angenrheidiol, bydd angen hysbysu'r cyflogwr, y corff comisiynu addysg a'r darparwr hyfforddiant.
4. Ffafirir ymyriadau lleol gyda dysgwyr lle bynnag y bo modd.
- Mae dysgwyr a goruchwylwyr yn y sefyllfa orau i drafod a gweithredu strategaethau cymorth wedi'u teilwra i'r unigolyn, gan gynnwys cefnogaeth fugeiliol.
5. Dylid cynnal dogfennaeth briodol i gefnogi unrhyw bryderon, trafodaethau, penderfyniadau a chynlluniau dilynol sy'n gysylltiedig â'r dysgwr.
- Dylai cynllun gweithredu wedi'i ddogfennu gefnogi'r dysgwr a mynd i'r afael â'r materion a godwyd trwy ddarparu camau gweithredu clir, cyfrifoldebau, canlyniadau disgwyledig a dyddiadau adolygu. Dylid datblygu hyn mewn ymgynghoriad a chytundeb gyda'r dysgwr a darparu copi iddynt.
 - Yn ogystal â ble y dylid ei chadw ac am ba hyd, dylai fformat a chynnwys unrhyw ddogfennaeth alinio â lefel y pryder.
 - Dylai dogfennaeth bob amser fod yn wrthrychol, yn deg ac yn gytbwys.
6. Dylai pob goruchwyllydd addysgol, goruchwyllydd ymarfer ac ymarferydd rhagnodi dynodedig gael cefnogaeth a chael cynnig hyfforddiant yn y meysydd canlynol:
- Rheoli hyfforddeion sydd mewn anhawster gyda chyfranogiad / cefnogaeth gan uwch gydweithwyr priodol, adnoddau dynol, ac ati, yn ôl yr angen;
 - Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb, a deall yr heriau ychwanegol y gallai rhai dysgwyr eu profi yn ystod eu hyfforddiant.
7. Prif nod cefnogi dysgwyr mewn anhawster yw dod o hyd i ddatrysiaid i hwyluso cynnydd boddhaol o ran y rhaglen hyfforddi; dylai'r dysgwr gael ei gefnogi a'i annog i gyflawni hyn.
8. Mae angen rhoi sylw dyladwy i gyfrinachedd wrth gasglu gwybodaeth, gwneud asesiadau, ymateb i faterion a chofnodi pryderon.
9. Mae rolau a chyfrifoldebau a'r llwybr uwchgyfeirio ar gyfer rheoli dysgwyr sydd angen cymorth ychwanegol wedi'u cynnwys yng nghanllawiau unigol y rhaglen sylfaen ôl-gofrestru.

7

Llyfryddiaeth

Albritton TA, Fincher RM, Work JA (1996). Group evaluation of student performance in a clerkship. *Academic Medicine*, 71(5), pp 551– 552.

AoMRC (2015) Guidance for standard setting: A framework for high stakes postgraduate competency-based examinations, https://www.aomrc.org.uk/wp-content/uploads/2016/05/Standard_setting_framework_postgrad_exams_1015.pdf

British Pharmacological Society. Ten principles of good prescribing. Available at <https://www.bps.ac.uk/education-engagement/teaching-pharmacology/ten-principles-of-good-prescribing> (accessed 7th October)

Coderre S, Woloschuk W, McLaughlin K (2009) Twelve tips for blueprinting. *Medical Teacher*, 31(4), pp 322–324

Duitsamn M.E., Fluit C.R.M.G., van Alfen-van der Velden JAEM, de Visser M, ten Kate-Booij M, Dolmans D.H.J.M., et al (2019). Design and evaluation of a clinical competency committee. Perspectives on Medical Education 8(1) ; 1–8

Doll A, Wright D. (2017) Pharmacy Competency Panels and e-portfolio Discovery Phase: Final report. Health Education England.

Downing, SM (2003) Validity: on the meaningful interpretation of assessment data. *Medical Education*, 37(9), pp 830–837

General Medical Council (GMC) (2011) Assessment in undergraduate medical education Advice supplementary to Tomorrow's Doctors (2009), GMC, London, https://www.gmc-uk.org/-/media/documents/Assessment_in_undergraduate_medical_education___guidance_0815.pdf_56439668.pdf

General Medical Council (2017) Designing and maintaining postgraduate assessment programmes, https://www.gmc-uk.org/-/media/documents/designing-and-maintaining-postgraduate-assessment-programmes-0517_pdf-70434370.pdf

General Medical Council (2017) Excellence by design: standards for postgraduate curricula, https://www.gmc-uk.org/-/media/documents/excellence-by-design---standards-for-postgraduate-curricula-0517_pdf-70436125.pdf

General Pharmaceutical Council (2021) Standards for the initial education and training of pharmacists <https://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/document/standards-for-the-initial-education-and-training-of-pharmacists-january-2021.pdf>

General Pharmaceutical Council (2019) Standards for the education and training of pharmacist independent prescribers <https://www.pharmacyregulation.org/sites/default/files/document/standards-for-the-education-and-training-of-pharmacist-independent-prescribers-january-19.pdf>

Girvin, B., Akpan, U., Hampson, N., Middleton, H., Sims, L., & Barry, H. (2020). Establishing the roles undertaken and clinical skills needed by general practice-based pharmacists: a web-based survey. *Pharmacy Education*, 20(1), pp 253–253

Harden, RM, Crosby, JR, Davis, MH (1999) 'An introduction to outcome-based education' in ed Lilley, P, Outcome-based education AMEE Medical Education Guide No 14

Health Professional Assessment Consultancy (HPAC) (2016) Final Report for the provision of identifying key principles for consistency and reliability in curricula and assessment frameworks

Hauer KE, Chesluk B, Lobst W, Holmboe E, Baron RB, Robert B, et al (2015). Reviewing residents' competence: a qualitative study of the role of clinical competency committees in performance assessment. *Academic Medicine*, 90 (8), pp 1084– 1092

Hauer KE, ten Cate O, Boscardin CK, Lobst W, Holmboe ES, Baron RB, et al (2016). Ensuring resident competence: a narrative review of the literature on group decision making to inform the work of clinical competency committee. *Journal of Graduate Medical Education*, 8(2), pp 156–164

Kerr NL, Tindale RS (2004). Group performance and decision making. *Annual Review of Psychology*, 55 (1), pp 623– 655.

Kinnear B, Warm EJ, Hauer KE (2018): Twelve tips to maximize the value of a clinical competency committee in postgraduate medical education, *Medical Teacher*, DOI: 10.1080/0142159X.2018.1474191

Manley, K. (1997) A conceptual framework for advanced practice: an action research project operationalising an advanced practitioner/nurse consultant role, *Journal of Clinical Nursing*, 6 (3), pp.179–190

Michaelsen LK, Watson WE, Black RH. A realistic test of individual versus group consensus decision making. *Journal of Applied Psychology*. 1989; 74 (5), pp 834– 839.

Miller, G. (1990). The assessment of clinical skills/competence/performance. *Academic Medicine*, 65, S63–S67.

NHS Health Education England. Pre-registration Pharmacist in General Practice Handbook 2020/2021 https://www.hee.nhs.uk/sites/default/files/documents/Programme%20Handbook%20-%20July%2020_2.pdf

NHS Health Research Authority. UK Policy Framework for Health and Social Care Research <https://www.hra.nhs.uk/planning-and-improving-research/policies-standards-legislation/uk-policy-framework-health-social-care-research/uk-policy-framework-health-and-social-care-research/> Last updated 6/05/2020, Accessed 4/01/2021

Pena A (2010) The Dreyfus model of clinical problem-solving skills acquisition: a critical perspective. *Medical Education Online*, 15: 4846 – DOI: 10.3402/meo.v15i0.4846 <https://www.ncbi.nlm.nih.gov/pmc/articles/PMC2887319/pdf/MEO-15-4846.pdf>

Regan de Bere, S, Suzanne Nunn, Mona Nasser (2015) Understanding differential attainment across medical training pathways: A rapid review of the literature Final report prepared for The General Medical Council, GMC commissioned literature review, www.gmcuk.org/GMC_Understanding_Differential_Attainment.pdf_63533431.pdf

Robert Gordon University Aberdeen and NHS Highland. Clinical skills and procedures logbook. Master of Pharmacy, Pharmacy Longitudinal Clerkship 2019/2020

Royal College of General Practitioners (2019) RCGP Curriculum: Being a General Practitioner, <https://www.rcgp.org.uk/-/media/Files/GP-training-and-exams/Curriculum-2019/RCGPJ7408-Being-A-GP-Curriculum-WEB-v21910.ashx?la=en>

Royal College of Paediatrics and Child Health (2018) RCPCH Progress Paediatric curriculum for excellence, https://www.rcpch.ac.uk/sites/default/files/2018-10/RCPCH_Progress_CurriculumV1.pdf

Royal College of Physicians (2019) Curriculum for Internal Medicine Stage 1 Training, https://www.jrcptb.org.uk/sites/default/files/IM_Curriculum_Sept2519.pdf

Royal Pharmaceutical Society (2016) A Competency Framework for all Prescribers www.rpharms.com/Portals/0/RPS%20document%20library/Open%20access/Professional%20standards/Prescribing%20competency%20framework/prescribing-competency-framework.pdf?ver=2019-02-13-163215-030

Royal Pharmaceutical Society (2019) A Competency Framework for Designated Prescribing Practitioners <https://www.rpharms.com/Portals/0/RPS%20document%20library/Open%20access/Professional%20standards/DPP%20Framework/DPP%20competency%20framework%20Dec%202019.pdf?ver=2019-12-18-150746-160>

Royal Pharmaceutical Society (2019) The RPS Foundation Pharmacist Framework <https://www.rpharms.com/Portals/0/RPS%20document%20library/Open%20access/Foundation/RPS%20Foundation%20Pharmacy%20Framework.pdf?ver=2019-11-13-134125-950>

Schuwirth, L. W. T. and C. P. M. Van der Vleuten (2011). Programmatic assessment: From assessment of learning to assessment for learning. *Medical Teacher*, 33 (6), pp 478-485.

Schuwirth, L. W. T. and C. P. M. Van der Vleuten (2012). Programmatic assessment and Kane's validity perspective. *Medical Education*, 46 (1), pp 38-48.

Soleas, E., D. Dagnone, D. Stockley, K. Garton and R. van Wylick (2020). Developing Academic Advisors and Competence Committees members: A community approach to developing CBME faculty leaders. *Canadian medical education journal*, 11 (1), e46-e56.

Thoma, B., V. Bandi, R. Carey, D. Mondal, R. Woods, L. Martin and T. Chan (2020). Developing a dashboard to meet Competence Committee needs: a design-based research project. *Canadian medical education journal*, 11 (1), e16-e34.

Tochel, C., A. Haig, A. Hesketh, A. Cadzow, K. Beggs, I. Colthart and H. Peacock (2009). The effectiveness of portfolios for post-graduate assessment and education: BEME Guide No 12. *Medical Teacher*, 31 (4), 299-318.

Van Der Vleuten, C. P. M., L. W. T. Schuwirth, E. W. Driessen, M. J. B. Govaerts and S. Heeneman (2015). Twelve Tips for programmatic assessment. *Medical Teacher*, 37 (7), 641-646.

Woolf, C, Rich, A, Viney, R, Rigby, M, Needleman, S, Griffin, A (2016) Fair Training Pathways for All: Understanding Experiences of Progression Final Report, www.gmcuk.org/2016_04_28_FairPathwaysFinalReport.pdf_66939685.pdf

**Y GYMDEITHAS
FFERYLLOL
FRENHINOL**

